



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 15 Ebrill 2008  
Tuesday, 15 April 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

3	Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer
3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
32	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
40	Llyfrgelloedd Libraries
59	Cael Gwared ar TB TB Eradication

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

### **Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Cyn imi alw ar y Prif Weinidog i ateb cwestiynau, hoffwn gyfarch ein gwesteion anrhydeddus o Dde Cymru Newydd, Awstralia. Mae perthynas arbennig rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd De Cymru Newydd yn Sydney, ac mae'r byrlysg sydd o'n blaenau yn y Siambr hon yn arwydd parhaus ohoni. Mae'n bleser gennyf felly gyfarch Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol Senedd De Cymru Newydd, yr Anrhydeddus Richard Torbay, a hefyd Don Harwin, Aelod o Gyngor Deddfwriaethol Senedd De Cymru Newydd. Hyfryd yw eich gweld chi yma. Croeso mawr i chi i gyd.

**The Presiding Officer:** Before I call the First Minister to answer questions, I wish to greet our honourable guests from New South Wales, Australia. The National Assembly for Wales has a special relationship with the Parliament of New South Wales in Sydney, and the mace before us in the Chamber is a permanent symbol of that. It is therefore a pleasure to greet the Speaker of the Legislative Assembly of the Parliament of New South Wales, the Honourable Richard Torbay, as well as Don Harwin, Member of the Legislative Council of the Parliament of New South Wales. It is wonderful to see you here. A warm welcome to you all.

### **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

#### **Domestic Microgeneration**

**Q1 Mick Bates:** Will the First Minister make a statement on incentives for domestic microgeneration? OAQ(3)0880(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Householders can apply for grants under the low carbon building programme. That is not devolved to us and is not covered by the Barnett formula, which is a good thing given that 7.3 per cent of applications come from Wales, a figure well above our population share. Householders can get advice from the Energy Saving Trust's energy advice centres, which we do fund.

**Mick Bates:** First Minister, I must admit to being full of admiration for your commitment and belief that, through voluntary applications to the low carbon building programme, you will meet the ambitious

#### **Microgynhyrchu Domestig**

**C1 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymhelliannau ar gyfer microgynhyrchu domestig? OAQ(3)0880(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Gall deiliaid tai ymgeisio am grantiau dan y rhaglen adeiladu carbon isel. Nid yw hynny wedi'i ddatganoli inni ac nid yw fformiwla Barnett yn ymdrin ag ef, sy'n beth da o ystyried bod 7.3 y cant o geisiadau'n dod o Gymru, ffigur sy'n dipyn uwch na'n cyfran o'r boblogaeth. Gall deiliaid tai gael cyngor gan ganolfannau cyngor ar ynni yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sydd yn cael eu hariannu gennym ni.

**Mick Bates:** Brif Weinidog, rhaid imi gyfaddef fy mod yn edmygu'n fawr eich ymrwymiad a'ch cred y byddwch, drwy geisiadau gwirfoddol i'r rhaglen adeiladu carbon isel, yn cyrraedd y targedau

targets set in your microgeneration action plan. Do you not agree that the best incentive to install microgeneration systems would be to have the power over building regulations devolved to Wales, so that we can legislate for better standards? That will help to reduce carbon emissions and help to meet your Government's climate change targets. When will you take power over building regulations, First Minister?

**The First Minister:** I was grateful for your initial warm words of support, Mick, but, as I expected, there was a little sting in the tail. We continue to negotiate the transfer of functions controlling building regulations. You said that we should 'take power', but functions have to be transferred. That involves quite a complex negotiation, and you have to consult with all the stakeholders. We continue to press for that power to be transferred to us. In the meantime, the principle of voluntarily using the advice centres and the funding available for the low carbon building programme appears to be hitting the sweet spot in Wales. Proportionately, we appear to have 50 per cent more applications than would be expected from our population share.

**William Graham:** First Minister, you will agree that small-scale microgeneration facilities remain all too rare a sight, particularly in south-east Wales. Will you therefore publish details of your budget, in the hope of encouraging businesses and private individuals by making them aware of the incentives available?

**The First Minister:** As I said, we fund the Energy Saving Trust's energy advice centres, which give advice. That is devolved, or we have chosen to fund it. However, the low carbon building programme is UK wide, and we encourage people to apply to it. They are applying in substantial numbers, well above what would be expected from our population share in Wales.

**Cefnogi Perchnogion Busnesau**

uchelgeisiol a bennwyd yn eich cynllun gweithredu ar ficrogynhyrchu. Onid ydych yn cytuno mai'r cymhelliad gorau i osod systemau microgynhyrchu fyddai datganoli pŵer dros reoliadau adeiladu i Gymru, fel y gallwn ddeddfu ar gyfer gwell safonau? Bydd hynny'n helpu i leihau allyriadau carbon ac yn helpu i gyrraedd targedau eich Llywodraeth o ran newid yn yr hinsawdd. Pryd yr ymgwymerwch â phŵer dros reoliadau adeiladu, Brif Weinidog?

**Y Prif Weinidog:** Yr oeddwn yn ddiolchgar am eich geiriau cefnogol i ddechrau, Mick, ond, fel yr oeddwn yn disgwyl, yr oedd tro yn y gynffon. Yr ydym yn parhau i gynnal trafodaeth ynghylch trosglwyddo swyddogaethau sy'n rheoli rheoliadau adeiladu. Dywedasochn y dylem 'ymgymryd â phŵer', ond rhaid trosglwyddo swyddogaethau. Mae hynny'n golygu proses negodi eithaf cymhleth, a rhaid ichi ymgynghori â'r holl randdeiliaid. Yr ydym yn dal i bwysu am i'r pŵer hwnnw gael ei drosglwyddo inni. Yn y cyfamser, mae'n ymddangos bod egwyddor defnyddio'r canolfannau cynghori a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y rhaglen adeiladu carbon isel yn wirfoddol yn taro deuddeg yng Nghymru. Ymddengys ein bod yn cael 50 y cant yn fwy o geisiadau nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl gan ein cyfran o'r boblogaeth.

**William Graham:** Brif Weinidog, byddwch yn cytuno bod cyfleusterau microgynhyrchu ar raddfa fach yn dal yn rhy brin o lawer, yn enwedig yn y de-ddwyrain. A wnewch, felly, gyhoeddi manylion eich cyllideb, yn y gobaith y bydd busnesau ac unigolion preifat yn cael eu hannog drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymhelliannau sydd ar gael?

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, yr ydym yn ariannu canolfannau cyngor ar ynni'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sy'n rhoi cyngor. Mae hynny wedi'i ddatganoli, neu yr ydym wedi dewis ei ariannu. Fodd bynnag, mae'r rhaglen adeiladu carbon isel yn rhaglen drwy'r DU gyfan, ac yr ydym yn annog pobl i ymgeisio am grantiau ganddi. Mae llaweroedd yn ymgeisio, niferoedd llawer uwch nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl gan ein cyfran o'r boblogaeth yng Nghymru.

**Supporting Business Owners**

**C2 Paul Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad sy'n rhoi manylion blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi perchnogion busnesau yng Nghymru? OAQ(3)08845(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wythnos hon, bydd y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, yn lansio'r cynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes i ddarparu cymorth teilwredig fel y gall yr amrywiaeth lawn o fusnesau yng Nghymru sefydlu, tyfu a ffynnu. Mae'r gronfa fuddsoddi sengl, sy'n un o ymrwymadau 'Cymru'n Un', yn un rhan o'r amrediad o gymorth a gynigir gan Gymorth Hyblyg i Fusnes.

**Paul Davies:** Mae'n siŵr bod y Prif Weinidog yn cytuno y gall fod yn anodd rhedeg busnes, yn enwedig un bach yng nghefn gwlad. Mae codi treth fusnes ar eiddo gwag yn peri gofid i bobl y byd busnes ac i bobl fusnes sydd wedi ymddeol, yn enwedig gan fod y polisi hwn wedi'i gyflwyno y mis hwn. Yr oedd y cymorth gwerthfawr a oedd ar gael cyn cyflwyno'r polisi newydd o gymorth mawr i fusnesau a chwmnïau wrth aildefnyddio eu heiddo gwag, ac, o ganlyniad, mae wedi helpu rhai o'n hardaloedd tlotaf. Mae rhai busnesau yn methu â fforddio gwella eu heiddo oherwydd y dreth ychwanegol, ac felly maent yn dinistrio'r eiddo. Mae hefyd yn creu ansicrwydd ariannol i lawer o gwmnïau sydd ag eiddo gwag, ac yr wyf yn siŵr fod hynny'n cyfleu'r neges anghywir o ran cefnogi busnesau. Deallaf fod gan Lywodraeth y Cynulliad bŵer i adolygu'r polisi hwn. Dan yr amgylchiadau hynny, a fyddai'r Prif Weinidog yn fodlon ystyried edrych ar y dreth annheg hon?

**Y Prif Weinidog:** Mae gan y Cynulliad yr hawl i benderfynu peidio â chodi treth ar fusnesau gwag ond yr ydym wedi penderfynu na fyddai'r gost o ddod â'r rhyddhad ardrethi i mewn ar gyfer eiddo gwag yn y meysydd diwydiannol a masnachol, a allai fod cymaint â £40 miliwn, yn werth yr arian. Byddai'n rhaid inni ddod o hyd i'r arian hwnnw o rywle arall i dalu amdano. Mae'n rhaid ichi benderfynu ar yr hyn yr ydych am annog perchennog yr eiddo gwag i'w wneud. A ydych yn ceisio hybu'r perchennog i'w

**Q2 Paul Davies:** Will the First Minister make a statement detailing the Welsh Assembly Government's priorities for supporting business owners in Wales? OAQ(3)08845(FM)

**The First Minister:** The Deputy First Minister, Ieuan Wyn Jones, will this week launch the Flexible Support for Business scheme, to provide tailored support for the full range of Welsh businesses to start up, to grow and to prosper. The single investment fund, which is a 'One Wales' commitment, is part of the range of support on offer through Flexible Support for Business.

**Paul Davies:** I am certain that the First Minister agrees that it can be difficult to run a business, especially a small one in rural Wales. Levying business rates on vacant properties is a concern for business people and for retired business people, especially since this policy was introduced this month. The valuable assistance that was available prior to the introduction of the new policy was a great help to businesses and companies in re-using their vacant property, and, as a result, provided assistance to many of our poorest areas. Some businesses now cannot afford to renovate their properties because of the additional tax, and subsequently demolish the property. It also creates financial uncertainty for many companies that have vacant properties, and sends out the wrong message regarding business support. I understand that the Assembly Government has the power to review this policy. Under those circumstances, would the First Minister be willing to reconsider this inequitable tax?

**The First Minister:** The Assembly has the right to determine whether to levy rates on vacant business properties but we have decided that the cost of introducing rate relief for vacant industrial and commercial properties, which could be as much as £40 million, would not be value for money. We would have to find that money from elsewhere in order to pay for it. You have to decide on how you wish to encourage the owner of the vacant property. Do you want to encourage the owner to lease it quicker?

brydlesu'n gyflymach? Byddai llawer llai o gymhelliad i'r perchennog wneud hynny os yw'n cael rhyddhad ardrethi. Mae gorfod talu'r dreth yn gymhelliad i'w brydlesu'n gyflym. Efallai fod angen i'r perchennog ystyried a yw'n codi gormod os nad oes rhywun yn dod i brydlesu'r eiddo gwag oddi arno.

Ar y llaw arall, gall perchennog ystyried ailddatblygu'r eiddo ac efallai, tra bo'r perchennog yn cael trafodaethau gyda'r awdurdod cynllunio lleol ac yn aros am ganiatâd i ailddatblygu'r lle, bod angen y cymhelliad hwnnw o beidio gorfod talu'r dreth ar yr eiddo gwag. Mae'n dibynnu ar eich safbwynt. A gredwch ei bod yn bwysicach annog busnesau bach i brydlesu eiddo yn gyflymach neu i aros am y cyfle i ailddatblygu'r adeilad?

**Lesley Griffiths:** Since the Government established the sell2wales website for the Welsh public sector to identify businesses and invite them to tender for contracts, over 26,000 suppliers have registered on the portal and now receive e-mail notification of future contract opportunities. Do you agree that this kind of proactivity by the Government ensures that Welsh companies, both large and small, stay ahead of the game in attracting new customers and that this is good news for Welsh business and, in the longer term, excellent news for the Welsh economy as a whole?

**The First Minister:** I agree. The figures show that every 1 per cent in business won by Welsh-based suppliers creates up to an additional 2,000 jobs in Wales. The figures that we have show that, over the past few years, the value of public sector contracts won by Welsh-based companies has increased from 35 to 49 per cent of public sector contracts. That extra 14 per cent is the equivalent of something close to 28,000 jobs.

**Kirsty Williams:** The small business confidence index from the Bank of Scotland shows that there has been a drop in confidence levels among entrepreneurs in Wales for the fourth quarter in a row. It has dropped some 25 per cent on where we were

There would be much less incentive on the owner to do so if the owner were receiving rate relief. Levying the tax is an incentive for the owner to lease it quicker. Maybe the owner needs to consider whether he is charging too much if he is unable to lease the vacant property.

On the other hand, the owner could consider redeveloping the property and perhaps, while the owner is in negotiations with the local planning authority and waiting for permission to redevelop, the owner needs that incentive of not having to pay rates on the vacant property. It depends on your perspective. Do you think it is more important to encourage small businesses to lease their property quicker or to wait for the opportunity to redevelop the building?

**Lesley Griffiths:** Ers i'r Llywodraeth sefydlu'r wefan gwerthwehigymru i sector cyhoeddus Cymru ganfod busnesau a'u gwahodd i dendro am gontractau, mae dros 26,000 o gyflenwyr wedi cofrestru ar y porth ac maent bellach yn cael hysbysiad drwy e-bost am gyfleoedd i gael contractau i'r dyfodol. A gytunwch fod y math hwn o weithredu rhagweithiol gan y Llywodraeth yn sicrhau bod cwmnïau Cymru, rhai mawr a rhai bach, yn aros ar flaen y gad o ran denu cwsmeriaid newydd, a bod hyn yn newyddion da i fusnesau Cymru ac, yn y tymor hwy, yn newyddion ardderchog i economi Cymru yn gyffredinol?

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf. Mae'r ffigurau'n dangos bod pob 1 y cant o fusnes a enillir gan gyflenwyr yng Nghymru'n creu hyd at 2,000 o swyddi ychwanegol yng Nghymru. Mae'r ffigurau sydd gennym yn dangos bod gwerth contractau'r sector cyhoeddus a enillwyd gan gwmnïau yng Nghymru, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cynyddu o 35 i 49 y cant o gontractau'r sector cyhoeddus. Mae'r 14 y cant ychwanegol hwnnw'n gyfwerth â thua 28,000 o swyddi.

**Kirsty Williams:** Mae mynegai hyder busnesau bach Banc yr Alban yn dangos bod gostyngiad wedi bod yn lefelau hyder entrepreneuriaid Cymru am y pedwerydd chwarter yn olynol. Mae wedi gostwng tua 25 y cant o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd.

this time last year. Only one in five businesses now think that it is a good time to be in business in Wales. Whereas 39 per cent of small businesses in Wales last year were anticipating taking on more staff, that figure has now dropped to 13 per cent. What discussions are you having with your colleagues in Westminster to co-ordinate a policy? The economic difficulties being experienced in a global market are sure to have an effect here in Wales.

**The First Minister:** Late 2007 and the beginning of 2008 were certainly difficult periods for business. Certain businesses, such as those involved in house-building, financial services, estate agency and so on, are going through a pretty torrid time. You would have to accept that. We hope that the effect of the credit crunch can be foreshortened, but no-one can pretend that there is not an effect. It is a global effect and we are not insulated from it. It is worse in the USA than it is here. You will find that other sectors of industry, such as manufacturing, look as though they are coming through better than expected, because of the impact of the pound's devaluation relative to the euro on intra-European trade. When you look at the index of production and that of manufacturing, you see that Wales appears to be weathering the storm quite well, so it is not universal doom and gloom at all.

**Mohammad Asghar:** The all-Wales purchasing code of practice mentioned in 'One Wales' will help smaller companies by making it easier for small, local firms in Wales to win Government contracts. Can the First Minister give us an update on the work on the code of practice?

2.10 p.m.

**The First Minister:** I mentioned some of this earlier. We should note the contribution of the business procurement taskforce that Andrew Davies set up several years ago. It created the purchasing code of practice to encourage smaller, more local suppliers to bid for contracts. If you are to bid, you have to have a chance of getting the contract, and someone has to marry you with the buyers

Bellach, dim ond un o bob pum cwmni sy'n meddwl ei bod yn amser da i fod mewn busnes yng Nghymru. Tra oedd 39 y cant o fusnesau bach yng Nghymru y llynedd yn rhagweld penodi rhagor o staff, mae'r ffigur hwnnw bellach wedi gostwng i 13 y cant. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cynnal gyda'ch cyd-aelodau yn San Steffan i gydlynu polisi? Mae'r anawsterau economaidd a wynebir mewn marchnad fyd-eang yn siŵr o gael effaith yma yng Nghymru.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr, yr oedd diwedd 2007 a dechrau 2008 yn gyfnodau anodd i fusnesau. Mae rhai busnesau, megis y rhai sy'n ymwneud ag adeiladu tai, gwasanaethau ariannol, asiantaethau tai ac yn y blaen, yn cael llawer iawn o broblemau. Byddai'n rhaid ichi dderbyn hynny. Gobeithiwn y gellir lleihau effaith yr argyfwng credyd, ond ni all neb gymryd arno na fydd effaith. Mae'n effaith fyd-eang ac nid ydym wedi ein hynysu rhagddi. Mae'n waeth yn UDA nag y mae yma. Gwelwch fod sectorau eraill ym maes diwydiant, megis gweithgynhyrchu, yn edrych fel petaent yn ymdopi'n well nag y disgwyliid, oherwydd effaith y gostyngiad yng ngwerth y bunt o'i chymharu â'r ewro ar fasnach o fewn Ewrop. Pan edrychwch ar fynegai cynhyrchu a mynegai gweithgynhyrchu, gwelwch ei bod yn ymddangos bod Cymru'n ymdopi'n eithaf da â'r sefyllfa, felly nid yw pethau'n ddu i gyd o bellffordd.

**Mohammad Asghar:** Bydd y cod ymarfer prynu ar gyfer Cymru gyfan y sonnir amdano yn 'Cymru'n Un' yn helpu cwmnïau llai drwy ei gwneud yn haws i gwmnïau bach, lleol yng Nghymru ennill contractau'r Llywodraeth. A all y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith ar y cod ymarfer?

**Y Prif Weinidog:** Soniais am rywfaint o hyn yn gynharach. Dylem nodi cyfraniad y tasglu caffael busnes a sefydlwyd gan Andrew Davies amryw o flynyddoedd yn ôl. Creodd y tasglu y cod ymarfer prynu er mwyn annog cyflenwyr llai, mwy lleol i gynnig am gontractau. Os ydych am gynnig, rhaid ichi fod â chyfle i gael y contract, a rhaid i rywun eich paru â'r prynwyr o'r sector cyhoeddus

from the public sector so that you have the confidence to think that you could qualify. Much of the ridiculously onerous pre-contract or pre-tender qualifying terms—you must have been in business for at least four years and must show continuously rising profits and must have taken on two contracts of the equivalent size previously and so on—has now gone, so it is now much easier for people to get on the tender list.

### Helping People in Debt

**Q3 Alun Davies:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's aims to help people in debt? OAQ(3)0873(FM)

**The First Minister:** Our financial inclusion strategy will build on the foundations laid by the review of overindebtedness and will propose a range of actions to tackle unmanageable debt, including increasing financial awareness and education, improving access to advice services and affordable credit, and increasing benefit take-up rates.

**Alun Davies:** You will be aware that debt and understanding personal financial problems continue to be major issues facing many thousands of people throughout Wales. You have outlined some of the Welsh Assembly Government's policies to encourage better and more effective financial management, but key for me to our ability as a Government to have an impact on the lives of those who have to live with debt is the credit union movement. Would you join me in congratulating Save-easy, the Llanelli and District Credit Union, on its work to help release people from debt? Could you also expand on how you believe that the commitments that the Government has made in 'One Wales' to support the development of credit unions and expand their services will be implemented by the Government over the next three years?

**The First Minister:** I accept that, and the comments that you made about the Llanelli credit union. It will, of course, take decades before credit unions in Wales achieve the size

fel bod gennych yr hyder i feddwl y gallech fod yn gymwys. Mae llawer o'r telerau chwethinllyd o feichus ar gyfer cymhwysu cyn y contract neu cyn y tendr—rhaid ichi fod mewn busnes ers pedair blynedd o leiaf a rhaid ichi ddangos elw sy'n codi'n barhaus a rhaid ichi fod wedi ymgymryd â dau contract o'r un maint o'r blaen ac yn y blaen—wedi mynd bellach, felly mae'n llawer haws i bobl ymuno â'r rhestr dendro.

### Helpu Pobl sydd mewn Dyled

**C3 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu pobl sydd mewn dyled? OAQ(3)0873(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bydd ein strategaeth cynhwysiant ariannol yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan yr adolygiad o orddyled yng Nghymru, a bydd yn cynnig amryw o gamau gweithredu i fynd i'r afael â dyledion na ellir eu rheoli, gan gynnwys gwella ymwybyddiaeth ariannol ac addysg ariannol, ei gwneud yn haws cael gwasanaethau cynghori a chredyd fforddiadwy a chynyddu'r nifer sy'n hawlio'u budd-daliadau.

**Alun Davies:** Byddwch yn ymwybodol bod dyled a deall problemau ariannol personol yn parhau'n faterion mawr sy'n wynebu miloedd lawer o bobl ledled Cymru. Yr ydych wedi amlinellu rhai o bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i annog gwell rheolaeth ariannol a rheolaeth ariannol fwy effeithiol, ond yr hyn sy'n allweddol yn fy marn i o ran ein gallu fel Llywodraeth i gael effaith ar fywydau'r rhai sy'n gorfod byw mewn dyled yw mudiad yr undebau credyd. A ymunech â mi i longyfarch Save-easy, Undeb Credyd Llanelli a'r Cylch, ar ei waith i helpu i ryddhau pobl o ddyledion? A allech hefyd ymhelaethu ynghylch sut yr ydych yn credu y caiff yr ymrwymadau a wnaeth y Llywodraeth yn 'Cymru'n Un' i gefnogi datblygu undebau credyd ac ehangu eu gwasanaethau eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth dros y tair blynedd nesaf?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn derbyn hynny, yn ogystal â'ch sylwadau am undeb credyd Llanelli. Cymer ddegawdau, wrth gwrs, cyn i undebau credyd Cymru gyrraedd maint



that Irish or American credit unions have achieved, simply because of the late start of the credit union movement in the UK. The financial inclusion strategy that is now being developed by officials with Brian Gibbons, as the Minister responsible, is looking at the child trust fund Welsh premium, supporting the further development and diversification of credit unions, an integrated approach to income maximisation to ensure that people get the full benefits to which they are entitled, financial literacy and so on. There is also the issue of free-to-use ATMs—the hole-in-the-wall bank-teller machines—and ensuring that they are not just available in reasonably well-off areas, with machines that raise a charge in the less well-off areas, and trying to make sure that the arrangement between the banks means that there are sufficient ATMs in less well-off areas.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** The First Minister has spoken accurately about the more straitened economic times in which we are living. In light of that and the fact that there is £3 trillion in personal debt in the UK—it is a massive amount, and certainly the highest amount in Europe, per head of population—how does he feel about the withdrawal of the 10p tax band and is he making any representations to Westminster about this? It is hitting the most vulnerable and poorest people in society, many of whom have massive debts

**The First Minister:** I made my feelings on the 10p tax rate known recently, so I will not go into that again, but I think that we would all accept that, as the wage packets are rolled out this month—whether people are paid weekly, fortnightly or monthly—probably twice as many people will find that they are better off than worse off. That is my understanding of the situation. If you have children, you will usually find that the improvement in the child tax credit and child benefit outweighs the loss of the 10p tax band. If you do not have children, if you are an empty nester, aged over 50, on your own, or aged 18 to 25, and do not have high wages, you will probably find that you are worse off. The loss of that starting tax band

undebau credyd Iwerddon neu America, a hynny'n syml oherwydd bod y mudiad undebau credyd wedi dechrau'n hwyr yn y DU. Mae'r strategaeth cynhwysiant ariannol sy'n cael ei datblygu gan swyddogion gyda Brian Gibbons, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb, yn edrych ar y premiwm Cymreig i'r gronfa ymddiriedolaeth plant, ar gefnogi undebau credyd i ddatblygu ymhellach ac arallgyfeirio, ar ddull integredig o gynyddu incwm i sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau llawn y mae ganddynt hawl i'w cael, ar lythrennedd ariannol ac yn y blaen. Mater arall yw peiriannau ATM i'w defnyddio am ddim—y peiriannau twll yn y wal mewn banciau—a sicrhau nad mewn ardaloedd cymharol gyfoethog yn unig y maent ar gael, gyda pheiriannau sy'n codi tâl mewn ardaloedd cymharol dlawd, a cheisio sicrhau bod y trefniant rhwng y banciau'n golygu bod digon o beiriannau ATM mewn ardaloedd cymharol dlawd.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Mae'r Prif Weinidog wedi siarad yn gywir am y cyfnod economaidd mwy helbulus yr ydym yn byw ynddo. O ystyried hynny, yn ogystal â'r ffaith bod £3 triliwn o ddyledion personol yn y DU—mae'n swm enfawr, ac yn sicr dyna'r swm uchaf yn Ewrop, fesul pen o'r boblogaeth—beth yw ei farn ynghylch dod â'r band treth 10c i ben, ac a yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau i San Steffan am hyn? Mae'n taro'r bobl fwyaf agored i niwed a thlotaf yn ein cymdeithas, a dyledion enfawr gan lawer ohonynt.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi mynegi fy nheimpladau am y gyfradd dreth 10c yn ddiweddar, felly ni siaradaf am hynny eto, ond credaf y byddem oll yn derbyn, wrth i'r pecynnau cyflog gael eu cyflwyno y mis hwn—p'un a yw pobl yn cael eu talu'n wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol—y bydd cymaint ddwywaith o bobl, mae'n debyg, yn gweld eu bod ar eu hennill yn hytrach nag ar eu colled. Dyna sut yr wyf yn deall y sefyllfa. Os oes gennych blant, byddwch fel arfer yn gweld bod y gwelliant yn y credyd treth plant a'r budd-dal plant yn fwy na'r golled yn sgîl colli'r band treth 10c. Os nad oes gennych blant, os yw eich nyth yn wag, os ydych dros 50 oed, ar eich pen eich hun, neu'n 18 i 25 mlwydd oed, heb gyflog

was an essential part of a good welfare-to-work scheme.

That is why I am not keen on it, while I accept that it is, ultimately, the Treasury and the UK Government, and not us, that have to make the figures add up. Nevertheless, there is a differential impact in Wales, as we probably have higher numbers of people who will be adversely affected, because of the number of people here who are working close to the minimum wage.

**Nick Bourne:** I was not privileged to hear your earlier view about the 10p tax rate—that is probably true of many Members—but, from what you say, I take it that you are against the withdrawal of the 10p tax rate. I hope that that view has been conveyed to Westminster. Could you confirm that that is also the view of the Government?

I also have a specific question about fuel poverty. You have set an ambitious target of eradicating fuel poverty in vulnerable households by 2010. Energywatch said that, last year, 270,000 Welsh households were in fuel poverty—12.5 per cent of Welsh households—which is nearly a doubling of the 2004 figure. Given that we have seen massive increases in fuel prices—in January, British Gas increased its prices by 15 per cent, npower increased its prices by 12.7 per cent for electricity and 17.2 per cent for gas, and EDF Energy increased its prices by 7.9 per cent for electricity and 12.9 per cent for gas—and that the position seems to be deteriorating rather than improving in Wales, do you stick to that target? How do you explain the fact that you seem to be going backwards at the moment?

**The First Minister:** I have two points to make. First, you are right to interpret the views that I have just expressed as indicating that I do not think that it was good for Wales to have the 10p tax band withdrawn, although I am very much in favour of the improvements in child benefit and in the

uchel, mae'n debyg y byddwch ar eich colled. Yr oedd colli'r band treth cychwynnol hwnnw'n rhan hanfodol o gynllun 'o fudd-dal i waith' da.

Dyna pam nad wyf yn frwd iawn o'i blaid, er fy mod yn derbyn mai'r Trysorlys a Llywodraeth y DU, ac nid ni, sydd â'r cyfrifoldeb, yn y pen draw, o sicrhau bod y ffigurau'n dal dŵr. Fodd bynnag, ceir effaith wahaniaethol yng Nghymru, am fod gennym, mae'n debyg, nifer uwch o bobl yr effeithir yn andywol arnynt, oherwydd nifer y bobl sy'n gweithio am gyflog sy'n agos at yr isafswm cyflog.

**Nick Bourne:** Nid oeddwn yn ddigon ffodus i glywed eich safbwynt yn gynharach ynglŷn â'r gyfradd dreth 10c—mae'n siŵr bod hynny'n wir am lawer o Aelodau—ond, yn ôl yr hyn a ddywedwyd gennych, casglaf eich bod yn erbyn diddymu'r gyfradd dreth 10c. Gobeithiaf fod y safbwynt hwnnw wedi'i gyfleu i San Steffan. A allech gadarnhau mai hynny yw safbwynt y Llywodraeth hefyd?

Mae gennyf gwestiwn penodol hefyd am dlodi tanwydd. Yr ydych wedi gosod targed uchelgeisiol, sef dileu tlodi tanwydd mewn aelwydydd sy'n agored i niwed erbyn 2010. Yn ôl Golwg ar Ynni, yr oedd 270,000 o gartrefi yng Nghymru yn dlawd o ran tanwydd y llynedd—12.5 y cant o gartrefi Cymru—sydd bron cymaint ddwywaith â'r ffigur yn 2004. O ystyried ein bod wedi gweld cynnydd anferth mewn prisiau tanwydd—ym mis Ionawr, cododd Nwy Prydain ei brisiau 15 y cant, cododd npower ei brisiau 12.7 y cant am drydan a 17.2 y cant am nwy, a chododd EDF Energy ei brisiau 7.9 y cant am drydan a 12.9 y cant am nwy—a bod y sefyllfa, yn ôl pob golwg, yn gwaethygu yn hytrach na gwella yng Nghymru, a ydych yn glynu wrth y targed hwnnw? Sut yr ydych yn esbonio'r ffaith ei bod yn ymddangos eich bod yn symud tuag yn ôl ar hyn o bryd?

**Y Prif Weinidog:** Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud. Yn gyntaf, mae eich dehongliad o'r safbwynt yr wyf newydd ei fynegi yn gywir, sef nad wyf o'r farn bod ddiddymu'r band 10c yn beth da i Gymru, er fy mod yn frwd iawn o blaid y gwelliannau mewn budd-dal plant a'r credyd treth plant. Mae hynny'n

child tax credit. That gets the child poverty eradication strategy back on track after a few quiet years.

On the question of energy costs, you seem to want to point the finger of blame at the Government, but that is quite unrealistic. If the price of oil, on international markets, goes from \$50 a barrel to \$100 a barrel it will obviously drag up the price of coal, electricity and gas. I do not know of any country that could escape that. It is not a matter for Government; it is a matter of accepting that, if the international energy shortage means that that is the price of oil, it will have that effect on the price of energy after it has been converted from oil into electricity. There is a read-across between oil and coal and between oil and gas. If there is an oil shortage, it quickly converts into a gas and coal shortage and an increase in prices for all forms of fuel. That feeds into domestic bills. It is very regrettable, but the Government cannot take credit for when the price of energy goes down nor should it be blamed, as you seem to want to do, from your final remark, when the cost of energy goes up across the world.

**Nick Bourne:** The First Minister is misinterpreting the question, which was about the target. You said that you would eliminate fuel poverty in all households by the year after next, but fuel poverty has doubled over the last three years, to affect 270,000 households, which is 12.5 per cent of the households in Wales. Given the background of fuel increases, for which I did not try to blame you—methinks you do protest too much on that—this is not an issue of blame; it is an issue of the target. Are you on target to meet that target by the year after next, given the background and the lack of progress to date?

**The First Minister:** I may have misinterpreted what you said, Nick—I am sorry for that—but you were trying to get in a few blame-game remarks about Governments, in some way, carrying the responsibility when fuel is in short supply. Clearly, there will be periods when the cost of fuel is very high. You can try to guess as

peri bod y strategaeth dileu tlodi plant yn ôl ar y trywydd iawn ar ôl ychydig o flynyddoedd tawel.

Yng nghyswllt costau ynni, ymddengys eich bod yn awyddus i feio'r Llywodraeth, ond mae hynny'n eithaf afrealistig. Os bydd pris olew, ar y marchnadoedd rhyngwladol, yn codi o \$50 y gasgen i \$100 y gasgen, bydd hynny'n amlwg yn codi pris glo, trydan a nwy. Ni wn am ddim un wlad a allai osgoi hynny. Nid mater i'r Llywodraeth ydyw; mater ydyw o dderbyn, os bydd y prinder ynni rhyngwladol yn golygu mai dyna yw pris olew, y bydd hynny'n dylanwadu ar bris ynni ar ôl troi'r olew'n drydan. Mae cysylltiad rhwng olew a glo a rhwng olew a nwy. Os bydd prinder olew, bydd hynny'n sicr o olygu y bydd prinder nwy a glo yn fuan iawn a chynnydd ym mhrisiau pob math o danwydd. Bydd hynny'n dylanwadu ar filiau domestig. Mae hyn yn anffodus iawn, ond ni all y Llywodraeth hawlio'r clod pan fydd pris ynni yn gostwng, ac ni ddylid ei beio, fel yr ydych chi, mae'n ymddangos, yn awyddus i wneud, o glywed eich sylw olaf, pan fydd cost ynni'n cynyddu ledled y byd.

**Nick Bourne:** Mae'r Prif Weinidog yn camddehongli'r cwestiwn, a oedd yn ymwneud â'r targed. Dywedasoeh y byddech yn diddymu tlodi tanwydd ym mhob cartref erbyn y flwyddyn ar ôl y flwyddyn nesaf, ond mae tlodi tanwydd wedi dyblu dros y tair blynedd diwethaf, gan effeithio ar 270,000 o gartrefi, sef 12.5 o gartrefi Cymru. O ystyried y cefndir, sef y cynnydd ym mhrisiau tanwydd, ac nid oeddwn yn ceisio eich beio am hynny—credaf eich bod yn gwadu hynny yn rhy egniol—nid bai sydd dan sylw yma; yr hyn sydd dan sylw yw'r targed. A ydych ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwnnw erbyn y flwyddyn ar ôl y flwyddyn nesaf, o ystyried y cefndir a'r diffyg cynnydd hyd yn hyn?

**Y Prif Weinidog:** Efallai fy mod wedi camddehongli'r hyn a ddywedasoeh, Nick—mae'n ddrwg gennyf am hynny—ond yr oeddech yn ceisio cynnwys ambell sylw cyhuddgar am gyfrifoldeb Llywodraethau, rywfodd, pan fydd ynni'n brin. Yn amlwg, bydd cyfnodau pan fydd cost tanwydd yn uchel iawn. Gallwch roi cynnig ar ddyfalu a

to whether it will come down again, but I do not know the answer. Many of us thought that it would come back down as the economy slowed, but as the economy in China and India is not slowing down so much, there continues to be a floor, preventing the price of oil, and therefore of coal, gas and so on, from coming down again. On previous form you might have expected that to happen.

If you accept that oil will remain at \$100 a barrel, with the concomitant high price of coal, gas and electricity, what do you do about your fuel poverty targets? You must continue with policies such as the winter fuel allowance, which is extremely successful in protecting the pensioner population, but you must also introduce compensatory activity for the non-pensioner population. On where we are at the moment on that, you must look at child benefit, winter fuel allowances, child tax credits and pensioner credits. Is that enough, given the high price of fuel and its impact on household fuel bills? I will have to take some further advice and write to you on that.

14.20 p.m.

**Bethan Jenkins:** You may be aware that people in work, but on a low income, cannot receive financial help with mortgage interest. The Citizens Advice Bureau believes that we could help people on low income via benefits. The current system penalises many people, so could you make representations to Westminster on this issue?

**The First Minister:** Negotiations are going on with the banks and building societies almost daily about how to protect mortgage payers who get into difficulties. Perhaps you are right to point to the fact that, at the pinchpoint, when people are wondering whether they should struggle on with a job or when their hours or take-home pay has been reduced, and whether they can continue to afford a mortgage and are trying to ensure the continuity of that mortgage rather than go through the trauma of homelessness and thinking that they might be better off out of work so that they can access housing benefit

fydd yn gostwng drachefn, ond ni wn yr ateb. Yr oedd llawer ohonom yn credu y byddai'n gostwng drachefn wrth i'r economi arafu, ond gan nad yw'r economi yn arafu cymaint yn Tsieina nac yn India, mae sylfaen o hyd, sy'n rhwystro pris olew, ac felly pris glo, nwy ac yn y blaen, rhag gostwng drachefn. Ac ystyried patrymau blaenorol, mae'n bosibl y byddech wedi disgwyl i hynny ddigwydd.

Os derbyniwch y bydd olew yn parhau'n \$100 y gasgen, a phris glo, nwy a thrydan yn uchel yn sgîl hynny, beth y gall rhywun ei wneud ynghylch ei dargedau flodi tanwydd? Rhaid parhau â pholisïau megis lwfans tanwydd gaeaf, sy'n llwyddiannus dros ben o ran amddiffyn poblogaeth y pensiynwyr, ond yn ogystal rhaid cyflwyno gweithgarwch cydadferol ar gyfer y boblogaeth nad ydynt yn bensiynwyr. O ran lle'r ydym ar hyn o bryd ynghylch hynny, rhaid ichi edrych ar fudd-dal plant, lwfans tanwydd gaeaf, credydau treth plant a chredydau pensiynwyr. A yw hynny'n ddigon, o ystyried pris uchel tanwydd ac effaith hynny ar filiau tanwydd cartrefi? Bydd yn rhaid imi gymryd cyngor pellach ac ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

**Bethan Jenkins:** Efallai eich bod yn ymwybodol na all pobl sydd mewn gwaith, ond ar incwm isel, gael cymorth ariannol gyda llog morgeisi. Cred Cyngor ar Bopeth y gallem helpu pobl sydd ar incwm isel drwy fudd-daliadau. Mae'r system bresennol yn cosbi llawer o bobl, felly a allech gyflwyno sylwadau i San Steffan ynghylch y mater hwn?

**Y Prif Weinidog:** Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt bron yn ddyddiol gyda'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu ynghylch sut y mae amddiffyn talwyr morgeisi sydd yn mynd i drafferthion. Efallai eich bod yn gywir pan ddywedwch, mewn cyfnodau o bwysau, pan fydd pobl yn pendroni a ddylent ymdrechu i ddal ati â'u swydd neu pan gwtogir eu horiau neu eu cyflog clir, ac a allant ddal i fforddio morgais ac yn ceisio sicrhau bod y morgais hwnnw'n parhau yn hytrach na mynd drwy drawma digartrefedd ac yn meddwl efallai y byddent yn well eu byd petaent yn ddi-waith er mwyn iddynt

and homeless assistance and so on, it is important that we try to preserve people provided that there is some prospect of their getting into a position where they can meet their mortgage payments.

Some of the problems are caused by these new, fancy kinds of mortgages that were never available when I started on the property-purchasing ladder, whereby you have a mortgage that is available at an incentive rate for the first two or three years and then shoots up by 50 per cent after that initial incentive period. It is difficult for people to plan, particularly if they did not have that explained to them when they took out the mortgage that was cheaper for the first two or three years and then went up by 50 per cent afterwards. That is a difficult one to handle because there is then a bearing for any housing advice worker to say, 'You do not have a chance to meet this mortgage now that your initial incentive period is over'. That is when it gets difficult.

**Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** A big fear that people will undoubtedly have today is about the effect of the credit crunch on their personal finances. The Council of Mortgage Lenders said today that this year's mortgage lending would be half of last year's. Given that fact and given the fall in house prices, the pressure that that will have on the number of mortgages available and the number of people who will not be able to afford a mortgage, the number of people looking for homes in the rental sector will undoubtedly increase. The private rented sector may be able to sop up some of this problem, but the real issue here is social housing. Given the current economic climate, do you think that your target to build 6,500 new, affordable homes in Wales by May 2011 is still achievable?

**The First Minister:** We see no reason to depart from the published target.

**Michael German:** Perhaps I could help you a little with the figures. In the last full year, 346 social houses were built in Wales and, in this year of accounting, it is likely—and this is being optimistic—that you will build 500

gael budd-dal tai a chymorth i'r digartref ac yn y blaen, mae'n bwysig inni geisio cynnal pobl ar yr amod bod rhyw bosibilrwydd y byddant mewn sefyllfa lle y gallant dalu eu taliadau morgais.

Caiff rhai o'r problemau eu hachosi gan y morgeisi newydd, ffansi hyn nad oeddent ar gael o gwbl pan ddechreuais ar yr ysgol prynu eiddo, lle y bydd gennyh forgais sydd ar gael ar gyfradd cymhelliad am y ddwy neu dair blynedd cyntaf ac yna'n codi 50 y cant ar ôl y cyfnod cymhelliad cychwynnol hwnnw. Mae'n anodd i bobl gynllunio, yn enwedig os nad esboniwyd hynny iddynt pan gymerasant y morgais a oedd yn rhatach am y ddwy neu dair blynedd cyntaf cyn cynyddu 50 y cant wedi hynny. Mae honno'n sefyllfa anodd i ymdrin â hi oherwydd rhaid i weithwyr ym maes cyngor ar dai ddweud wedyn, 'Nid oes gennyh obaith talu ad-daliadau'r morgais hwn bellach, wedi i'ch cyfnod cymhelliad cychwynnol ddod i ben'. Hynny sy'n gwneud y sefyllfa'n anodd.

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Yn ddiau, un peth a fydd yn codi arswyd ar bobl heddiw fydd effaith yr argyfwng credyd ar eu sefyllfa ariannol. Dywedodd Cyngor y Benthycwyr Morgeisi heddiw mai hanner yr hyn a fenthycwyd y llynedd a fydd yn cael ei fenthyca eleni o ran morgeisi. O ystyried y ffaith honno a'r gostyngiad ym mhrisiau tai, y pwysau ar nifer y morgeisi a fydd ar gael yn sgîl hynny, a nifer y bobl na allant fforddio morgais, bydd nifer y bobl a fydd yn chwilio am gartrefi yn y sector rhentu yn cynyddu, yn sicr. Efallai y gall y sector rhentu preifat ymdrin â rhywfaint o'r broblem hon, ond y broblem wirioneddol yn hyn o beth yw tai cymdeithasol. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a gredwch fod eich targed o adeiladu 6,500 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru erbyn mis Mai 2011 yn dal yn gyraeddadwy?

**Y Prif Weinidog:** Ni welwn ddim rheswm dros symud oddi wrth y targed a gyhoeddwyd.

**Michael German:** Efallai y gallaf roi ychydig o gymorth ichi â'r ffigurau. Yn y flwyddyn lawn ddiwethaf, adeiladwyd 346 o dai cymdeithasol yng Nghymru ac, yn y flwyddyn gyfrifyddu hon, mae'n debygol—

of your 6,500 affordable homes. That leaves 6,000, which is 2,000 a year when the going rate is 500 a year. Your target number of 66 in your delivery plan last week indicated that you had held a series of seminars with local authorities about 106 agreements. If local authorities and other planning authorities will no longer be able to get planning applications for large-scale housing because of the current mortgage credit crisis, how on earth will 106 agreements deliver more houses than they have delivered in the past?

**The First Minister:** You always play this game, Mike, whenever we publish a programme of Government to last through to the next election. If the programme is not all delivered nine months later, you ask why it has not been delivered. It is because it is nearly a four-year programme. ‘One Wales’ was published last July and we expect it to be delivered in time for completing the commitment during the period of this administration. We see no reason to depart from that. You can say, ‘If you are going to deliver it by 2011, divide the 6,500 by three and three quarters, and the first lot should have been built by now’, but you would not expect that in the real world because you would expect a great deal of initial consultation with local authorities and other stakeholders and so on. After that, you get motoring and deliver the target, and we do deliver our target.

**Michael German:** I see that you have cut back on the homebuy scheme money quite considerably and that you are putting all your eggs in the basket of 106 agreements. The letter from the Minister says that 106 agreements are the way forward, but if fewer houses will be built in the private sector because of the credit crunch, you will not be able to use section 106 agreements to build as many social houses as you need. In other words, you will have to find another route. So far, we have not heard what the other

ac mae hyn yn optimistaidd—y byddwch yn adeiladu 500 o’ch 6,500 o gartrefi fforddiadwy. Mae hynny’n golygu y bydd 6,000 ar ôl, sef 2,000 y flwyddyn pan fydd y gyfradd adeiladu yn 500 y flwyddyn. Yr oedd eich targed rhif 66 yn eich cynllun cyflenwi yr wythnos diwethaf yn datgan eich bod wedi cynnal cyfres o seminarau gydag awdurdodau lleol ynghylch cytundebau adran 106. Os na fydd awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio eraill yn dal i allu cael ceisiadau cynllunio am adeiladu tai ar raddfa fawr oherwydd yr argyfwng credyd morgeisi ar hyn o bryd, sut ar y ddaear y bydd cytundebau adran 106 yn darparu mwy o dai nag a ddarparwyd ganddynt yn y gorffennol?

**Y Prif Weinidog:** Byddwch yn chwarae’r gêm hon bob tro, Mike, pryd bynnag y byddwn yn cyhoeddi rhaglen ar gyfer y Llywodraeth i bara tan yr etholiad nesaf. Os na fydd y rhaglen wedi’i chyflawni’n gyfan gwbl naw mis yn ddiweddarach, byddwch yn gofyn pam nad yw wedi’i chyflawni. Y rheswm yw am ei bod yn rhaglen pedair blynedd o hyd bron. Cyhoeddwyd ‘Cymru’n Un’ fis Gorffennaf diwethaf, ac yr ydym yn disgwyl i’r rhaglen gael ei chyflawni mewn pryd i gwblhau’r ymrwymiad yn ystod cyfnod y weinyddiaeth hon. Ni welwn ddim rheswm dros symud oddi wrth hynny. Gallwch ddweud, ‘Os ydych am ei chyflawni erbyn 2011, rhannwch y 6,500 â thri a thri chwarter, a dylai’r rhan gyntaf fod wedi’i hadeiladu erbyn hyn’, ond ni fydddech yn disgwyl hynny yn y byd go iawn am y bydddech yn disgwyl llawer o ymgynghori ar y cychwyn ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ac yn y blaen. Wedi hynny, byddwch yn bwrw ymlaen â’r gwaith ac yn cyflawni’r targed, ac yr ydym yn cyflawni ein targed.

**Michael German:** Gwelaf eich bod wedi cwtogi arian y cynllun cymorth prynu yn sylweddol a’ch bod yn dibynnu’n llwyr ar gytundebau adran 106. Dywed y llythyr gan y Gweinidog mai’r cytundebau adran 106 yw’r ffordd ymlaen, ond os caiff llai o dai eu hadeiladu yn y sector preifat oherwydd yr argyfwng credyd, ni allwch ddefnyddio cytundebau adran 106 i adeiladu cynifer o dai cymdeithasol ag y mae arnoch eu hangen. Mewn geiriau eraill, bydd yn rhaid ichi ddod o hyd i lwybr arall. Hyd yn hyn, nid ydym

route for providing that number of houses—more than 2,000 houses a year from the existing baseline—will be. You may say that 6,000 new houses will be built in the third year, but it would be mischievous to tell us that 500 new houses will be built next year, 500 will be built the year after, and that 5,000 will be built in the third year. That does not seem to be a realistic ambition. If you are to meet your target of building 6,500 new homes, you are going to have to go some at this target and show more activity, going forward. At the moment, you will need a programme similar to Lloyd George's homes for heroes programme in 1919 to achieve your target.

**The First Minister:** That was a lot of words and sentences on your part, but they were based on an incorrect assumption that section 106 agreements will cease to be of value as a delivery mechanism. My experience tells me that the house-building industry, by and large, is not that keen, in the normal circumstances of there being a booming private house-building sector, on offering up a certain part of developments for social housing under a section 106 agreement. When there are much better prospects of getting social housing to be built and when private house building is slowing down, it is much easier to get the private house-building industry to participate in a section 106 agreement with a bigger proportion of social housing, because the industry is anxious for social housing to be introduced and replace the greater difficulty of selling the private sector housing part of developments. So, all of that verbiage on your part was based on a false assumption.

#### **The Future of the OpTIC Technium**

**Q4 Ann Jones:** Will the First Minister make a statement on the future of the OpTIC Technium in north Wales? OAQ(3)0876(FM)

**The First Minister:** It gives me great pleasure to answer this question, because OpTIC Technium is one of the jewels in the crown of the Objective 1 programme from 2000 to 2007, and I had the pleasure of co-

wedi clywed beth fydd y llwybr arall ar gyfer darparu cynifer â hynny o dai—mwy na 2,000 o dai y flwyddyn ar sail y gyfradd bresennol. Efallai y dywedwch y caiff 6,000 o dai newydd eu hadeiladu yn y drydedd flwyddyn, ond byddech yn ddrygionus petaech yn dweud wrthym y caiff 500 o dai newydd eu hadeiladu y flwyddyn nesaf, y caiff 500 eu hadeiladu y flwyddyn wedi hynny, ac y caiff 5,000 eu hadeiladu yn y flwyddyn olaf. Nid yw hynny, yn ôl pob golwg, yn uchelgais realistig. Os ydych am gyrraedd eich targed o adeiladu 6,500 o gartrefi newydd, bydd yn rhaid ichi fwrw iddi i gyrraedd y targed hwn, a dangos mwy o weithgarwch, wrth fwrw ymlaen. Ar hyn o bryd, bydd arnoch angen rhaglen debyg i raglen cartrefi i arwyr Lloyd George yn 1919 i gyrraedd eich targed.

**Y Prif Weinidog:** Defnyddiwyd llawer o eiriau a brawddegau gennych yn y fan honno, ond yr oeddent wedi'u seilio ar ragdybiaeth anghywir y bydd cytundebau adran 106 yn peidio â bod yn werthfawr fel mecanwaith i gyflawni'r dasg. Gwn o brofiad nad yw'r diwydiant adeiladu tai, ar y cyfan, yn awyddus iawn, dan yr amgylchiadau arferol lle y ceir sector ffyniannus o ran adeiladu tai preifat, i gynnig rhan benodol o ddatblygiadau ar gyfer tai cymdeithasol dan gytundeb adran 106. Pan fydd yn argoeli'n well o lawer ar gyfer gallu adeiladu tai cymdeithasol, a phan fydd adeiladu tai preifat yn arafu, bydd cael gan y diwydiant adeiladu tai preifat gymryd rhan mewn cytundeb adran 106 gyda chyfran fwy o dai cymdeithasol, yn haws o lawer, oherwydd bydd y diwydiant yn awyddus i dai cymdeithasol gael eu cyflwyno am ei bod anos gwerthu'r rhan o ddatblygiadau sydd yn y sector tai preifat. Felly, yr oedd yr holl wag siarad a gafwyd gennych yn seiliedig ar ragdybiaeth ffug.

#### **Dyfodol OpTIC Technium**

**C4 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol yr OpTIC Technium yn y gogledd? OAQ(3)0876(FM)

**Y Prif Weinidog:** Caf bleser mawr wrth ateb y cwestiwn hwn, oherwydd y mae'r OpTIC Technium yn un o lwyddiannau mawr y rhaglen Amcan 1 rhwng 2000 a 2007, ac yr oeddwn wrth fy modd wrth dderbyn gwobr

accepting, with David Rimmer and others from OpTIC Technium, the RegioStars award in February in Brussels for one of the best regional development projects in the technology and innovation field in the whole of the European Union.

**Ann Jones:** I would like to add my congratulations to David Rimmer and his team on that success, because it has boosted the economy in north Wales and in my constituency, where the technium is based. You acknowledged that the technium is the finest and that it contributes £720 million to the economy and there are 5,300 well-paid jobs across the technium and consortium. However, its continued success means that it needs to stay at the forefront and cutting edge of its sector, and to do that it needs to be able to expand. Will you ensure that your Government does all that it can to assist that successful expansion of the technium? Will you continue to support the optoelectronic sector as a major skills sector in any plank of your Government's policies?

**The First Minister:** The answer to those questions is 'yes'. We sometimes forget that the optoelectronic sector is important and has a major concentration of activity and technology in St Asaph. That has been the case for 40 years, since fibre optics were pretty much invented by Pilkington's in St Asaph. The strategy of developing the OpTIC Technium so that there is a move-on centre for people who have done their bit in the OpTIC Technium, where they have established credible businesses, and who wish to move out to conventional business premises, is at the heart of a convergence funding bid. I cannot anticipate the outcome of the bid, but it is being actively considered at the moment.

**Brynle Williams:** As my colleague Ann Jones pointed out, we were pleased to have OpTIC Technium in St Asaph. I am sure that you share my support for small businesses in north Wales and the importance of supporting private enterprise. However, given that small business units are in such short supply in north Wales, which is a particular problem for start-up businesses, what assistance are you providing for local

RegioStars, ar y cyd â David Rimmer ac eraill o OpTIC Technium, ym mis Chwefror ym Mrwsel am un o'r prosiectau datblygu rhanbarthol gorau ym maes technoleg ac arloesedd ledled yr Undeb Ewropeaidd i gyd.

**Ann Jones:** Hoffwn ychwanegu fy llongyfarchiadau i David Rimmer a'i dîm am y llwyddiant hwnnw, am ei fod wedi rhoi hwb i'r economi yn y gogledd ac yn fy etholaeth, lle y mae'r technium wedi'i leoli. Cydnabuoch fod y technium heb ei ail, ei fod yn cyfrannu £720 miliwn i'r economi, a bod 5,300 o swyddi sy'n talu'n dda ar draws y technium a'r consortiwm. Fodd bynnag, mae ei lwyddiant parhaus yn golygu bod angen iddo aros yn flaenllaw ac ar flaen y gad yn ei sector, ac er mwyn gwneud hynny mae angen iddo allu ehangu. A wnewch sicrhau y bydd eich Llywodraeth yn gwneud popeth a all i gynorthwyo'r broses honno o ehangu'r technium yn llwyddiannus? A wnewch barhau i gefnogi'r sector optoelectroneg fel sector sgiliau o bwys yn unrhyw ran o bolisiau eich Llywodraeth?

**Y Prif Weinidog:** Yr ateb i'r cwestiynau hynny yw 'gwnawn'. Byddwn yn anghofio o bryd i'w gilydd fod y sector optoelectroneg yn bwysig a bod Llanelwy yn ganolbwynt o bwys i weithgarwch a thechnoleg y sector. Mae hynny wedi bod yn wir ers 40 mlynedd, ers i gwmni Pilkington yn Llanelwy ddyfeisio opteg ffibr, i bob pwrpas. Mae'r strategaeth o ddatblygu'r OpTIC Technium er mwyn cael canolfan symud ymlaen i bobl sydd wedi cyfrannu at yr OpTIC Technium, lle y byddant wedi sefydlu busnesau credadwy, ac yn awyddus i symud allan i safle busnes confensiynol, wrth wraidd cais am gyllid cydgyfeirio. Ni allaf ragweld canlyniad y cais, ond mae wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

**Brynle Williams:** Fel y tanlinellodd fy nghyd-Aelod, Ann Jones, yr oeddem yn falch o gael yr OpTIC Technium yn Llanelwy. Yr wyf yn siŵr eich bod yr un mor gefnogol ag yr wyf finnu i fusnesau bach yn y gogledd ac i bwysigrwydd cefnogi mentrau preifat. Fodd bynnag, o ystyried bod unedau busnes bach mor brin yn y gogledd, sy'n broblem arbennig i fusnesau sydd wrthi'n cychwyn, pa gymorth yr ydych yn ei ddarparu i



authorities in north Wales to meet the demand for small businesses, especially new ones that have the potential to grow and provide much-needed jobs? We need nursery factory units.

**The First Minister:** There are two answers to that question. We are more than willing to have discussions with local authorities if they wish to make bids and they are in the Objective 1 convergence fund area. Many local authorities made bids in the 2000 to 2007 programme, which we were pleased about, and many of them received funding.

2.30 p.m.

**The First Minister:** As I said in response to Paul Davies's question, instead of getting local landowners who have industrial buildings to participate in this campaign—if I can call it that, in the nicest possible way, Paul—to give rate relief to empty buildings, we should be encouraging landlords to think seriously about whether they are charging a couple of shillings too much in rent. They should be renting these empty buildings to small businesses, as that would generate income for them as well as encourage entrepreneurship among small businesses.

#### Rhestrau Aros am Dai Cymdeithasol

**C5 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y bobl sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(3)0889(FM)

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennym ffigurau oherwydd mae amryw o anawsterau o ran cael ffigur cywir, cynhwysfawr o nifer y bobl sydd ar restrau tai cymdeithasol. Un o'r atebion gorau yw cael rhestr aros gyffredin mewn unrhyw ardal awdurdod lleol, ac mae'r Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies, wedi cefnogi tri chais yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer datblygu cofrestr cyffredin ym Mlaenau Gwent, Caerdydd a Wrecsam.

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn siŵr y cytunech fod diffyg tai ar rent yn un o'r problemau a wynebwn. Yn aml, nid prinder tai yw'r broblem ond amharodrwydd

awdurdodau lleol yn y gogledd i ateb y galw am fusnesau bach, yn enwedig rhai bach sydd â'r potensial i dyfu a darparu swyddi y mae gwir angen amdanynt? Mae angen inni gael unedau ffatrioedd sy'n feithrinfeydd.

**Y Prif Weinidog:** Ceir dau ateb i'r cwestiwn hwnnw. Yr ydym yn fwy na bodlon cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol os ydynt yn dymuno cyflwyno ceisiadau a'u bod yn ardal cronfa gydgyfeirio Amcan 1. Cafwyd ceisiadau gan lawer o awdurdodau lleol yn y rhaglen rhwng 2000 a 2007, ac yr oeddem yn falch o hynny, a rhoddwyd cyllid i lawer ohonynt.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn Paul Davies, yn hytrach na chael tirlfeddianwyr lleol sydd ag adeiladau diwydiannol i ymuno â'r ymgyrch hon—os gallaf ei galw'n hynny, yn y ffordd garedicaf posibl, Paul—i roi rhyddhad ardrethi i adeiladau gwag, dylem fod yn annog landlordiaid i ystyried o ddifrif a ydynt yn codi swllt neu ddau yn ormod o rent. Dylent fod yn gosod yr adeiladau gwag hyn ar rent i fusnesau bach, gan y byddai hynny'n cynhyrchu incwm iddynt yn ogystal ag annog entrepreneuriaeth ymhlith busnesau bach.

#### Social Housing Waiting Lists

**Q5 Alun Ffred Jones:** Will the First Minister make a statement on the number of people on social housing waiting lists? OAQ(3)0889(FM)

**The First Minister:** We do not have any figures, because there are a great many difficulties in securing an accurate figure of the number of people on waiting lists for social housing. Having a common waiting list in any local authority area provides one of the best solutions, and the Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies, has supported three bids in this financial year for the development of common registers in Blaenau Gwent, Cardiff and Wrexham.

**Alun Ffred Jones:** I am sure that you would agree that the shortage of houses to rent is one of the problems facing us. Often, the problem is not the shortage of houses, but the

landlordiaid preifat nad ydynt am ddod i mewn i'r farchnad hon. Gyda hynny mewn golwg, a wnewch chi ymuno â mi wrth longyfarch cymdeithas Agorfa, sydd â'i phencadlys ym Mangor ac sy'n gweithredu drwy Wynedd, am y gwaith y mae'n ei wneud gyda landlordiaid a thenantiaid yn y sector rhentu preifat yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ac am y gefnogaeth y mae'n ei rhoi, yn ymarferol, yn ariannol ac yn emosïynol, i denantiaid sydd yn aml iawn yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i dai ar rent yn y sector cyhoeddus?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r darlun yn un eithaf amrywiol. Credaf fod gormod o fflatiau i'w rhentu wedi'u hadeiladu mewn rhai mannau, gan fod pobl wedi cael eu hannog i fuddsoddi drwy brynu fflatiau o'r fath yn hytrach na buddsoddi mewn pensiwn. Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae gormod o fflatiau ar gael i'w rhentu, ond nid yw hynny'n ateb y cwestiwn ynghylch pa mor fforddiadwy ydyw i un teulu rentu, yn hytrach nag i ddau neu dri o bobl ifanc a fyddai'n gallu rhannu'r rhent. Ystyriwch fae Caerdydd. Ni fyddai neb yn dweud bod prinder fflatiau ar gael i'w rhentu yma, ond, mewn mannau eraill o Gymru, mae prinder fflatiau fforddiadwy sydd ar gael ar delerau'r sector cyhoeddus ac sy'n cwrdd ag anghenion teuluoedd sydd â phlant.

**Mark Isherwood:** The question was about the numbers on social housing waiting lists. I know that you will be aware of the latest figures published by Shelter Cymru last November, which suggest that the figure is in excess of 80,000, although it could possibly be as high as 144,000 when you consider those who are not on waiting lists but need a home. Today, Community Housing Cymru told me that it does not believe that the figure of 80,000 truly reflects the current level of need. How do you respond to the concern expressed by Community Housing Cymru that proposals in the Assembly Government's review of the homebuy scheme will have an adverse effect on the availability of social housing?

**The First Minister:** You will have heard me say in answer to Alun Ffred's question that we do not collect statistics and that we do not

unwillingness of private landlords to enter into that market. Bearing that in mind, will you join me in congratulating the Agorfa association, which has its headquarters in Bangor and which operates throughout Gwynedd, for the work it is undertaking with landlords and tenants in the private rented sector in Gwynedd and Ynys Môn, and also for the practical, financial and emotional support it gives tenants who often find it difficult to get hold of houses to rent in the public sector?

**The First Minister:** The picture is quite a varied one. I believe that too many flats to rent have been built in some areas, because people have been encouraged to invest by buying such flats rather than investing in a pension. In some parts of Wales, too many flats are available to rent, but that does not answer the question regarding how affordable it is for one family to rent in comparison with two or three young people who could share the rent. Take Cardiff bay for instance. Nobody would say that there is a shortage of flats to rent here, but in other parts of Wales, there is a shortage of affordable flats available on public sector conditions and which meet the needs of families who have children.

**Mark Isherwood:** Yr oedd y cwestiwn yn ymwneud â nifer y bobl ar restrau aros am dai cymdeithasol. Gwn y byddwch yn ymwybodol o'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Shelter Cymru fis Tachwedd y llynedd, sy'n awgrymu bod y ffigur dros 80,000, er y gallai fod cyn uchod â 144,000 wrth ystyried y rhai nad ydynt ar restrau aros ond y mae angen cartref arnynt. Heddiw, dywedodd Tai Cymunedol Cymru wrthyf nad yw'n credu bod y ffigur 80,000 yn adlewyrchiad teg o lefel yr angen ar hyn o bryd. Sut yr ydych yn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan Dai Cymunedol Cymru y bydd cynigion yn adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o'r cynllun Cymorth Prynu yn cael effaith andwyol ar y tai cymdeithasol sydd ar gael?

**Y Prif Weinidog:** Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud wrth ateb cwestiwn Alun Ffred nad ydym yn casglu ystadegau ac na

know of any statistics given the confusion regarding the two types of waiting lists—the ones held by councils and the ones held separately by social landlords. If we do not know the figures, it means that there are no official statistics to confirm what that voluntary body has come up with, namely a figure of 80,000 although it could be 140,000. We are in danger of looking like the blind trying to lead the one-eyed through some difficult territory.

The question is: is the homebuy scheme really effective? We have always allowed local authorities to make their own decisions on how to use the social housing grant. We do not tell them that they must use homebuy; it is part of an armoury that has four or five major weapons that they can use. They can spend the social housing grant that they receive on extra care, homebuy or other methods to meet the unmet demand for affordable housing in their area. I have not read the report by Community Housing Cymru, but I will ensure that the Deputy Minister for Housing or I respond to you on the particular points that it has raised in its latest report.

**Lorraine Barrett:** Many older people live in council or housing association properties that are now too big for their needs, particularly if they are on their own. Will you look at ways of supporting those who would be prepared to move to smaller properties, if they were built for them, to free up more family-sized homes? That would take a lot of families off current waiting lists.

**The First Minister:** It certainly would, Lorraine. I am sure that we have all had dealings with families in that empty-nest position over the time we have had this job of representing our constituents. People are not always keen to move house, usually because of memories, grandchildren or pets, even though the house, and sometimes the garden, is far too big for them to cope with. Nevertheless, it is not always easy to persuade people to move. Undoubtedly, when

wyddom am ystadegau o gofio'r dryswch ynghylch y ddau fath o restrau aros—y rhai a gedwir gan y cyngor a'r rhai a gedwir ar wahân gan landlordiaid cymdeithasol. Os nad ydym yn gwybod y ffigurau, golyga nad oes dim ystadegau swyddogol i gadarnhau'r hyn a gyflwynwyd gan y corff gwirfoddol hwnnw, sef ffigur o 80,000, er y gallai fod yn 140,000. Mae perygl inni edrych fel y dall yn ceisio tywys yr unllygeidiog dros dir caregog.

Y cwestiwn yw: a yw'r cynllun cymorth prynu yn effeithiol mewn gwirionedd? Yr ydym bob amser wedi caniatáu i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i ddefnyddio'r grant tai cymdeithasol. Nid ydym yn dweud wrthynt fod yn rhaid iddynt ddefnyddio cymorth prynu; mae'n rhan o arfogaeth sydd â phedwar neu bum arf sylweddol y gallant eu defnyddio. Gallant wario'r holl grant tai cymdeithasol a dderbyniant ar ofal ychwanegol, cymorth prynu neu ddulliau eraill o ateb y galw nas diwellir am dai fforddiadwy yn eu hardal. Nid wyf wedi darllen yr adroddiad gan Dai Cymunedol Cymru, ond sicrhaf y byddaf fi neu'r Dirprwy Weinidog dros Dai yn ymateb ichi ynghylch y pwyntiau penodol a gododd yn ei adroddiad diweddaraf.

**Lorraine Barrett:** Mae llawer o bobl hŷn yn byw mewn eiddo sy'n perthyn i'r cyngor neu gymdeithas dai sydd bellach rhy fawr ar gyfer eu hanghenion, yn enwedig os ydynt ar eu pen eu hun. A edrychwch ar ffyrdd o gefnogi'r rhai a fyddai'n fodlon symud i eiddo llai, petaent yn cael eu hadeiladu ar eu cyfer, er mwyn rhyddhau mwy o gartrefi sy'n addas ar gyfer teulu? Byddai hynny'n tynnu nifer o deuluoedd oddi ar restrau aros cyfredol.

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n sicr o wneud hynny, Lorraine. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd wedi delio â theuluoedd y mae eu nyth yn wag yn ystod y cyfnod yr ydym wedi cael y dasg hon o gynrychioli ein hetholwyr. Nid yw pobl bob amser yn awyddus i symud tŷ, fel arfer oherwydd atgofion, wyrion neu anifeiliaid anwes, er bod y tŷ, ac weithiau'r ardd, yn llawer rhy fawr iddynt ymdopi â hwy. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn rhwydd dwyn perswâd ar bobl i symud. Yn

you look at the figures, you see huge potential for allocating flats or smaller houses to people so that they can vacate family-sized, three-bedroomed properties.

### **Cefnogi Busnesau Bach (Abertawe)**

**C6 David Lloyd:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach yn Abertawe? OAQ(3)0895(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn darparu amrywiaeth eang o gymorth, gan gynnwys hybu menter, cymorth i ddechrau busnes a chymorth i fusnesau presennol, ac yr ydym yn rhoi atebion ariannol i gefnogi buddsoddiad. Ar ben hynny, y mae ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i sefydlu cronfa fuddsoddi sengl i annog menter ac i gefnogi twf busnesau. Bydd Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog, yn siarad mwy am y pwnc hwn yn nes ymlaen yr wythnos hon.

**David Lloyd:** Mae'r cwmni Trojan Electronics Cyf. yn Abertawe wedi cynyddu ei weithlu o 60 i 100 o ganlyniad i gymorth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad. Dechreuodd y cwmni yn 2002, gyda dim ond pedwar o weithwyr, a bu'n wynebu sawl her yn y blynyddoedd cynnar. A wnewch chi ymuno â mi wrth longyfarch Trojan Electronics ar ei lwyddiant, sy'n dangos yr hyn a ellir ei wneud drwy waith caled, ymroddiad, a chefnogaeth y Llywodraeth?

**Y Prif Weinidog:** Dyna'r rysâit i adeiladu busnes tra llwyddiannus, fel y bu Trojan Electronics, mewn sector nad yw'n ffasiynol dros ben. Mae llawer yn rhoi'r gorau iddi, ac yn tynnu'r faner i lawr gan feddwl, 'Yn Asia neu Tsieina y dylai setiau teledu neu bethau eraill ar yr ochr electronig gael eu cynhyrchu, siŵr o fod'. Nid ydym yn derbyn hynny, ac yr wyf yn falch o weld nad yw Trojan yn ei dderbyn ychwaith. Felly, mae'n esiampl hynod o dda o fenter, ymroddiad a llwyddiant, gyda thipyn o ben am fusnes, a bu'r cymorth a gafodd gennym ni hefyd yn help.

**Alun Cairns:** It is fair to say that the technium in Swansea has been an excellent

ddi-os, o edrych ar y ffigurau, gwelwch botensial aruthrol i ddyrannu fflatiau neu dai llai i bobl er mwyn iddynt adael eiddo tair llofft, sy'n addas ar gyfer teulu, yn wag.

### **Supporting Small Businesses (Swansea)**

**Q6 David Lloyd:** What steps is the Welsh Assembly Government taking to support small businesses in Swansea? OAQ(3)0895(FM)

**The First Minister:** We provide a wide range of support, including promoting enterprise, supporting business start-ups, existing businesses, and offering finance solutions to support investment. In addition to that is the 'One Wales' commitment to establish a single investment fund to encourage enterprise and support business growth. Ieuan Wyn Jones, the Deputy First Minister, will have more to say about that subject later this week.

**David Lloyd:** The company Trojan Electronics Ltd in Swansea has increased its workforce from 60 to 100 as a result of financial support from the Assembly Government. The company started in 2002, with only four workers, and it faced many challenges in its early years. Will you join me in congratulating Trojan Electronics on its success, which shows what can be done through hard work, commitment and Government support?

**The First Minister:** That is the recipe to build a successful business, as Trojan Electronics has been, in a sector that is not particularly fashionable. Many give up, pulling down the flag thinking, 'Television sets or other electronic goods should probably be produced in Asia or China'. We do not accept that, and I am pleased to see that Trojan does not accept it either. Therefore, it is an excellent example of enterprise, commitment and success, together with a head for business. The support it received from us was also of assistance.

**Alun Cairns:** Mae'n deg dweud bod y technium yn Abertawe wedi bod yn

success, and full credit is due for the introduction of that. However, that success led to the roll-out of techniums across Wales, and it is also fair to say that the progress made by some of them has been somewhat disappointing—and that is being generous, particularly in light of the remarks made by Simon Gibson and the commercialisation task and finish group, set up by the former Minister for Enterprise, Innovation and Networks. They clearly stated that they felt it to be a poor policy. Given that this was your flagship economic policy, First Minister, are you not embarrassed by their independent, objective analysis of what the techniums have contributed to Wales?

**The First Minister:** Only 10 minutes ago, I was replying to Ann Jones, saying what a wonderful star performer the OptTIC technium in St Asaph is. That is one of the jewels in the crown of the regional development programme and of the Objective 1 programme over the past seven years. In Swansea, as you are quite right to say, technium 1 and technium 2 have both been highly successful, and we were all delighted about, but perhaps you are not joining in the cheers because you have a point to make. However, we would all want to join in the cheers on hearing the brilliant news that IBM has agreed to take up space in the Pembrokeshire technium, because that technium had more space than tenants for quite a while. Now that it has IBM, however, you will find that people suddenly show a lot of interest. When you have a world-class, global-leading name in innovation and technology moving in to a technium, you will take it seriously.

2.40 p.m.

Simon Gibson's report made a very good one point, namely that, after a certain period in the technium, businesses should think about moving to a nearby technology park. That is the point that I was making to Ann Jones. We are currently considering assisting, through the convergence fund, a technology park next to the technium, so that people can move out. When the more successful companies cease to need an incubating space, they should

llwyddiant ardderchog, ac mae lle mawr i ganmol am gyflwyno hynny. Fodd bynnag, esgorodd y llwyddiant hwnnw ar ganolfannau technium ledled Cymru ac mae'n deg dweud hefyd fod y cynnydd a wnaethpwyd gan rai ohonynt braidd yn siomedig—ac mae hynny'n eithaf caredig, yn enwedig yn wyneb y sylwadau a wnaethpwyd gan Simon Gibson a'r grŵp gorchwyl a gorffen masnacheiddio, a sefydlwyd gan y cyn Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau. Yr oeddent yn datgan yn glir eu bod yn teimlo ei fod yn bolisi gwael. Gan mai eich polisi economaidd blaenllaw chi ydoedd hwn, Brif Weinidog, onid yw clywed eu dadansoddiad gwrthrychol, annibynnol o'r hyn a gyfrannodd y canolfannau technium i Gymru yn peri annifyrrwch ichi?

**Y Prif Weinidog:** Ddeng munud yn ôl yr oeddwn yn ateb Ann Jones, gan ddweud mor wych y mae'r technium OptTIC yn Llanelwy yn perfformio. Mae hwnnw'n un o lwyddiannau mawr y rhaglen datblygu rhanbarthol a rhaglen Amcan 1 dros y saith mlynedd diwethaf. Yn Abertawe, fel y dywedwch yn hollol gywir, mae technium 1 a technium 2 wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac yr oeddem oll wrth ein bodd, ond efallai nad ydych yn ymuno â'r bonllefau gan fod gennyhych bwynt i'w wneud. Fodd bynnag, byddem oll am ymuno â'r bonllefau wrth glywed y newyddion gwych bod IBM wedi cytuno i gymryd lle yng nghanolfan technium sir Benfro, gan fod mwy o ofod nag o denantiaid wedi bod yn y technium hwnnw ers cryn amser. Gan fod IBM yno bellach, fodd bynnag, gwelwch y bydd pobl yn sydyn yn dangos diddordeb mawr. Pan gewch enw o safon fyd-eang a blaenllaw drwy'r byd am arloesi a thechnoleg yn symud i'r technium, byddwch yn ei gymryd o ddifrif.

Yr oedd adroddiad Simon Gibson yn gwneud un pwynt da iawn, sef, ar ôl cyfnod penodol yn y technium, y dylai busnesau ystyried symud i barc technoleg cyfagos. Dyna'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud gydag Ann Jones. Yr ydym ar hyn o bryd yn ystyried helpu parc technoleg y drws nesaf i'r technium, drwy'r gronfa gydyfeirio, er mwyn i bobl allu symud allan. Pan na fydd angen gofod deori ar y cwmnïau mwyaf

move to a technology park. That is how it should work, but sometimes they need a bit of a nudge to do that. I think that Simon Gibson has made that point forcibly, and we are taking that message on board, where land is available on the other side of the road or nearby, as happens to be the case in St Asaph.

### Recycling Levels

**Q7 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on recycling levels in Wales? OAQ(3)0897(FM)

**The First Minister:** Local authorities in Wales are currently recycling around a third of their waste. That is a remarkable increase from about 3 or 4 per cent, six or seven years ago. There is no reason to suppose that we cannot meet the target that we originally set of recycling 40 per cent of waste by 2010. Given that we are reasonably confident of hitting that 40 per cent target, we have now set a longer term target of 70 per cent by 2025. We are not complacent, because we know that one or two countries in Scandinavia have already reached 70 per cent, so it is a long catch-up process for us. However, if you look at the time series and compare the picture in 2000 with that now, you will see that it is infinitely better.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. Like you, I am encouraged by the progress being made by local authorities around Wales. There has been some controversy recently about the exporting of recyclates abroad, particularly plastics, and about whether that is a viable way of going about things. It seems to me that Wales lacks an industry to recycle a large number of materials in the country. Does the Assembly Government have a strategy to tackle that gap in the market?

**The First Minister:** I am not aware of any proposal that would immediately wipe out the problem. Container-loads of toys, television sets and all manner of high-tech equipment and clothing come in from the far east to Southampton or Felixstowe docks. Those containers could either return to China

llwyddiannus, dylent symud i barc technoleg. Dyna sut y dylai weithio, ond weithiau mae angen pwniad bach arnynt i wneud hynny. Credaf fod Simon Gibson wedi gwneud y pwynt hwnnw'n gryf, ac yr ydym yn derbyn y neges honno, pan fydd tir ar gael dros y ffordd, neu gerllaw, fel sydd wedi bod yn wir am Lanelwy.

### Lefelau Ailgylchu

**C7 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(3)0897(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn ailgylchu tua thraean eu gwastraff. Mae hynny'n gynnydd aruthrol o'i gymharu â 3 neu 4 y cant, chwech neu saith mlynedd yn ôl. Nid oes dim rheswm dros dybio na allwn gyrraedd y targed a bennwyd yn wreiddiol gennym, sef ailgylchu 40 y cant o wastraff erbyn 2010. Gan ein bod yn weddol hyderus ynghylch cyrraedd y targed hwnnw o 40 y cant, yr ydym yn awr wedi pennu targed tymor hwy o 70 y cant erbyn 2025. Nid ydym yn hunanfodlon, oherwydd gwyddom fod un neu ddwy o wledydd yn Llychlyn eisoes wedi cyrraedd 70 y cant, felly mae'n broses hir o ddal i fyny i ni. Fodd bynnag, os edrychych ar yr hyn sydd wedi digwydd o ran amser a chymharu'r sefyllfa yn 2000 â'r sefyllfa yn awr, gwelwch ei bod ganmil gwell.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae'r cynnydd a wneir gan awdurdodau ledled Cymru'n galonid imi, yr un fath ag y mae i chithau. Bu cryn ddadlau'n ddiweddar ynghylch allforio deunydd eildro dramor, yn enwedig plastigau, ac ynghylch a yw hynny'n ffordd ddichonadwy o wneud pethau. Ymddengys i mi nad oes gan Gymru ddiwydiant i ailgylchu swmp o ddeunyddiau yn y wlad. A oes gan Lywodraeth y Cynulliad strategaeth i fynd i'r afael â'r bwloch hwnnw yn y farchnad?

**Y Prif Weinidog:** Ni wn am gynnig a fyddai'n dileu'r broblem ar unwaith. Mae llond cynwysyddion o deganau, setiau teledu a phob math o offer uwch-dechnoleg a dillad o'r dwyrain pell yn cyrraedd dociau Southampton neu Felixtowe. Gallai'r cynwysyddion hynny naill ai ddychwelyd i

empty or they could contain plastics to be recycled in south-east Asia, as ballast or as low-value cargo—either is better than sending them back empty. That appears to be the rationale for the present system. It does not mean that we should not be thinking about how to get plastics reprocessed here, but there will always be the attraction of all those empty containers travelling on ships back to China. At the moment, China exports about four times as much as it imports. We are buying television sets from them and we are not selling anything comparable back to China. The question is really about the ethical issues. Trying to get a better balance in world trade is one thing, but then there are the ethical issues raised by Nerys Evans in her Member proposed Measure on recycling last week.

**Lesley Griffiths:** First Minister, earlier this month, the Government announced that it was giving Wrexham County Borough Council more than £2 million in the form of a sustainable waste management grant to increase recycling and composting rates and to reduce the council's dependence on landfill. Do you agree that that kind of investment clearly shows that the Government is not just committed to creating a cleaner, greener Wales for us all, but is prepared to invest to ensure that local councils meet their target and obligation of recycling and composting 40 per cent of their waste by 2010?

**The First Minister:** Yes, certainly. That is our policy and we have put a lot of money behind it. It is not just about talking the talk, but walking the walk. A lot of money has gone in to increase the sums available from £35 million to £50 million across Wales. Wrexham has received its share of that, which will enable Wrexham council to push ahead and meet public demand for kerb-side recycling to be available. The public wants to see its own local authorities at the top of the league table, as well as a swift rise in the percentage of municipal waste that is available for composting and recycling.

**Darren Millar:** First Minister, will you join

Tsieina yn wag neu gallent gynnwys plastigau i'w hailgylchu yn ne-ddwyrain Asia, fel balast neu fel cargo o werth isel—mae'r naill a'r llall yn well na'u hanfon yn ôl yn wag. Ymddengys taw hynny yw sail resymegol y system gyfredol. Nid yw'n golygu na ddylem fod yn meddwl am ffyrdd i ailbroesu plastigau yma, ond bydd yr holl gynwysyddion hynny sy'n teithio ar longau yn ôl i Tsieina bob amser yn ddeniadol. Ar hyn o bryd, mae Tsieina'n allforio tua chymaint bedair gwaith ag y mae'n ei fewnforio. Yr ydym yn prynu setiau teledu ganddynt ac nid ydym yn gwerthu dim byd tebyg yn ôl i Tsieina. Hanfod y cwestiwn mewn gwirionedd yw'r materion moesol. Un peth yw ceisio cael gwell cydbwysedd ym masnach y byd, ond yn ogystal mae'r materion moesol a godwyd gan Nerys Evans yn ei Mesur a gynigir gan Aelod ar ailgylchu yr wythnos diwethaf.

**Lesley Griffiths:** Brif Weinidog, yn gynharach yn y mis, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn rhoi dros £2 miliwn ar ffurf grant rheoli gwastraff cynaliadwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio a lleihau dibyniaeth y cyngor ar dirlenwi. A gytunwch fod y math hwnnw o fuddsoddiad yn dangos yn glir nad wedi ymrwymo i greu Cymru lanach, wyrddach i bob un ohonom yn unig y mae'r Llywodraeth, ond ei bod hefyd yn barod i fuddsoddi er mwyn sicrhau bod cynghorau lleol yn cyrraedd eu targed a'u rhwymedigaeth i ailgylchu a chompostio 40 y cant o'u gwastraff erbyn 2010?

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf, yn sicr. Hynny yw ein polisi, ac yr ydym wedi rhoi llawer o arian ato. Nid yw adrodd y geiriau yn ddigon, rhaid eu trosi'n weithredoedd. Rhoddwyd llawer o arian i gynyddu'r symiau sydd ar gael o £35 miliwn i £50 miliwn ledled Cymru. Mae Wrecsam wedi cael ei chyfran o hynny, a bydd yn galluogi cyngor Wrecsam i fwrw ymlaen ac ateb y galw gan y cyhoedd am gael ailgylchu ar ochr y ffordd. Mae ar y cyhoedd eisiau gweld eu hawdurdodau lleol eu hun ar frig y gynghrair, yn ogystal â chynnydd sydyn yng nghanran y gwastraff trefol sydd ar gael i'w gompostio a'i ailgylchu.

**Darren Millar:** Brif Weinidog, a ymunwch â

me in congratulating Conservative-run Monmouthshire County Council on being named the greenest county in Wales by on-line directory Local Life, following research into the number of green businesses and services operating in the county, including recycling centres?

**The First Minister:** I am not sure whether that is an Olympic gold medal that you have just awarded, Darren, or whether it is a widely accepted measure of good practice across the different local authorities. I commend all the local authorities in Wales, whatever political party is in control—that does not matter—because there is a widespread, non-partisan demand by the citizens of Wales, who want to participate in recycling schemes and see their local authority make available composting, recycling and reuse centres. Wherever people live, we want the whole of Wales to participate, and as rapidly as possible, in increasing the percentage of municipal waste that is recycled, until we reach the levels already reached in Scandinavia and the Low Countries.

**Nerys Evans:** A ydych yn credu yn yr egwyddor y dylem wybod ymhle mae ein gwastraff yn cael ei ailgylchu, er mwyn gwneud y broses yn fwy agored ac i agor y drafodaeth ynglŷn â datblygu capasiti ailgylchu yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi cael trafodaethau gyda San Steffan ynglŷn â'ch Mesur arfaethedig chi a'n Gorchymyn arfaethedig ni, er mwyn ceisio eu cymhwysio a gweld a fyddai'r hawl gennym, pe baem yn llwyddo i gael y cymhwysedd deddfwriaethol, i wneud rhywbeth ar hyd y llinellau yr oeddech yn ei annog yr wythnos diwethaf. Mae'n bwysig ein bod yn ceisio sicrhau bod gennym y gallu, nad yw gennym yn awr, i fynd ymhellach o ran gwella'r amgylchedd a thrin gwastraff cartref heb orfod defnyddio tomenni.

#### **The Abolition of Prescription Charges**

**Q8 Jenny Randerson:** Will the First Minister make a statement on the abolition of prescription charges? OAQ(3)0883(FM)

mi wrth longyfarch Cyngor Sir Fynwy, dan arweiniad y Ceidwadwyr, ar gael ei enwi'n sir wyrddaf Cymru gan y cyfeiriadur ar-lein Local Life, yn dilyn ymchwil i nifer y busnesau a gwasanaethau gwyrdd sy'n gweithredu yn y sir, gan gynnwys canolfannau ailgylchu?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn sicr ai medal aur y gemau Olympaidd yr ydych newydd ei dyfarnu, Darren, neu a yw'n fesur o arferion da a dderbynnir yn helaeth ymhlith y gwahanol awdurdodau lleol. Yr wyf yn llongyfarch pob awdurdod lleol yng Nghymru, pa blaid wleidyddol bynnag sy'n rheoli—nid yw hynny'n bwysig—oherwydd y mae galw eang, amhleidiol, gan ddinasyddion Cymru, sydd am gymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu ac am weld eu hawdurdod lleol yn darparu canolfannau compostio, ailgylchu ac ailddefnyddio. Pa le bynnag y mae pobl yn byw, yr ydym am i Gymru gyfan gymryd rhan, cyn gynted ag sy'n bosibl, mewn cynyddu canran y gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu, nes inni gyrraedd y lefelau y maent eisoes wedi'u cyrraedd yn Sgandinafia a'r Iseldiroedd.

**Nerys Evans:** Do you believe in the principle that we should know where our waste is recycled, in order to make the process more transparent and to open the discussion about developing recycling capacity in Wales?

**The First Minister:** We have had discussions with Westminster about your proposed Measure and our proposed Order, in order to try to qualify them and see whether we would have the right, if we succeeded in getting the legislative competence, to do something along the lines that you suggested last week. It is important that we try to ensure that we have the ability, that we do not have at present, to go further in relation to improving the environment and dealing with domestic waste without having to use landfill.

#### **Dileu Ffioedd Presgripsiwn**

**C8 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddileu ffioedd presgripsiwn? OAQ(3)0883(FM)



**The First Minister:** This is a flagship policy that has been achieved, and it is now on the way to being copied in Scotland. It is working well, despite attempts by people from other parties to pretend that this good news is bad news. From the advice that we are getting from the people who run the prescription service, there is no evidence of abuse of free prescriptions.

**Jenny Randerson:** Thank you for that answer, First Minister. I would like you to give some more information about the total cost of this policy. It is now a year old, and you must have some estimates available. Yesterday, I met a gentleman from Wrexham who is suffering severely from Parkinson's disease. He has been recommended by his consultant in Birmingham for deep brain stimulation, but Health Commission Wales has said that it will not fund this treatment. As you know, Health Commission Wales is not funding deep brain stimulation throughout Wales, because it says that it does not have the money. This gentleman could not understand your sense of priorities, and neither, frankly, can I. Why is it possible to give us all free prescriptions, but not to provide a treatment such as this, which would make the world of difference to his quality of life and, indeed, his ability to continue living? Can you confirm to us whether the cost of free prescriptions is much greater than the cost of providing deep brain stimulation to all those who would be suitable for it throughout Wales?

**The First Minister:** That is the worst kind of partisan shroud-waving. To say that either we have free prescriptions or we change the policy of Health Commission Wales on deep brain stimulation is absurd. I find it absolutely stomach-churning that you should try that old tactic. For four or five years, you, as a party, have felt bitter about free prescriptions. You go on and on, trying to convert the good news about free prescriptions into bad news. It is a good policy, and there is no evidence that it is being abused, yet every week you try to come up with some new argument to try to convert the good news about free prescriptions into bad news. I find it sickening that you should

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn bolisi blaenllaw sydd wedi cael ei wireddu, ac mae camau ar y gweill yn awr i'w efelychu yn yr Alban. Mae'n gweithio'n dda, er gwaethaf ymdrechion gan bobl o bleidiau eraill i esgus bod newyddion da yn newyddion drwg. Yn ôl y cyngor yr ydym yn ei gael gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth presgripsiynau, nid oes dim tystiolaeth o gamfanteisio ar bresgripsiynau am ddim.

**Jenny Randerson:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Hoffwn ichi roi rhywfaint o wybodaeth am gost lawn y polisi hwn. Mae'n flwydd oed erbyn hyn, a rhaid bod rhai amcangyfrifon ar gael ichi. Ddoe, cyfarfûm â gŵr o Wrecsam sy'n dioddef yn ddifrifol gan glefyd Parkinson. Mae wedi cael ei argymhell gan ei ymgynghorydd yn Birmingham i gael ysgogi yn nwf n yr ymennydd, ond mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi dweud na wnaiff ariannu'r driniaeth hon. Fel y gwyddoch, nid yw Comisiwn Iechyd Cymru yn ariannu ysgogi yn nwf n yr ymennydd ar hyd a lled Cymru, oherwydd dywed nad yw'r arian ganddo. Ni allai'r gŵr bonheddig hwn ddeall eich blaenoriaethau, ac, a bod yn onest, ni allaf finnu ychwaith. Pam mae hi'n bosibl rhoi presgripsiynau am ddim i bawb ohonom, ond nid darparu triniaeth fel hon, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr iawn i ansawdd ei fywyd ac, yn wir, i'w allu i ddal i fyw? A allwch gadarnhau wrthym a yw cost presgripsiynau am ddim yn llawer mwy na'r gost o ddarparu ysgogi yn nwf n yr ymennydd i bawb a fyddai'n addas i'w gael ledled Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Dyna'r math gwaethaf o godi bwganod pleidiol. Mae dweud ein bod un ai'n cael presgripsiynau am ddim neu'n newid polisi Comisiwn Iechyd Cymru ar ysgogi yn nwf n yr ymennydd yn ynfyd. Mae'n troi fy stumog eich bod yn rhoi cynnig ar yr hen gast hwnnw. Ers pedair neu bum mlynedd, yr ydych chi, fel plaid, wedi teimlo'n chwerw ynglŷn â phresgripsiynau am ddim. Yr ydych yn rhygnu ymlaen, yn ceisio troi'r newyddion da am bresgripsiynau am ddim yn newyddion drwg. Mae'n bolisi da, ac nid oes dim tystiolaeth ei fod yn cael ei gamddefnyddio, eto i gyd bob wythnos yr ydych yn ceisio meddwl am ryw ddadl newydd i droi'r newyddion da am

try to use this case of a person who applied unsuccessfully via his consultant to Health Commission Wales, which is an entirely separate argument about the value for money of deep brain stimulation and Health Commission Wales, and say that that is to do with free prescriptions. You should rethink your whole approach to this issue. You should accept that free prescriptions have come about and that they are a success—you did not like it and you continue not to like it, but, for God's sake, use some sensible arguments.

2.50 p.m.

**Helen Mary Jones:** You will remember that one reason why you brought in free prescriptions, and why we supported it, was the evidence that people on low incomes could not afford to fulfil all their prescriptions, and so chose to fulfil some rather than others. I have anecdotal evidence from pharmacists and general practitioners in my constituency that the introduction of free prescriptions has addressed that problem. For example, asthma patients are now taking both their inhalers, and this is reducing the number of asthma patients admitted to hospital with crises in their treatment. Do you agree that it would be worthwhile undertaking academic research into this, to demonstrate the benefits of this successful policy to individual patients and to the health system as a whole?

**The First Minister:** Indeed. I was one of the few people in this Assembly who could not benefit from the policy—I was already getting free prescriptions because of my age. I am also an asthmatic, and I get two kinds of asthma inhalers. What is important is to help those who, unlike me, are not in a reasonably well-paid job, and are not aged over 60. Carers or cleaners, for example, might be on the minimum wage, and if they had asthma, they would be in the invidious position of saying to the doctor or the pharmacist, 'I cannot afford both of these—which is more important, the preventer or the aborter; the blue one or the brown one?'. That is a serious

bresgripsiynau am ddim yn newyddion drwg. Mae'n ffaidd i mi eich bod yn ceisio defnyddio'r achos hwn lle y mae rhywun wedi gwneud cais aflwyddiannus drwy ei ymgynghorydd i Gomisiwn Iechyd Cymru, sy'n ddadl gwbl wahanol ynghylch ysgogi yn nwf n yr ymennydd a Chomisiwn Iechyd Cymru o safbwynt gwerth am arian, a dweud bod a wnelo hynny â phresgripsiynau am ddim. Dylech ailystyried eich holl agwedd at y mater hwn. Dylech dderbyn bod presgripsiynau am ddim wedi cael eu sefydlu a'u bod yn llwyddiant—nid oeddech yn hoffi hynny ac nid ydych yn ei hoffi o hyd, ond, er mwyn Duw, defnyddiwch ddadleuon synhwyrol.

**Helen Mary Jones:** Byddwch yn cofio mai un rheswm pam y cyflwynasoch bresgripsiynau am ddim, a pham y cefnogasom hynny, oedd y dystiolaeth nad oedd pobl ar incwm isel yn gallu fforddio cyflawni eu holl bresgripsiynau, a'u bod felly yn dewis cyflawni rhai yn hytrach nag eraill. Mae gennyf dystiolaeth anecdotaidd oddi wrth fferyllwyr ac ymarferwyr cyffredinol yn fy etholaeth fod cyflwyno presgripsiynau am ddim wedi mynd i'r afael â'r broblem honno. Er enghraifft, mae cleifion sydd ag asthma erbyn hyn yn cymryd eu dau fewnanadlydd, ac mae hyn yn gostwng nifer y cleifion sydd ag asthma a dderbynnir i'r ysbyty oherwydd argyfwng yn eu triniaeth. A ydych yn cytuno y byddai'n werth chweil gwneud ymchwil academiaidd i hyn, i ddangos manteision y polisi llwyddiannus hwn i gleifion unigol ac i'r gyfundrefn iechyd drwyddi draw?

**Y Prif Weinidog:** Yn wir. Yr oeddwn yn un o'r ychydig bobl yn y Cynulliad hwn na allent elwa o'r polisi—yr oeddwn eisoes yn cael presgripsiynau am ddim oherwydd fy oedran. Yr wyf hefyd yn astmatig, ac yr wyf yn cael dau fath o fewnanadlydd asthma. Yr hyn sy'n bwysig yw helpu'r rhai, yn wahanol i mi, nad ydynt mewn swydd sy'n talu'n gymharol dda, ac nad ydynt dros 60 oed. Gallai gofawyr neu lanhawyr, er enghraifft, fod ar yr isafswm cyflog, a phe bai asthma arnynt, byddent yn y sefyllfa annymunol eu bod yn dweud wrth y meddyg neu'r fferylllydd, 'Ni allaf fforddio'r naill a'r llall o'r rhain—pa un yw'r pwysicaf, y rhwystrwr

issue for people on the minimum wage.

You could say, ‘Well, go on benefits, and you will get free prescriptions’, but we do not want people to go onto benefits for that reason—we want them to stay in work, even if they are on the minimum wage, because then they have the makings of a career in front of them. There were issues about cancer patients, for example, and people with cerebral palsy—a whole range of people—who were sometimes on four or five prescriptions and could not afford all of them. If they were on, or close to, the minimum wage, then they had to make an invidious choice.

I was talking to a pharmacist last week, and I was asked whether it was true that we were thinking of reviewing the free prescription policy. I said, ‘No, it is not true. Where is this rumour coming from?’. I think that I know, given what happened earlier today, exactly where it is coming from, but it is not true.

**Darren Millar:** You say that there is no evidence that free prescriptions are being abused, but is it not the case that there are 112,000 more people registered with GPs in Wales than the official population statistics allow? That is clear evidence, given the rise of over 41,000 people registered with GPs in 2006—the year before free prescriptions were introduced—that free prescriptions are luring people from outside Wales to register with Welsh GPs.

**The First Minister:** That is a farcical point. If you go into the matter in any depth you will find that there is a long-standing dispute between the health service and the Office of National Statistics, which counts the population. The health service has always had this issue that there are more people registered with GPs than the population figures allow. Duration is part of it, but is by no means all of it. I do not know the answer, but it is a long-standing issue that has nothing

ynteu’r terfynwr; yr un glas ynteu’r un brown? Mae hwnnw’n fater difrifol i bobl ar yr isafswm cyflog.

Gallech ddweud, ‘Wel, ewch ar fudd-daliadau, ac fe gewch bresgripsiynau am ddim’, ond nid ydym am i bobl fynd ar fudd-daliadau am y rheswm hwnnw—yr ydym am iddynt aros mewn gwaith, hyd yn oed os ydynt ar yr isafswm cyflog, oherwydd wedyn mae ganddynt fodd i gael gyrfa. Yr oedd problemau’n ymwneud â chleifion canser, er enghraifft, a phobl â pharlys yr ymennydd—ystod gyfan o bobl—a oedd weithiau ar bedwar neu bum presgripsiwn ac na allent eu fforddio i gyd. Os oeddent ar yr isafswm cyflog neu’n agos ato, yna yr oedd rhaid iddynt wneud dewis annymunol.

Yr oeddwn yn siarad â fferylllydd yr wythnos diwethaf, a gofynnwyd imi a oedd yn wir ein bod yn ystyried adolygu’r polisi presgripsiynau am ddim. Dywedais, ‘Nac ydyw, nid yw’n wir. O ble y mae’r si hon yn dod?’ Credaf fy mod yn gwybod, o ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn gynharach heddiw, o ble yn union y mae’n dod, ond nid yw’n wir.

**Darren Millar:** Dywedwch nad oes tystiolaeth bod pobl yn camfanteisio ar bresgripsiynau am ddim, ond onid yw’n wir bod 112,000 yn fwy o bobl wedi cofrestru gyda meddygon teulu yng Nghymru nag sydd i fod o ran yr ystadegau swyddogol ynghylch y boblogaeth? Mae hynny’n dystiolaeth glir, o ystyried y cynnydd o fwy na 41,000 o bobl a gofrestrodd gyda meddygon teulu yn 2006—y flwyddyn cyn cyflwyno presgripsiynau am ddim—fod presgripsiynau am ddim yn hudo pobl o’r tu allan i Gymru i gofrestru gyda meddygon teulu yng Nghymru.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw’n bwynt chwerthinllyd. Os ystyriwch y mater yn ofalus, canfyddwch fod dadl ers tro byd rhwng y gwasanaeth iechyd a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy’n cyfrif y boblogaeth. Mae hyn wedi bod yn broblem erioed yn y gwasanaeth iechyd, fod mwy o bobl yn cofrestru gyda meddygon teulu na’r hyn sydd i fod o ran ffigurau’r boblogaeth. Mae carchar yn rhan o hynny, ond nid hynny yw’r cyfan o bellffordd. Ni wn beth yw’r ateb, ond

to do with free prescriptions. You have invented this press release, which you have put out today, saying that it proves that free prescriptions are being abused by prescription tourism—and you have got your official frontbench spokesman to support you, even though it is a lunatic press release. I go on the fact that the prescriptions pricing authority, under its new name of Health Solution Wales, tells me that there is no evidence that the rise in prescriptions, or the rise in over-the-counter medicines that are now being obtained through prescriptions, is any different than it was four years ago when this policy started.

### Anti-social Behaviour

**Q9 William Graham:** Will the First Minister outline the impact of anti-social behaviour upon communities in Wales? OAQ(3)0882(FM)

**The First Minister:** I am sure that everyone is agreed on this: it is a very high priority for voters in every community in Wales, but especially in the less well-off communities. Anti-social behaviour is a really important issue for them. It is about the pensioner's right to go to the Spar shop at 9 p.m. to buy the tin of baked beans that he or she has forgotten or whatever without feeling threatened by a gang of youths sitting on a low wall outside the shop. That is a problem, and we provide £4.5 million for local crime reduction partnerships—involving the local authority, the police, and others—to decide whether they want to use closed-circuit TV, or look at ways of getting young people off the streets and into a skateboard park, and so on. They can choose the priorities, but everyone accepts that this is a problem, and the need to reclaim the streets and the neighbourhood for respectable people.

**William Graham:** Would you join me in congratulating the Cwmbran neighbourhood policing team, which launched a highly successful initiative to tackle underage drinking and anti-social behaviour in the

mae'n broblem ers amser maith nad oes a wnelo o gwbl â phresgripsiynau am ddim. Chi sydd wedi dyfeisio'r datganiad hwn i'r wasg, yr ydych wedi ei gyhoeddi heddiw, yn dweud ei fod yn profi bod pobl yn dod i Gymru i gamfanteisio ar bresgripsiynau am ddim—ac yr ydych wedi cael gan eich llefarydd swyddogol ar y fainc flaen eich cefnogi, er ei fod yn ddatganiad i'r wasg gwallgof. Yr wyf fi'n dibynnu ar y ffaith bod yr awdurdod prisio presgripsiynau, o dan ei enw newydd Atebion Iechyd Cymru, yn dweud wrthyf nad oes dim tystiolaeth bod y cynnydd mewn presgripsiynau, na'r cynnydd mewn meddyginiaethau dros y cownter a geir erbyn hyn drwy bresgripsiwn, yn wahanol o gwbl i'r hyn ydoedd bedair blynedd yn ôl pan ddechreuodd y polisi hwn.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**C9 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gymunedau yng Nghymru? OAQ(3)0882(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn siŵr bod pawb yn gytŷn ar hyn: mae'n flaenoriaeth uchel iawn i bleidleiswyr ym mhob cymuned yng Nghymru, ond yn enwedig yn y cymunedau llai cefnog. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater gwirioneddol bwysig iddynt. Mae a wnelo â hawl y pensiyntwr i fynd i'r siop Spar am 9 p.m. i brynu'r tun ffa pob y mae ef neu hi wedi'i anghofio neu beth bynnag y bo heb deimlo dan fygythiad gan griw o bobl ifanc yn eistedd ar wal isel y tu allan i'r siop. Mae hynny'n broblem, ar yr ydym yn darparu £4.5 miliwn i bartneriaethau gostwng troseddu lleol—sy'n cynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, ac eraill—i benderfynu a ydynt am ddefnyddio teledu cylch cyfyng, neu am edrych ar ffyrdd o gael pobl ifanc oddi ar y strydoedd ac i barc sgrialu, ac yn y blaen. Gallant hwy ddewis y blaenoriaethau, ond mae pawb yn derbyn bod hyn yn broblem, a bod angen hawlio'r strydoedd a'r gymdogaeth yn ôl i bobl barchus.

**William Graham:** A wnewch ymuno â mi i longyfarch tîm plismona cymdogaeth Cwmbrân, a lansiodd gynllun hynod o lwyddiannus i fynd i'r afael ag yfed o dan oed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y

town, on its efforts? Such initiatives contribute to the remarkable statistic that Gwent Police has cut crime in its area by a fifth in three years.

**The First Minister:** There are also spectacular figures for other areas within the Gwent Police area, such as Tredegar. Indeed, Carl Sargeant, Mark Tami, the MP for Alyn and Deeside, and I visited a project in Fron Road park in Connah's Quay only last Friday with the Home Secretary, Jacqui Smith, to discuss this very issue. We are not talking about areas with big-time crime problems and drug syringes and so on—it is not that sort of area—but there is evidence of underage drinking in the children's park, and this has to stop. We have to find out who is supplying underage people with cider and beer, and make sure that that stops, through better licensing.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, I am sure that you agree that the Partnerships and Communities Together process is making an important difference to people's quality of life. Indeed, on 26 March, I attended the PACT meeting for the Morgan Jones ward in Caerphilly town. One of the key issues raised by local residents was that of graffiti. It is a low-level incident, but it blights the lives of the many people who have to put up with it day in, day out. The agreement that came from that meeting was that teams of young people from the local youth offending justice teams, under supervision, would undertake the cleaning of garages and other property that had been defaced with graffiti. Do you agree that using young people who have caused the problem to clean up the mess is a good way forward?

**The First Minister:** I do, because it is restorative justice and a good way of getting young people to realise why what they have done is wrong; getting them to put it right makes them feel much better about it and far less likely to re-offend. However, I do not want to demonise young people. One of the excellent projects elsewhere in the Gwent Police area, in Torfaen, involves a time bank

dref, ar ei ymdrechion? Mae cynlluniau o'r fath yn cyfrannu at yr ystadegyn rhyfeddol bod Heddlu Gwent wedi sicrhau un rhan o bump o ostyngiad yn lefel troseddu yn ei ardal mewn tair blynedd.

**Y Prif Weinidog:** Mae ffigurau anhygoel hefyd mewn ardaloedd eraill yn nalgylch Heddlu Gwent, megis Tredegar. Yn wir, ymwelodd Carl Sargeant, Mark Tami, yr AS dros Alun a Glannau Dyfrdwy, a minnau â phrosiect ym mharc Fron Road yng Nghei Connah ddydd Gwener diwethaf gyda'r Ysgrifennydd Cartref, Jacqui Smith, i drafod yr union fater hwn. Nid ydym yn sôn am ardaloedd sydd â'r problemau troseddu mwyaf difrifol a chwistrellau cyffuriau ac yn y blaen—nid y math hwnnw o ardal ydyw—ond mae tystiolaeth bod yfed o dan oedran yn digwydd ym mharc y plant, a rhaid i hyn ddod i ben. Rhaid inni ganfod pwy sy'n cyflenwi seidr a chwrw i'r bobl o dan oedran, a gwneud yn siŵr bod hynny'n dod i ben, drwy well trwyddedu.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod y broses Partneriaethau a Chymunedau gyda'n Gilydd yn gwneud gwahaniaeth pwysig i ansawdd bywyd pobl. Yn wir, ar 26 Mawrth, bûm mewn cyfarfod PACT ar gyfer ward Morgan Jones yn nhref Caerffili. Un o'r materion allweddol a godwyd gan y trigolion lleol oedd graffiti. Nid yw'n rhywbeth mawr iawn, ond mae'n difetha bywydau llawer o bobl sy'n gorfod ei ddioddef drwy'r amser. Y cytundeb a ddeilliodd o'r cyfarfod hwnnw oedd y byddai timau o bobl ifanc o'r timau cyfiawnder troseddau ieuentid, o dan oruchwyliaeth, yn ymgymryd â glanhau garejys ac eiddo arall sydd wedi cael ei ddifwyno â graffiti. A ydych yn cytuno bod defnyddio'r bobl ifanc sydd wedi achosi'r broblem i glirio'r llanast yn ffordd dda ymlaen?

**Y Prif Weinidog:** Ydwyf, oherwydd y mae'n gyfiawnder adferol ac yn ffordd dda o gael pobl ifanc i sylweddol pam mae'r hyn y maent wedi'i wneud yn gamwedd; mae eu cael hwy i unioni pethau yn gwneud iddynt deimlo'n llawer gwell amdano ac yn llawer llai tebygol o aildroseddu. Fodd bynnag, nid wyf am ddemoneiddio pobl ifanc. Mae un arall o'r prosiectau rhagorol mewn rhan arall

project whereby young people who have not committed a crime can earn credit by undertaking voluntary work, which they can use for various educational trips or activities. That is another part of engaging young people in constructive activity, which gives them pride and makes them feel less like outsiders, which in turn means that they will not feel socially excluded and will therefore be less likely to think, 'It is not really our neighbourhood, it does not belong to us; therefore, we can paint graffiti all over it'.

**Chris Franks:** First Minister, will you congratulate the Vale of Glamorgan Council on its work on community-led alleygating? Can you say what other measures local councils can take to reduce the impact of anti-social behaviour and move our communities forward? Do you think that it would be a suitable idea to have a youth version of the South Wales Police project Preventing Anti-Social Crime Together to try to engage young people?

**The First Minister:** Given my own constituency interest, I believe that alleygating is a very important step forward in enabling the police, police community support officers, neighbourhood wardens and others to discourage petty crime and vandalism, as otherwise the local kids will always know how to escape down a local alley. It has been a great success wherever it has been brought in. As I said earlier in answer to William Graham, it is up to the local crime reduction partnership to decide on its priorities, because it depends on the particular forms of anti-social behaviour in the area. It could be the dealing of drugs on the street, or it might be vandalism, graffiti, fly posting, or general rowdy and nuisance behaviour. I do not know; it will vary across Wales. Therefore, it is up to the local authorities to decide. However, in 'One Wales', we have said that we want to deal with the other side by having better and more comprehensive provision in youth services so that you divert young people away from getting involved in anti-social behaviour.

o ardal Heddlu Gwent, yn Nhor-faen, yn brosiect banc amser lle y gall pobl ifanc nad ydynt wedi cyflawni trosedd ennill credyd drwy wneud gwaith gwirfoddol, a gallant ei ddefnyddio ar gyfer triapiau neu weithgareddau addysgol amrywiol. Mae hynny'n rhan arall o gynnwys pobl ifanc mewn gweithgarwch adeiladol, sy'n rhoi balchder iddynt ac yn lleihau'r teimlad o fod ar y cyrion, sydd yn ei dro yn golygu na fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu hallgáu yn gymdeithasol ac y byddant felly yn llai tebygol o feddwl, 'Nid ein cymdogaeth ni yw hon mewn gwirionedd, nid yw'n perthyn i ni, felly, gallwn baentio graffiti drosti i gyd'.

**Chris Franks:** Brif Weinidog, a wnewch longyfarch Cyngor Bro Morgannwg ar ei waith yn gosod gatiâu o dan arweiniad y gymuned? A allwch ddweud pa gamau eraill y gall cynghorau lleol eu cymryd i leihau effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol a symud ein cymunedau yn eu blaenau? A ydych yn meddwl y byddai'n syniad addas cael fersiwn ieuenctid o brosiect Heddlu De Cymru, Atal Troseddu Gwrthgymdeithasol Gyda'n Gilydd, i geisio ymgysylltu â phobl ifanc?

**Y Prif Weinidog:** O ystyried fy etholaeth fy hun, credaf fod gosod gatiâu yn gam pwysig iawn ymlaen i alluogi'r heddlu, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, wardeniaid cymdogaeth ac eraill i wrthannog mân droseddu a fandaliaeth, gan y bydd y plant lleol bob amser yn gwybod fel arall sut mae dianc ar hyd ale leol. Mae wedi bod yn llwyddiant mawr pa le bynnag y mae wedi cael ei gyflwyno. Fel y dywedais yn gynharach wrth ateb William Graham, mater i'r bartneriaeth gostwng troseddu leol yw penderfynu ar ei blaenoriaethau, oherwydd y mae'n dibynnu ar y mathau neilltuol o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Gallai fod yn werthu cyffuriau ar y stryd, neu gallai fod yn fandaliaeth, graffiti, gosod posterï heb ganiatâd, neu'n ymddygiad stwrlyd neu niwsans cyffredinol. Ni wn, bydd yn amrywio ar draws Cymru. Felly, mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu. Fodd bynnag, yn 'Cymru'n Un', yr ydym wedi dweud ein bod am ddelio â'r ochr arall drwy gael gwell darpariaeth, a darpariaeth fwy cynhwysfawr, mewn gwasanaethau ieuenctid fel eich bod yn peri nad yw pobl

ifanc yn dechrau ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### Innovation and Technology

**Q10 David Melding:** Will the First Minister make a statement on measures to promote innovation and technology in Wales? OAQ(3)0892(FM)

**The First Minister:** The pan-Wales technology and innovation team in Ieuan Wyn Jones's division will assist innovators in our new Flexible Support for Business scheme, about which Ieuan Wyn Jones will say something pretty extensive later this week. We also work with universities and further education colleges to maximise research commercialisation and to facilitate knowledge transfer, as is shown by the £50 million that we have put into that activity. That was one of the very earliest allocations under the convergence programme.

3.00 p.m.

**David Melding:** According to Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform figures, around two-thirds of commercial innovation is generated by small and medium-sized enterprises and, according to the latest calculations, the SME sector generates just over half of our gross domestic product per capita. Do you agree that, in Welsh Assembly Government programmes to promote innovation and technology, particular emphasis needs to be given to the SME sector, where most of our job creation is likely to occur in the future?

**The First Minister:** I would accept that, as I would also accept that Wales has been top-sliced, traditionally, in not having big company research and development laboratories—the Corus facility closed in 2001, and, much earlier than that, the huge British Nylon Spinners facility, which employed 650 people in research and development, closed 30 years ago. We have not had big company research and development centres in Wales. You have to ask where high-tech SMEs come from. Sometimes they come from frustrated guys or

### Arloesedd a Thechnoleg

**C10 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fesurau i hyrwyddo arloesedd a thechnoleg yng Nghymru? OAQ(3)0892(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bydd tîm technoleg ac arloesedd Cymru gyfan yn is-adran Ieuan Wyn Jones yn helpu arloeswyr yn ein cynllun newydd Cymorth Hyblyg i Fusnesau, y bydd Ieuan Wyn Jones yn dweud rhywbeth pur helaeth amdano yn ddiweddarach yr wythnos hon. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau addysg bellach i fanteisio i'r eithaf ar fasnacheiddio ymchwil ac i hwyluso trosglwyddo gwybodaeth, fel y dangosir gan y £50 miliwn yr ydym wedi ei neilltuo ar gyfer y gweithgarwch hwnnw. Yr oedd hwnnw'n un o'r dyraniadau cynharaf o dan y rhaglen gydgyfeirio.

**David Melding:** Yn ôl ffigurau'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio, mae tua dwy ran o dair o'r gweithgarwch arloesi masnachol yn deillio o fusnesau bach a chanolig ac, yn ôl y cyfrifiadau diweddaraf, mae sector y busnesau bach a chanolig yn cynhyrchu ychydig mwy na hanner ein cynnyrch mewnwladol crynswth y pen. A ydych yn derbyn bod angen rhoi pwyslais penodol yn rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu arloesi a thechnoleg ar y sector busnesau bach a chanolig, lle y mae'r rhan fwyaf o'n swyddi'n debygol o gael eu creu yn y dyfodol?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn derbyn hynny, fel y byddwn yn derbyn hefyd fod Cymru wedi arfer wynebu'r toriadau cyntaf am nad oedd ganddi labordai ymchwil a datblygu mawr a oedd yn eiddo i gwmnïau—caeodd cyfleuster Corus yn 2001, ac, yn gynharach o lawer na hynny, caeodd cyfleuster anferth British Nylon Spinners, a gyflogai 650 o bobl ym maes ymchwil a datblygu, 30 mlynedd yn ôl. Ni fu gennym ganolfannau ymchwil a datblygu mawr o eiddo cwmnïau yng Nghymru. Rhaid gofyn o ble y daw busnesau bach a chanolig ym maes uwch dechnoleg.

girls aged around 40, working in a big company research and development laboratory, where the boss says, 'No; we are not going down that route', so the frustrated researcher goes out and starts an SME. If you do not have the big company research and development laboratories in your area in the first place, that will not happen locally. That is one of the pities of the traditional structure of Wales that we intend to put right by means of all of these extra activities supported by European funding.

Fe'u cychwynnir mewn rhai achosion gan ddyinion neu fenywod rhwystredig tua 40 oed, sy'n gweithio mewn labordy ymchwil a datblygu mawr o eiddo cwmni, lle y mae'r pennaeth yn dweud, 'Nac ydym; nid ydym yn dilyn y llwybr hwnnw', felly mae'r ymchwilydd rhwystredig yn gadael ac yn cychwyn busnes bach neu ganolig. Os nad oes gennych labordai ymchwil a datblygu mawr o eiddo cwmnïau yn eich ardal yn y lle cyntaf, ni fydd hynny'n digwydd yn yr ardal honno. Dyna un o'r agweddau trist ar strwythur traddodiadol Cymru yr ydym yn bwriadu ei hunioni drwy'r holl weithgareddau ychwanegol hyn a gynhelir ag arian Ewropeaidd.

**Gareth Jones:** Yn ôl cytundeb 'Cymru'n Un' mae'n fwriad gan y Llywodraeth sefydlu academi wyddoniaeth genedlaethol a chanolfannau ymchwil cenedlaethol. Sut fydd y sefydliadau hyn yn rhyngweithio â byd busnes a sefydliadau addysg er hyrwyddo arloesedd a thechnoleg yng Nghymru?

**Gareth Jones:** According to 'One Wales', the Government intends to establish a national science academy and national research centres. How will such bodies interact with the world of business and with educational institutions in order to promote innovation and technology in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn parhau i drafod ond nid ydym yn barod eto i wneud cyhoeddiad. Fel y dywedais wrth ateb Mike German, ni allwch wneud popeth yn ystod y naw mis cyntaf, ac felly rhaglen dros dair blynedd a thri-chwarter yw 'Cymru'n Un'. Yr ydym yn parhau i drafod sut yn union y mae troi'r freuddwyd a'r ymrwymiad yn realiti. Byddwn yn gwneud y cyhoeddiadau pan fo amser. Gobeithiwn y bydd cyhoeddiadau ynglŷn â'r maes hwn, sy'n berthnasol i'n dyfodol arloesol a thechnolegol, yn nes ymlaen yr wythnos hon.

**The First Minister:** Discussions are ongoing but we are not yet ready to make an announcement. As I said in reply to Mike German, you cannot do everything in the first nine months, so 'One Wales' is a programme covering three and three-quarter years. We are discussing how to realise the dream and the commitment. We will make the announcements when time allows. We hope that some announcements on this issue, which is relevant to our innovative and technological future, will be made later on this week.

### **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I have no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found in the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Nid oes gennyf ddim newidiadau i'w hadrodd ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, sydd i'w weld ym mhapurau'r agenda sydd ar gael yn electronig i'r Aelodau.

**Nick Bourne:** I raise two issues that are of concern in terms of the Westminster

**Nick Bourne:** Codaf ddau fater sy'n destun pryder yng nghyd-destun San Steffan, dau



dimension, both of which the Leader of the House will be familiar with. First, in relation to energy costs, many hauliers—most recently, A.E. Gough and Sons yesterday—have raised with me the issue of the inequity of the position where fuel is so much cheaper on the continent than it is here. It means that hauliers are not competing on a level playing field across the European Union, which concerns British jobs. Will the Leader of the House consider allowing us to have a debate with a view, perhaps, to influencing policy elsewhere?

The second issue, which has arisen previously, is in relation to alcohol abuse; William Graham raised this issue today during questions to the First Minister. The particular angle that I am concerned about is the position of supermarkets and loss leaders. Having spoken to the representatives of some supermarkets, I understand that they would like to talk to each other about this issue. However, they cannot do so because the law, for sensible reasons, does not allow price fixing—this would be a cartel, even if they were colluding for the good of the community, as you will know with your legal background. Can we put pressure on Westminster to try to change the law, to allow an exemption, so that they can at least get together to fix prices for a sensible reason? I wonder whether the Leader of the House respond to those two points.

**Carwyn Jones:** Fuel costs are rising across the world. We know that there has even been a substantial increase over the past month. It is no longer the case that fuel costs are dramatically lower on the continent. The rise in the value of the euro means that, as far as UK hauliers are concerned, it is not hugely cheaper to fill up in some other EU countries. I was in Ireland a fortnight ago and saw that there is not a huge difference now between the price of diesel in Ireland and in Wales. The increase in the price of oil is a world problem, and it demonstrates our overdependence on oil. We are still in a situation where too few of the modes of transport that we use are reliant on sources of fuel other than oil. For example, I suspect that there is substantial work to be done over

fater y bydd Arweinydd y Tŷ yn gyfarwydd â hwy. Yn gyntaf, mewn cysylltiad â chostau ynni, mae llawer o gludwyr—yn fwyaf diweddar, A.E. Gough a'i Feibion ddoe—wedi cysylltu â mi ynghylch annhegwch y sefyllfa lle y mae tanwydd gymaint yn rhatach ar y cyfandir nag ydyw yn y fan hon. Mae'n golygu nad yw cludwyr yn cystadlu ar sail gyfartal ledled yr Undeb Ewropeaidd, ac mae hynny'n ymwneud â swyddi ym Mhrydain. A wnaiff Arweinydd y Tŷ ystyried caniatáu inni gael dadl er mwyn dylanwadu, efallai, ar bolisi yn rhywle arall?

Mae'r ail fater, sydd wedi codi o'r blaen, yn ymwneud â chamddefnyddio alcohol; cododd William Graham y mater hwn heddiw yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Yr agwedd benodol yr wyf yn pryderu yn ei chylch yw sefyllfa uwchfarchnadoedd a nwyddau a werthir ar golled. Wedi imi siarad â chynrychiolwyr rhai uwchfarchnadoedd, yr wyf yn deall y byddent yn hoffi siarad â'i gilydd am y mater hwn. Fodd bynnag, ni allant wneud hynny am nad yw'r gyfraith, am resymau synhwyrol, yn caniatáu trefnu prisiau ymlaen llaw—cartel fyddai hyn, hyd yn oed pe baent yn cynllwynio er lles y gymuned, fel y gwyddoch, a chofio'ch cefndir ym myd y gyfraith. A allwn bwyso ar San Steffan i geisio newid y gyfraith, i ganiatáu esemptiad, fel y gallant o leiaf ddod at ei gilydd i drefnu prisiau am reswm synhwyrol? Yr wyf yn meddwl tybed a wnaiff Arweinydd y Tŷ ymateb i'r ddau bwynt hynny.

**Carwyn Jones:** Mae costau tanwydd yn codi ledled y byd. Gwyddom fod cynnydd sylweddol wedi bod dros y mis diwethaf hyd yn oed. Nid yw'n wir bellach fod costau tanwydd yn is o lawer ar y cyfandir. Am fod gwerth yr ewro wedi codi, nid yw'n rhatach o lawer, o safbwynt cludwyr yn y DU, iddynt lenwi'r tanc yn rhai o wledydd eraill yr UE. Yr oeddwn yn Iwerddon bythefnos yn ôl a gwelais nad oedd gwahaniaeth aruthrol bellach rhwng pris diesel yn Iwerddon ac yng Nghymru. Mae'r cynnydd ym mhris olew'n broblem ryngwladol, ac mae'n dangos ein bod yn orddibynnol ar olew. Yr ydym yn dal mewn sefyllfa lle y mae rhy ychydig o'r dulliau o deithio a ddefnyddiwn yn dibynnu ar ffynonellau tanwydd heblaw olew. Er enghraifft, yr wyf yn tybio y bydd angen

the next five to 10 years on the development of electric cars. As an economy, we are overdependent on oil, and it is something that we should move to avoid in future. That is true of many countries in western Europe as well as the USA. However, I suspect that there is no question, at least in the short term, of oil prices dropping; it is a problem across the whole of Europe.

You raise a very serious point about alcohol abuse and the cutting of alcohol prices in supermarkets. There is evidence to suggest that, relatively, the price of alcohol is lower than it was 20 or 30 years ago. We are also in a situation where many drinks are now manufactured that are attractive to teenagers. Those drinks did not exist even 10 or 15 years ago—for example, alcopops did not exist 20 years ago. These drinks can be tempting to young children; in the days when the choice was really only between beer, lager or cider, the temptation was not quite the same. We do face a problem, but I suspect that the problem must be fixed at a level that goes wider than Wales—preferably the whole of GB, if not the whole of the UK. There are very few people in the Chamber who would not be of the view that something needs to be done to deal with alcohol abuse, particularly among the young. If an incentive is to be taken forward by supermarkets to increase the price of alcohol in future, I would encourage them to do that. However, that would need to be done at least at GB level, and not just here in Wales.

**Bethan Jenkins:** I express my concern regarding the UK Government's current benefit adjustment rules, which could see child poverty levels rise. A steady growth in income inequality is being produced by the annual adjusting or uprating of benefits, tax credits and tax allowances, according to a new report published by the Joseph Rowntree Foundation last week. The One Wales Government has remained committed to reaching its child poverty reduction targets, but does the Leader of the House share my concerns that the UK Government's benefit adjustment rules will hinder our attempts to

gwneud llawer o waith dros y pump i 10 mlynedd nesaf ar ddatblygu ceir trydan. Fel economi, yr ydym yn orddibynnol ar olew, a dylem gymryd camau i osgoi hynny yn y dyfodol. Mae hynny'n wir am lawer o wledydd yng ngorllewin Ewrop yn ogystal ag UDA. Fodd bynnag, yr wyf yn amau nad yw'n debygol y bydd costau olew'n gostwng, yn y tymor byr o leiaf; mae'n broblem ledled Ewrop.

Yr ydych yn codi pwynt difrifol iawn ynghylch camddefnyddio alcohol a gostwng prisiau alcohol mewn uwchfarchnadoedd. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod pris alcohol yn is, yn gymharol, nag a ydoedd 20 neu 30 mlynedd yn ôl. Yr ydym hefyd mewn sefyllfa lle y mae llawer o ddiodydd yn cael eu cynhyrchu yn awr sy'n ddeniadol i rai yn eu harddegau. Nid oedd diodydd o'r fath hyd yn oed 10 neu 15 mlynedd yn ôl—er enghraifft, nid oedd diodydd alcopop yn bod 20 mlynedd yn ôl. Gall y diodydd hyn fod yn ddeniadol i blant ifanc; yn y cyfnod pan nad oedd dewis mewn gwirionedd heblaw hwnnw rhwng cwrw, lager a seidr, nid oedd y demtasiwn yr un fath yn hollol. Yr ydym yn wynebu problem, ond yr wyf yn tybio bod yn rhaid datrys y broblem ar lefel ehangach nag un Cymru—Prydain Fawr gyfan os oes modd, os nad y DU gyfan. Ychydig iawn o bobl sydd yn y Siambr na fyddent o'r farn bod angen gwneud rhywbeth i ddelio â chamddefnyddio alcohol, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Os yw uwchfarchnadoedd yn ystyried cymryd camau i godi pris alcohol yn y dyfodol, byddwn yn eu hannog i wneud hynny. Fodd bynnag, byddai angen gwneud hynny ar lefel Prydain Fawr o leiaf, ac nid yma yng Nghymru'n unig.

**Bethan Jenkins:** Mynegaf bryder ynghylch rheolau presennol Llywodraeth y DU ar addasu budd-daliadau, a allai arwain at lefelau uwch o ran tlodi plant. Mae anghydraddoldeb o ran incwm yn cynyddu'n gyson oherwydd yr addasu neu uwchraddio blynyddol ar fudd-daliadau, credydau treth a lwfansau treth, yn ôl adroddiad newydd a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree yr wythnos diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi parhau â'i hymrwymiad i gyrraedd ei thargedau ar gyfer lleihau tlodi plant, ond a yw Arweinydd y Tŷ yn pryderu, fel minnau, y bydd rheolau Llywodraeth y

eradicate child poverty in Wales?

I also wish to raise awareness of the fact that Republic will be holding a meeting in the Assembly on Saturday with regard to challenging the oath of allegiance to the Queen. Given Lord Goldsmith's recent remarks about forcing this upon young people in Wales, I hope that Assembly Members will be able to attend the event, alongside me, John Griffiths and Leanne Wood.

**Carwyn Jones:** The benefits rules are a matter for the UK Government and not for the Government here. With regard to any oath of allegiance, my understanding was that it would be taken on a voluntary basis. When people enter certain jobs, such as becoming an Assembly Member, the oath of allegiance is made, but, in my view, a compulsory oath of allegiance is not particularly British. Yours is a view that I am sure many people would share. It would cause particular problems in Northern Ireland, where any such oath of allegiance would, once again, stir up some very old and difficult tensions at a time when the Province is at peace.

**Kirsty Williams:** You will be aware that, previously in the Chamber, we have had the opportunity to discuss the plans of Her Majesty's Revenue and Customs to close tax offices in Wales. The last time that we had this debate, your Government gave a commitment to lobby the Westminster Government hard for the retention of these offices. Recently, HMRC has announced that the two main work streams at the Merthyr office are to be relocated to Cardiff, which is bad news for the Merthyr office and for people in my constituency who, looking at the closure of the Brecon office, had held out hope that they could transfer to Merthyr. There will be no tax office on the east side of Wales between Wrexham and Cardiff, because of the closures at Pontypool and proposed closures at Newport. Can we have a written statement from the First Minister to outline what action your Government has taken over the past year since it said that it would lobby the Westminster Government hard on these issues?

DU ar addasu budd-daliadau'n llesteirio ein hymdrechion i ddileu tlodi plant yng Nghymru?

Yr wyf hefyd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith y bydd Republic yn cynnal cyfarfod yn y Cynulliad ddydd Sadwrn mewn cysylltiad â herio'r llw o deyrngarwch i'r Frenhines. O gofio'r sylwadau'n ddiweddar gan yr Arglwydd Goldsmith am orfodi hyn ar bobl ifanc yng Nghymru, yr wyf yn gobeithio y bydd Aelodau'r Cynulliad yn gallu dod i'r digwyddiad, gyda mi, John Griffiths a Leanne Wood.

**Carwyn Jones:** Mater i Lywodraeth y DU ac nid i'r Llywodraeth yn y fan hon yw'r rheolau ar fudd-daliadau. Gyda golwg ar lw o deyrngarwch o unrhyw fath, yr oeddwn yn deall y byddai'n cael ei gymryd yn wirfoddol. Pan fydd pobl yn dod i rai swyddi, fel un yr Aelod Cynulliad, er enghraifft, cymerir y llw o deyrngarwch, ond, yn fy marn i, nid yw llw o deyrngarwch sy'n orfodol yn arbennig o Brydeinig. Yr wyf yn siŵr y byddai llawer o bobl o'r un farn â chi. Byddai'n achosi anawsterau neilltuol yng Ngogledd Iwerddon, lle y byddai unrhyw lw o'r fath yn ail-greu rhai tensiynau hen ac anodd iawn ar adeg o heddwch yn y Dalaith.

**Kirsty Williams:** Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi cael cyfle o'r blaen yn y Siambr i drafod cynlluniau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gau swyddfeydd treth yng Nghymru. Y tro diwethaf y cawsom ddadl o'r fath, addawodd eich Llywodraeth lobio Llywodraeth San Steffan yn galed i gadw'r swyddfeydd hyn. Yn ddiweddar, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi y bydd y ddwy brif ffrwd waith yn swyddfa Merthyr yn cael eu hadleoli yng Nghaerdydd, ac mae hynny'n newydd drwg i swyddfa Merthyr ac i bobl yn fy etholaeth i a oedd wedi gobeithio, o ystyried bod swyddfa Aberhonddu'n cau, y gallent symud i Ferthyr. Ni fydd swyddfa dreth ar ochr ddwyreiniol Cymru rhwng Wrecsam a Chaerdydd, oherwydd cau'r swyddfeydd ym Mhont-y-pŵl a'r bwriad i gau swyddfeydd yng Nghasnewydd. A allwn gael datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog i ddisgrifio'r camau y mae eich Llywodraeth wedi'u cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf ers iddi ddweud y byddai'n lobio

Llywodraeth San Steffan yn galed ar y materion hyn?

I know that the First Minister is attending a conference tomorrow on welfare to work. I am sure that he and you are aware that the Department for Work and Pensions is currently establishing its tendering processes for the four companies that will be operating welfare to work schemes in Wales. There will be an expectation that those companies will have to subcontract work to more specialist providers. I am sure that you would agree that we might want to do this differently in Wales, because of the great value that we place on the voluntary sector and the expertise that it has. Could your Government produce a statement, if not allow a debate, so that we can tease out these issues of how we would want the welfare to work programme to be run here in Wales, which might be very different from the views that the Department for Work and Pensions may have?

Gwn y bydd y Prif Weinidog yn bresennol mewn cynhadledd yfory ar symud o fudd-dal i waith. Yr wyf yn siŵr ei fod ef a chithau'n ymwybodol bod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n sefydlu ei phrosesau tendro ar hyn o bryd ar gyfer y pedwar cwmni a fydd yn gweithredu cynlluniau o fudd-dal i waith yng Nghymru. Bydd disgwyl y bydd y cwmnïau hynny'n gorfod is-gontractio gwaith i ddarparwyr mwy arbenigol. Yr wyf yn siŵr y cytunech y gallem ddymuno gwneud hyn yn wahanol yng Nghymru, oherwydd y gwerth mawr a welwn yn y sector gwirfoddol a'r arbenigedd sydd ganddo. A allai'ch Llywodraeth lunio datganiad, os nad caniatáu dadl, fel y gallwn bwysu a mesur y materion hyn o ran y modd y byddem yn dymuno i'r rhaglen o fudd-dal i waith gael ei gweithredu yma yng Nghymru, a allai fod yn wahanol iawn i farn yr Adran Gwaith a Phensiynau?

3.10 p.m.

**Carwyn Jones:** Neither of those issues are devolved. On HM Revenue and Customs, I will consider what needs to be done to keep the Assembly updated on what the Government has done on that. The DWP is not devolved; I am sure that people will have their views, which they can put to the DWP over time, regarding how it should operate in Wales.

**Carwyn Jones:** Nid yw'r naill na'r llall o'r materion hynny wedi'u datganoli. Ynghylch Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ystyriaf yr hyn y mae angen ei wneud i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ar hynny. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i datganoli; yr wyf yn siŵr y bydd gan bobl farn, y gallant ei chyfleu i'r Adran Gwaith a Phensiynau dros amser, ynghylch sut y dylai weithredu yng Nghymru.

**Chris Franks:** Will you confirm that there will be a debate in the Chamber on the affordable housing legislative competence Order? Would you also agree to hold a debate on the scrutiny of LCOs generally? Recent press coverage about opposition to the affordable housing LCO highlights the possibility of constitutional conflict if LCOs are seen as a party political matter. Would you agree that the opponents of devolution should not be able to obstruct the will of the elected One Wales Government?

**Chris Franks:** A wnewch gadarnhau y bydd dadl yn y Siambr ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar dai fforddiadwy? A fyddech hefyd yn cytuno i gynnal dadl ar graffu ar Orchymynion cymhwysedd deddfwriaethol yn gyffredinol? Mae sylw yn ddiweddar yn y wasg am wrthwynebiad i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar dai fforddiadwy'n dangos y posibilrwydd y bydd gwrthdaro cyfansoddiadol os ystyrir bod Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol yn fater pleidiol wleidyddol. A gytunech na ddylai gwrthwynebwyr datganoli allu mynd yn groes i ewyllys y Llywodraeth etholedig, Llywodraeth Cymru'n Un?

**Carwyn Jones:** The method of dealing with LCOs is laid down in Standing Orders, giving Assembly Members ample room for debate. I am not aware of any great difficulty regarding the affordable housing LCO; it continues to move forward, and issues will be raised from time to time. However, given that we celebrated last week that our first LCO had passed into law, I look forward in a short space of time to the affordable housing LCO joining it.

**The Presiding Officer:** Order. I confirm what the Leader of the House has said. Under Standing Order No. 22, all Orders, or at least all proposed Orders, are fully debated in Plenary, as are draft Orders at a later stage. Therefore, there are at least two Plenary debates, during which Chris Franks may say anything that he wishes—within the rules of order.

**Jonathan Morgan:** The Leader of the House might be aware that today marks the hundredth anniversary of the opening of Whitchurch Hospital, which has been at the centre of mental health services in Cardiff for a significant period of time. I hope that the Government will join me in congratulating all those people who have worked at that hospital in providing services to some of our most vulnerable patients.

On mental health, the Leader of the House will know that the Government has a national service framework, which is one of the key drivers towards reforming mental health services for the next 10 to 20 years. Would it be possible for the Minister for Health and Social Services to make an oral statement to Plenary as to the progress in implementing that national service framework?

**Carwyn Jones:** I will discuss with the Minister for health what she wishes to do in order to provide more information to Members on the national service framework. I join you in recognising the centenary of

**Carwyn Jones:** Mae'r dull o ddelio â Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i osod mewn Rheolau Sefydlog, gan roi digonedd o gyfle i Aelodau'r Cynulliad gynnal dadl. Nid wyf yn ymwybodol o anhawster mawr ynghylch y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar dai fforddiadwy; mae'n dal i symud ymlaen, a chodir materion o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, o gofio inni ddatlu yr wythnos diwethaf fod ein Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol cyntaf wedi dod yn rhan o'r gyfraith, edrychaf ymlaen at weld y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar dai fforddiadwy'n ei ddilyn cyn hir.

**Y Llywydd:** Trefn. Cadarnhaf yr hyn y mae Arweinydd y Tŷ wedi'i ddweud. O dan Reol Sefydlog Rhif 22, ceir dadl lawn ar yr holl Orchmynion, neu o leiaf ar yr holl Orchmynion arfaethedig, yn y Cyfarfod Llawn, yn yr un modd â Gorchmynion drafft yn ddiweddarach. Felly, mae dwy ddadl o leiaf yn y Cyfarfod Llawn pan gaiff Chris Franks ddweud unrhyw beth y mae'n ei ddymuno—o fewn rheolau trefn.

**Jonathan Morgan:** Efallai fod Arweinydd y Tŷ yn ymwybodol bod heddiw'n ganmlwyddiant agor Ysbyty'r Eglwys Newydd, sydd wedi bod yn ganolog ym maes gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd ers amser maith. Yr wyf yn gobeithio y gwnaiff y Llywodraeth ymuno â mi i longyfarch pawb sydd wedi gweithio yn yr ysbyty hwnnw gan ddarparu gwasanaethau i rai o'r cleifion sy'n fwyaf agored i niwed.

Ynghylch iechyd meddwl, bydd Arweinydd y Tŷ yn gwybod bod gan y Llywodraeth fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, sy'n un o'r prif ddulliau o ddiwygio gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y 10 i 20 mlynedd nesaf. A fyddai'n bosibl i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ynghylch y cynnydd o ran gweithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol?

**Carwyn Jones:** Trafodaf gyda'r Gweinidog dros iechyd yr hyn y mae'n dymuno'i wneud er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r Aelodau am y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol. Ymunaf â chi i gydnabod canmlwyddiant

Whitchurch Hospital, and in congratulating all those who have worked there. Back in 1908, they were not that long removed from a time when people used to take trains to lunatic asylums, as they were called, to watch the inmates. There are posters in the National Museum Wales that illustrate the inhumanity of the system that existed in Victorian times. We have now moved to a more progressive and more humane mental health system, which we should all celebrate. However, the fact that a hospital has served a community for so long is something that is well worth recording and celebrating.

**Andrew R.T. Davies:** Could we have a statement from the Minister for Rural Affairs on how she proposes to take forward the promotion of Welsh produce, given that your colleague in London has announced that he will be ceasing funding to Food from Britain? While this institution has offered great service to the food industry, there have been synergies across the sector in devolved Government coming together under the Food from Britain banner to promote Welsh food across the world. Your colleague in London, Hilary Benn, has said that, because of other budgetary commitments, he is now unable to fund Food from Britain. Therefore, there will be pressure on the Assembly Government's budget, and in particular on Welsh producers in being able to find a new avenue to promote their produce across the world. I hope that the Government will come forward with a statement to address this issue, which is critical to a vital sector of the Welsh economy.

**Carwyn Jones:** There is no question of the Government minimising or reducing the support available to Welsh food producers as they seek to promote themselves across the world. The Welsh food sector has been a remarkable success story over the past 10 to 15 years, as evidenced by the fact that when the food hall opened at the Royal Welsh Show, some 15 years ago, it was not easy to fill, but now it is far too small. That shows how successful we have been in Wales in promoting the food sector and promoting the development and sustainability of so many different food producers and processors in Wales. It is a tribute to all of those involved in the food sector that so many companies,

Ysbyty'r Eglwys Newydd, ac i longyfarch pawb sydd wedi gweithio yno. Yn 1908, nid oedd fawr o amser ers pan arferai pobl fynd mewn trenau i wallgofdai, fel y'u gelwid, i wyluo'r cleifion. Mae posteri yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru sy'n dangos creulondeb y system a fodolai yn oes Fictoria. Yr ydym bellach wedi mabwysiadu system iechyd meddwl sy'n fwy blaengar ac yn fwy caredig, rhywbeth y dylem oll ei ddathlu. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod ysbyty wedi gwasanaethu cymuned mor hir yn rhywbeth y mae'n werth ei gofnodi a'i ddathlu.

**Andrew R.T. Davies:** A allem gael datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ynghylch sut y mae'n bwriadu parhau i hyrwyddo cynnyrch o Gymru, gan fod eich cyd-aelod yn Llundain wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi'r gorau i ariannu Bwyd o Brydain. Er bod y sefydliad hwn wedi cynnig gwasanaeth gwych i'r diwydiant bwyd, mae synergeddau ar draws y sector mewn Llywodraeth ddatganoledig wedi dod at ei gilydd dan faner Bwyd o Brydain i hyrwyddo bwyd o Gymru ledled y byd. Mae eich cyd-aelod yn Llundain, Hilary Benn, wedi dweud nad yw bellach yn gallu ariannu Bwyd o Brydain oherwydd ymrwymadau cyllidebol eraill. Felly, bydd pwysau ar gyllideb Llywodraeth y Cynulliad, ac yn benodol ar gynhyrchwyr yng Nghymru o ran gallu dod o hyd i ffordd newydd i hybu eu cynnyrch ledled y byd. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno datganiad i ymateb i'r mater hwn, sy'n hollbwysig i sector hanfodol yn economi Cymru.

**Carwyn Jones:** Yn sicr, ni fydd y Llywodraeth yn darparu llai o gymorth i gynhyrchwyr bwyd o Gymru wrth iddynt geisio eu hyrwyddo eu hunain drwy'r byd. Mae'r sector bwyd yng Nghymru wedi bod yn hynod lwyddiannus dros y 10 i'r 15 mlynedd diwethaf, fel y gwelwyd pan agorodd y neuadd fwyd yn y Sioe Frenhinol, ryw 15 mlynedd yn ôl. Bryd hynny, nid oedd yn rhwydd ei llenwi, ond erbyn hyn, mae'n rhy fach o lawer. Mae hynny'n dangos mor llwyddiannus yr ydym wedi bod yng Nghymru o ran hyrwyddo'r sector bwyd ac o ran hybu datblygu cynifer o wahanol gynhyrchwyr a phroseswyr bwyd gwahanol a'u gwneud yn gynaliadwy. Mae'n deyrnged

having been set up, are still in existence and are still doing well. We all know how important the food sector is in providing employment to so many people in Wales, particularly in rural Wales, and the fact that the Assembly Government has four food centres across Wales that help to develop new products and provide expertise to those people who want to produce new products, is a sign of the commitment that the Government has to the food sector in Wales, not only now, but also for the future.

**Mark Isherwood:** Yesterday I attended a conference in Llandudno with the Church in Wales, where the community use of church buildings in Wales was discussed. I understand that it has also spoken to you directly in the past. Can we have a Government statement to develop the Government's perception of the role that it can play with churches in Wales to maximise this wonderful opportunity?

**Carwyn Jones:** The Government would be more than happy to engage with the Church in Wales. You are right to say that I have met with the bishops and the archbishop in what was a wide-ranging meeting in which we discussed a variety of topics. If the Church in Wales wishes to discuss proposals with the Government, I am sure that those proposals will be considered seriously.

**Nick Ramsay:** Can we have a statement from the Deputy First Minister regarding the knowledge exploitation fund, which, as the Leader of the House may be aware, is in the process of being wound up. I have been contacted by many constituents who are looking for alternatives to this fund. There also seems to be a problem in that some of my constituents applied for money from this fund before the deadline but were told that, due to demand, it was not available. There are issues here regarding funding and the way that some of my constituents have been dealt with on this matter. It would be helpful if this was cleared up by the Minister.

**Carwyn Jones:** You can raise issues raised by your constituents with the Deputy First Minister rather than with me on the floor of

i bawb o'r rhai sy'n ymwneud â'r sector bwyd fod cynifer o gwmnïau, ar ôl eu sefydlu, yn dal i fodoli ac yn dal i lwyddo. Gwyddom i gyd mor bwysig yw'r sector bwyd o ran darparu swyddi ar gyfer cynifer o bobl yng Nghymru, yn enwedig yn y Gymru wledig, ac mae'r ffaith bod gan Lywodraeth y Cynulliad bedair canolfan fwyd ledled Cymru sy'n cynorthwyo i ddatblygu cynnyrch newydd ac i gynnig arbenigedd i'r bobl hyn sydd am gynhyrchu cynnyrch newydd, yn arwydd o ymrwymiad y Llywodraeth i'r sector bwyd yng Nghymru, nid yn unig yn awr, ond hefyd i'r dyfodol.

**Mark Isherwood:** Ddoe, bûm mewn cynhadledd yn Llandudno gyda'r Eglwys yng Nghymru, lle y trafodwyd y defnydd cymunedol a wneir ar adeiladau eglwysig yng Nghymru. Deallaf ei bod wedi siarad â chi'n uniongyrchol yn y gorffennol hefyd. A gawn ddatganiad gan y Llywodraeth er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y Llywodraeth o'r rôl y gall ei chwarae gyda'r eglwysi yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle rhagorol hwn?

**Carwyn Jones:** Byddai'r Llywodraeth yn falch iawn o feithrin cysylltiad â'r Eglwys yng Nghymru. Yr ydych yn llygad eich lle fy mod wedi cyfarfod â'r esgobion ac â'r archesgob mewn cyfarfod eang ei gwmpas lle y trafodwyd amrywiaeth o bynciau. Os yw'r Eglwys yng Nghymru am drafod cynigion gyda'r Llywodraeth, yr wyf yn siŵr y caiff y cynigion hynny eu hystyried o ddirifrif.

**Nick Ramsay:** A gawn ddatganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â'r gronfa datblygu gwybodaeth, sydd wrthi'n cael ei dirwyn i ben, fel y gŵyr Arweinydd y Tŷ, efallai. Mae llawer o etholwyr wedi cysylltu â mi gan ddweud eu bod yn chwilio am rywbeth yn lle'r gronfa hon. Mae problem hefyd, i bob golwg, o ran bod rhai o'm hetholwyr wedi gwneud cais am arian gan y gronfa hon cyn y dyddiad cau ond iddynt gael ar ddeall nad oedd ar gael, oherwydd y galw. Mae problemau yma o ran ariannu ac o ran y ffordd yr ymdriniwyd â rhai o'm hetholwyr yn y cyswllt hwn. Byddai'n gymorth petai'r Gweinidog yn datrys y mater.

**Carwyn Jones:** Gallwch godi materion a godwyd gan eich etholwyr gyda'r Dirprwy Brif Weinidog, yn hytrach na chyda mi ar

the Assembly.

It is important that there are new programmes in place and, as we know, around £50 million has been invested into two Assembly Government knowledge exploitation and knowledge transfer projects, and at least £60 million has gone into the Skillbuild project. We anticipate that more project approvals will be forthcoming soon. We are also looking to develop the JEREMIE and JESSICA initiatives that have come from the European Union. Therefore, there are many initiatives in place to help businesses in Wales, but if there are problems with individual applications, I am sure that they could be looked at by the appropriate Minister.

lawr y Cynulliad.

Mae'n bwysig bod rhaglenni newydd ar gael, ac, fel y gwyddom, mae tua £50 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn dau brosiect datblygu gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, ac mae o leiaf £60 miliwn wedi mynd i'r prosiect Adeiladu Sgiliau. Rhagwelwn y bydd mwy o brosiectau'n cael eu cymeradwyo cyn bo hir. Yr ydym hefyd yn gobeithio datblygu cynlluniau JEREMIE a JESSICA sydd wedi dod o'r Undeb Ewropeaidd. Felly, mae llawer o gynlluniau ar gael i gynorthwyo busnesau yng Nghymru, ond os oes problemau gyda cheisiadau unigol, yr wyf yn siŵr y gallai'r Gweinidog priodol edrych arnynt.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.18 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.18 p.m.*

## **Llyfrgelloedd Libraries**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham and amendment 2 in the name of Kirsty Williams. If amendment 1 is carried, amendment 2 will be deselected.

**Y Dirprwy Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham a gwelliant 2 yn enw Kirsty Williams. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Cynigiaf fod

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*the National Assembly for Wales:*

1. yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae llyfrgelloedd yn ei wneud o ran gwella ansawdd bywydau pobl;

1. recognises the valuable contribution made by libraries in improving the quality of people's lives;

2. yn croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn moderneiddio gwasanaethau llyfrgell a rhoi mynediad i'r adnoddau addysgol, diwylliannol a hamdden a geir mewn llyfrgelloedd drwy weithio mewn partneriaeth. (NDM3905)

2. welcomes the Welsh Assembly Government's investment in modernising library services and opening up access to the educational, cultural and recreational resources of libraries through partnership working. (NDM3905)

Yr wyf yn falch iawn o'r cyfle i drafod y cyfraniad y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i gymunedau ledled Cymru ac i rannu gyda chi fy mwriadau ar gyfer datblygu llyfrgelloedd dros y tair blynedd nesaf.

I am pleased to have the opportunity to discuss the contribution that libraries make to communities across Wales and to share my intentions for developing libraries over the next three years.



Mae gan lyfrgelloedd y potensial a'r gallu i gyfrannu at fywydau pobl drwy gydol eu hoes, a'u cyfoethogi. Er enghraifft, mae'r cynllun Dechrau Da yn annog rhieni i ddarllen gyda'u plant. Caiff y cynllun hwn ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, drwy Sgiliau Sylfaenol Cymru. Mae gweithwyr ieched yn dosbarthu bagiau, sy'n cynnwys llyfrau darllen dwyieithog yn y llyfrgelloedd. Mae hynny'n ganolog i'r cyfraniad tuag at y flwyddyn ddarllen genedlaethol. Mae gwasanaethau llyfrgell ar gyfer ysgolion nid yn unig yn cynnig adnoddau gwerthfawr ar gyfer cynorthwyo dysgu, ond hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion i ddysgu sgiliau casglu a thrin gwybodaeth drwy ddefnyddio llyfrau a'r we.

3.20 p.m.

Mae llyfrgelloedd ein colegau yn parhau gyda'r gwaith hwn ac yn cyfrannu tuag at waith ymchwil blaengar. Yn goron ar y cyfan mae'r gwaith ymchwil mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ei wneud. Mae llyfrgelloedd yn y gweithle hefyd yn bwysig. Mae'n siŵr bod pob Aelod wedi dibynnu ar wasanaethau llyfrgell y Cynulliad ar ryw adeg.

Mae'r cydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r gwahanol lyfrgelloedd sy'n bodoli yng Nghymru yn sicrhau bod yr ymrwymiadau sydd i'w cael yn y ddogfen 'Cymru'n Un' o ran llyfrgelloedd am oes yn cael eu gwireddu.

Mae 'Cymru'n Un' yn datgan y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf sylfaenol er mwyn sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn cael eu trawsnewid o ran eu hamgylcheddau ac i sefydlu rhwydwaith genedlaethol. Eisoes yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae 15 o lyfrgelloedd yng Nghymru wedi eu moderneiddio ac, ar ymweliad diweddar â llyfrgell Cwmbrân, yr oeddwn yn gallu cyhoeddi 16 o brosiectau newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r prosiect cyfalaf hwn dros dair blynedd yn cynnwys buddsoddiad o £10 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae canlyniadau uniongyrchol i hynny. Er enghraifft, yn llyfrgell Gorseinon, gwelwyd cynnydd o 9 y

Libraries have the potential and ability to contribute to, and enrich, people's lives on a lifelong basis. For example, the Bookstart scheme encourages parents to read with their children. The scheme is funded by the Assembly Government, through Basic Skills Cymru. Health workers distribute bags containing bilingual reading books in libraries. That is central to the contribution to the national reading year. Library services for schools not only offer valuable resources for teaching aids but also provide opportunities for pupils to learn how to find and use information, using books and the internet.

Libraries in our colleges continue with this work and contribute to innovative research work. Crowning it all is the research work that the National Library of Wales does. Libraries in the workplace are also important. I am sure that every Member has depended on the Assembly's library services at some point.

The collaboration between the Assembly Government and the various libraries that exist in Wales ensures that the commitments in the 'One Wales' document as regards lifelong libraries are realised.

'One Wales' states that the Welsh Assembly Government will work with local authorities to establish a programme of baseline capital investment to ensure that our libraries are transformed in terms of their environment and to establish a national network. Already in the current financial year, 15 libraries in Wales have been modernised and, on a recent visit to the Cwmbran library, I was able to announce 16 new projects for the next financial year. This capital project over three years includes investment of £10 million by the Welsh Assembly Government. That brings direct results. For example, in the Gorseinon library, the numbers of people visiting the library increased by 9 per cent and there was a 19 per cent increase in the number of items borrowed from the library.

cant yn y niferoedd o bobl a oedd yn ymweld â'r llyfrgell a 19 y cant o gynnydd yn y nifer o eitemau a fenthycwyd o'r llyfrgell. Yn llyfrgell Caerfyrddin, gwelwyd 20 y cant o gynnydd yn yr ymwelwyr wedi iddi gael ei hail agor.

Talaf deyrnged uchel i lywodraeth leol ledled Cymru am ei gyfraniad o ran cynnal a datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol, gan fod y llyfrgelloedd hyn yn cynnig gwasanaeth eithriadol o bwysig, gyda dros 14 miliwn o bobl yn ymweld â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn a 5 miliwn o bobl eraill yn manteisio ar eu gwasanaethau ar-lein.

Mae llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaethau eithriadol o bwysig, ond yr adnodd mwyaf pwysig mewn unrhyw lyfrgell yw'r staff sy'n gweithio o fewn y llyfrgell. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan staff llyfrgelloedd yr awyrgylch gwaith priodol a bod ystod eang o wasanaethau i'r bobl sy'n ymweld â llyfrgelloedd a bod mynediad rhwydd i'r gwasanaethau hynny.

Mae gwelliant 1 yn sôn am y buddsoddiad yn yr adnoddau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd ac am y pwysau ariannol sydd ar lywodraeth leol. Gallaf eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â llywodraeth leol yng Nghymru i sicrhau y bydd y gwasanaethau a gynigir a'r dechnoleg sydd ar gael mewn llyfrgelloedd ledled Cymru yn cael eu datblygu. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn—y buddsoddiad mwyaf a wnaed gan unrhyw Lywodraeth yng Nghymru mewn llyfrgelloedd—yn sicrhau hynny.

Mae gwelliant 2 yn cydnabod y buddsoddiad gan awdurdodau lleol, ac yr wyf fi hefyd wedi cydnabod hynny y prynhawn yma. Fodd bynnag, yr wyf yn sôn yn benodol am y cyfraniad y bydd Llywodraeth y Cynulliad am ei wneud dros y tair blynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad hwnnw yn galluogi llyfrgelloedd i gynnig gwasanaeth modern a bywiog, sydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Ar sail hynny, byddwn yn gwrthwynebu'r ddau welliant.

In Carmarthen library, the number of visitors increased by 20 per cent after it was reopened.

I pay a great tribute to local government across Wales for its contribution to maintaining and developing library services. It is important that the Welsh Assembly Government collaborates with local authorities, as these libraries offer an exceptionally important service, with over 14 million people visiting public libraries in Wales each year and 5 million others taking advantage of their online services.

Libraries offer an exceptionally important service, but the most important resource in any library is the staff working there. The Welsh Assembly Government has committed to ensuring that library staff have the appropriate working environment and that people visiting libraries are offered a wide range of services and that there is easy access to those services.

Amendment 1 talks about the investment in the resources available in libraries and about the financial pressure on local government. I can assure you that the Welsh Assembly Government is working with local government in Wales to ensure that the services offered and the technology available in libraries throughout Wales will be developed. This substantial investment—the biggest investment made by any Government in Wales in libraries—ensures that.

Amendment 2 recognises local authority investment, and I have also recognised that this afternoon. However, I am talking specifically about the contribution that the Assembly Government is making over the next three years. That investment will enable libraries to offer a modern and lively service that makes a difference to people's lives. On that basis, we will object to both amendments.

**Paul Davies:** Cynigiau welliant 1 yn enw William Graham. Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

*yn mynegi pryder y bydd toriadau termau real mewn cyllid llywodraeth leol yn rhoi llyfrgelloedd mewn perygl ac yn rhwystro datblygiadau technolegol newydd rhag cael eu mabwysiadu, gydag effaith andwyol ar gymunedau.*

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl, ac mae'n bleser cynnig y gwelliant ar ran y Ceidwadwyr Cymreig.

Bu llyfrgelloedd yn ganolog yn ein trefi a'n pentrefi ers blynyddoedd maith, ac efallai nad ydym bob amser yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'n cymunedau. Maent yn cynnig ystod eang o adnoddau i bawb yn ein hardaloedd lleol, ac mae'n hanfodol bod y gwasanaeth a ddarperir yn parhau.

Mae'n bwysig bod y gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn chwarae rôl enfawr yng Nghymru. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae llyfrgelloedd yn gyffredinol yn gwella ansawdd bywydau pobl. Maent yn cynnig mynediad i ddefnydd addysgiadol, gwasanaethau technoleg gwybodaeth a'r rhyngwyd, a gwybodaeth ar bynciau eang. Maent hefyd yn cynnig adnoddau addysgiadol sydd yn gwella ein lefel sgiliau, a gellir cynnal gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ynddynt.

Fodd bynnag, mae'r toriadau gwirioneddol yng nghyllid llywodraethau lleol, a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn bygwth llyfrgelloedd a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig ac mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa anodd. Mae'r toriadau yn fygythiad i ddatblygiadau technoleg yn ein llyfrgelloedd, sydd yn poeni llawer o bobl yn ein cymunedau sydd yn dibynnu'n fawr ar y gwasanaethau hyn. Dylem fod yn gweithio tuag at ehangu oriau agor llyfrgelloedd er mwyn iddynt fod yn fwy cyfleus i aelodau o'r cyhoedd. Sut y gallwn ddisgwyl i lyfrgelloedd gael eu defnyddio i'w potensial llawn os nad ydynt ar agor y tu allan i oriau

**Paul Davies:** I propose amendment 1 in the name of William Graham. Delete point 2 and replace with:

*expresses concern that real term cuts in local government finance will put libraries at risk and inhibit new technological advances from being adopted, with a detrimental effect on communities.*

I am grateful for the opportunity to take part in the debate, and it is a pleasure to propose the amendment on behalf of the Welsh Conservatives.

Libraries have been central to our towns and villages for many years, and we may not always appreciate the contribution that they make to our communities. They offer a wide range of resources to everyone in our local areas, and it is crucial that the service provided continues.

It is important that these services are developed. The National Library of Wales plays a huge role in Wales. As the Minister said, libraries generally improve the quality of people's lives. They offer access to educational material, IT services and the internet, and information on wide-ranging subjects. They also offer educational resources that improve our skills level, and social and leisure activities can be held in them.

However, the real cuts in local government budgets, set by the Assembly Government, threaten libraries and the services that they offer and libraries have been put in a difficult situation. The cuts are a threat to technological developments in our libraries, which concerns many in our communities who greatly depend on these services. We should work towards extending libraries' opening hours so that they are more convenient for members of the public. How can we expect libraries to be used to their full potential if they are not open outside the normal hours? This means investment.

normal? Mae hyn yn golygu buddsoddiad.

Mae'n edrych yn debygol y bydd llyfrgelloedd yn cael eu gorfodi i gwtogi ar eu gwasanaethau yn hytrach na'u datblygu oherwydd nad yw llywodraeth leol yn gallu buddsoddi ynddynt yn sgîl y setliad ariannol gwael. Fel arfer, ein cymunedau difreintiedig a fydd yn dioddef fwyaf, a bydd torri gwasanaethau megis mynediad i'r rhyngwrwd am ddim yn effeithio ar gymunedau difreintiedig. Bydd hyn yn lleihau cyfleoedd i adfywio yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Fel y gwyddom, mae llawer o gyflogwyr yn hysbysebu swyddi drwy e-bost neu ar eu gwefannau, felly i'r rhai sy'n methu fforddio mynediad i'r rhyngwrwd adref, mae'r gallu i ddefnyddio'r rhyngwrwd mewn llyfrgelloedd yn hollbwysig. Mae'n amlwg y bydd lleihau gwasanaethau fel hyn mewn llyfrgelloedd yn rhwystro pobl sydd yn chwilio am waith.

Bydd ardaloedd gwledig hefyd yn dioddef o achos lleihau gwasanaethau mewn llyfrgelloedd. Mewn dadl yr wythnos diwethaf, yr oedd yn amlwg bod nifer o ardaloedd gwledig yn methu â derbyn gwasanaeth band eang. Felly, ni allwn fforddio gadael i wasanaethau cyhoeddus fel hyn ddiflannu yn ein llyfrgelloedd.

Ni ddylem anghofio bod llyfrgelloedd yn cael eu defnyddio fel lleoliadau cwrdd, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes cyfleusterau cymunedol ar gael. Dylem sicrhau nad yw unrhyw fuddsoddiad mewn ehangu darpariaeth technoleg gwybodaeth neu wasanaethau eraill mewn llyfrgelloedd yn effeithio ar gyflogi llyfrgellwyr, sy'n cynnig profiad enfawr. Dylent barhau i weithredu ochr yn ochr â datblygiadau newydd. Ni ddylem weld swyddi fel hyn yn diflannu er mwyn ariannu technoleg a datblygiadau newydd eraill.

Yr wyf yn derbyn fod yn rhaid gwneud penderfyniadau ariannol anodd ambell waith, ond mae cyfleusterau hanfodol fel llyfrgelloedd yn wasanaeth rhy bwysig i'w gollu yn ein cymunedau. O dan yr amgylchiadau, byddwn yn annog y Gweinidog i sicrhau bod y Llywodraeth yn buddsoddi'n ddigonol yn ein llyfrgelloedd fel bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu

It seems likely that, rather than develop, libraries will be forced to cut back on their services, because local government is unable to invest in them as a result of their poor financial settlement. As usual, it will be our deprived communities that suffer the most, and cutting back on services such as free access to the internet will impact upon deprived communities. This will restrict opportunities for social and economic regeneration.

As we know, many employers advertise job opportunities by e-mail or online, so the ability to use the internet in libraries is crucial for those who are unable to afford internet access at home. It is obvious that cutting back on such services in libraries will act as a barrier for people looking for work.

Rural areas will also suffer as a result of restricting services in libraries. In a debate last week, it became clear that broadband services were unavailable in a number of rural areas. Therefore, we cannot afford to allow such public services to disappear from our libraries.

We should not forget that libraries are used as meeting places, especially in areas where there are no community facilities. We should ensure that investment in the expansion of information technology provision or other services in libraries does not have an effect on the employment of librarians, who offer vast experience. They should continue to work alongside new developments. We should not see such posts disappear in order to fund technology and other new developments.

I accept that difficult financial decisions sometimes have to be made, but essential services such as libraries offer too important a service to be lost from our communities. Given the circumstances, I would urge the Minister to ensure that the Government invests adequately in our libraries so that the services that they provide continue. Losing such services would be disastrous for

yn parhau. Byddai colli gwasanaethau fel hyn yn drychinebus i gymunedau drwy gydol Cymru.

communities across Wales.

3.30 p.m.

**Peter Black:** I propose amendment 2 in the name of Kirsty Williams. Delete the words 'the Welsh Assembly Government's' and replace with 'local authorities'.

**Peter Black:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Kirsty Williams. Dileu'r geiriau 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' a rhoi yn eu lle 'awdurdodau lleol'.

I welcome the fact that we have finally got around to having this debate on libraries, although the issue seems to be the perpetual filler, when the Government has run out of other business to discuss. Our amendment highlights the fact that the bulk of the work on access to libraries and investing in books, buildings and other facilities is done by local authorities, rather than by the Welsh Assembly Government. That is not to take credit away from the Government for the money that it has provided and the grants that it has made available, but local authorities have managed to invest in and improve libraries across Wales despite the continuing poor financial settlement from the Government. We hope that Assembly Members recognise this and will vote in support of our amendment.

Yr wyf yn falch ein bod yn trafod llyfrgelloedd o'r diwedd, er ei bod yn ymddangos mai rhyw destun llanw yw'r mater o hyd, pan nad oes gan y Llywodraeth faterion eraill ar ôl i'w trafod. Mae ein gwelliant yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r gwaith ar fynediad i lyfrgelloedd a buddsoddi mewn llyfrau, adeiladau a chyfleusterau eraill yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol, yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid ceisio dwyn y clod oddi ar y Llywodraeth am yr arian y mae wedi ei ddarparu a'r grantiau sydd ar gael yr wyf, ond mae'r awdurdodau lleol wedi llwyddo i fuddsoddi mewn llyfrgelloedd a'u gwella ledled Cymru er gwaethaf y setliad ariannol gwael y maent yn dal i'w gael gan y Llywodraeth. Gobeithiwn y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cydnabod hyn ac y byddant yn pleidleisio o blaid ein gwelliant.

Although we appreciate that the Government has made significant investments in libraries over the past few years, and, in partnership, has helped local authorities to make many of the drastic improvements that were needed, the burden has been on local authorities, and the bulk of the investment has come from their resources. We need to recognise their work and give them credit for that.

Er ein bod yn sylweddoli bod y Llywodraeth wedi buddsoddi arian sylweddol mewn llyfrgelloedd dros y blynyddoedd diwethaf, a'i bod, mewn partneriaeth, wedi helpu awdurdodau lleol i wneud llawer o'r gwelliannau mawr yr oedd eu hangen, yr awdurdodau lleol sydd wedi ysgwyddo'r baich, ac mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad wedi dod o'u hadnoddau hwy. Mae angen inni gydnabod eu gwaith a rhoi clod iddynt am hynny.

I wish to highlight the work being done by the four councils that are led by the Welsh Liberal Democrats. Sorry, I am predictable, am I not? Those councils have provided substantial investment over the past four years to reverse the decay seen under previous administrations.

Hoffwn dynnu sylw at waith y pedwar cyngor a arweinir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'n ddrwg gennyf, mae'n hawdd rhagfynegi'r hyn yr wyf am ei ddweud, onid ydyw? Mae'r cynghorau hynny wedi rhoi arian sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf i ddadwneud y dirywiad a welwyd dan weinyddiaethau blaenorol.

In Cardiff, Labour had plans to close two branch libraries in Cathays and Roath. The

Yng Nghaerdydd, yr oedd yn fwriad gan Lafur gau dwy lyfrgell cangen yn Cathays a'r

Welsh Liberal Democrats reversed that decision and invested substantially in both libraries, to the tune of more than £900,000. We also extended the opening hours of Splott library, and a brand-new central library is being built currently, which is due to open in 2010. We made a significant investment in Penylan, Llanrumney, Grangetown and Radyr libraries, and we investigated the possibility of using radio frequency identification for books, as a better way of controlling stock and allowing lenders to return books to any library.

In Bridgend, we have invested more than £80,000 per year in the book fund to reverse the cuts that took place under the previous administration there.

In Swansea, at a cost of nearly £12 million, we have opened a brand-new central library in the civic centre, which will have extended opening times and 60 computer terminals, with access to DVDs, CDs, music scores, and so on. During the first three days of the library's opening, nearly 5,500 people used it, more than 3,000 books were loaned, and nearly 400 new members joined. These figures contrast massively with those for the old library.

In Wrexham—and I was always planning to bring up Wrexham—there has been a massive increase in the book fund, loans are up by 3.4 per cent, visitor numbers are up by 19 per cent, with 87,000 more visits, four libraries have been completely refurbished and have new information technology suites, and there are plans to completely refurbish two more in the new year. That means that half the libraries in the county will have been completely refitted within three years. That is the sort of work that is going on in those authorities, although I concur that similar work is taking place in other counties.

**Lorraine Barrett:** In the nicest possible

Rhath. Cafodd y penderfyniad hwnnw ei wrthdroi gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, a fuddsoddodd arian sylweddol yn y ddwy lyfrgell, hyd at fwy na £900,000. Yn ogystal ehangwyd oriau agor llyfrgell y Sblot gennym, ac mae llyfrgell ganolog newydd sbon wrthi'n cael ei chodi ar hyn o bryd, a fydd yn agor yn 2010. Buddsoddasom arian sylweddol yn llyfrgelloedd Pen-y-lan, Llanrhymni, Grangetown a Radyr, ac archwiliasom y posibilrwydd o ran defnyddio dull adnabod ar sail amledd radio ar gyfer llyfrau, er mwyn rheoli'r stoc yn well a chaniatáu i'r benthycwyr ddychwelyd y llyfrau i unrhyw lyfrgell.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr yr ydym wedi buddsoddi mwy na £80,000 y flwyddyn yn y gronfa lyfrau i wrthdroi'r toriadau a wnaethpwyd dan y weinyddiaeth flaenorol yno.

Yn Abertawe, yr ydym wedi agor llyfrgell ganolog newydd sbon yn y ganolfan sifig, lle y bydd oriau agor estynedig a 60 o derfynellau cyfrifiadurol, a gellir defnyddio DVDs, CDs, sgorau cerddoriaeth, ac yn y blaen, ac mae hynny wedi costio £12 miliwn bron iawn. Yn ystod y tri diwrnod cyntaf ar ôl i'r llyfrgell agor, fe'i defnyddiwyd gan 5,500 o bobl bron, cafodd mwy na 3,000 o lyfrau eu benthycu, ac ymunodd bron 400 o aelodau newydd. Mae'r ffigurau hyn yn gwrthyferbynnu'n llwyr â rhai'r hen lyfrgell.

Yn Wrecsam—ac yr oedd wastad yn fwriad gennyf grybwyll Wrecsam—bu cynnydd enfawr yn y gronfa lyfrau, mae benthyciadau wedi cynyddu 3.4 y cant, mae niferoedd yr ymwelwyr wedi cynyddu 19 y cant, bu 87,000 yn fwy o ymweliadau, mae pedair llyfrgell wedi'u hadnewyddu'n llwyr ac mae ganddynt ystafelloedd technoleg gwybodaeth newydd, ac mae cynlluniau ar y gweill i adnewyddu dwy arall yn llwyr yn y flwyddyn newydd. Mae hynny'n golygu y bydd hanner llyfrgelloedd y sir wedi eu hadnewyddu'n gyfan gwbl o fewn tair blynedd. Dyna'r math o waith sy'n mynd rhagddo yn yr awdurdodau hynny, er fy mod yn cytuno bod gwaith tebyg yn mynd rhagddo mewn siroedd eraill.

**Lorraine Barrett:** A gaf awgrymu'n garedig

way, may I suggest that you are being a little disingenuous? The same is true of your leaflets, in which you state that the Liberal Democrats have filled in every pothole that has ever existed. You mentioned a list of libraries in my constituency, but I was involved in those plans for years under the previous Labour administration. Granted, you have carried many of them through, but the plans and the budgets were there long before the Liberal Democrats appeared on the horizon.

**Peter Black:** I would not dream of detracting from the vital work that Lorraine Barrett has done as the local Member for Cardiff South and Penarth, but I will point out that it took a Welsh Liberal Democrat council to deliver those plans.

Local authorities will have enough of a challenge in meeting other Welsh Assembly Government objectives in the coming years without additional pressures being placed on them. If the Government intends to make new commitments that will place additional responsibilities on local authorities in respect of libraries, they must be delivered through partnership working, and we need to ensure that the Government is providing the money to deliver those commitments.

The library sector is facing a huge challenge to upgrade buildings, to provide new media—including web access, of course—and to maintain the more traditional purpose of libraries, namely the provision of books. Many local authorities already have robust strategies to deal with these challenges, and Welsh Liberal Democrat-led authorities most certainly do. Some authorities report that it is difficult to obtain library grants from the Government when the council already has its own strategy in place. There is a danger that grants of this sort will be used to reward failing local authorities that have not taken the initiative themselves. In his response to the debate, I ask the Minister to confirm that money is made available to those authorities that are prepared to put some of their own cash up as well, and not just to those that have neglected this area of work in previous years.

eich bod ychydig bach yn ffuantus? Mae'r un peth yn wir am eich taflenni, lle y dywedwch fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi llenwi pob twll a fu erioed mewn ffyrdd. Crybwyllasoch restr o lyfrgelloedd yn fy etholaeth, ond bûm yn ymwneud â'r cynlluniau hynny am flynyddoedd dan y weinyddiaeth Lafur flaenorol. Rhaid cyfaddef eich bod wedi cwblhau llawer ohonynt efallai, ond yr oedd y cynlluniau a'r cyllidebau'n bod flynyddoedd cyn i'r Democratiaid Rhyddfrydol ddod i'r golwg.

**Peter Black:** Ni freuddwydiwn am fychanu'r gwaith hanfodol y mae Lorraine Barrett wedi'i wneud fel yr Aelod lleol dros Dde Caerdydd a Phenarth, ond pwysleisïaf mai cyngor dan ofal Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a gyflawnodd y cynlluniau hynny.

Bydd yn ddigon o her i'r awdurdodau lleol gyflawni amcanion eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y blynyddoedd nesaf heb sôn am y pwysau ychwanegol a roddir arnynt. Os yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud ymrwymïadau newydd a fydd yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar yr awdurdodau lleol ynglŷn â llyfrgelloedd, bydd yn rhaid gweithio mewn partneriaeth i'w cyflawni, ac mae angen inni sicrhau bod y Llywodraeth yn darparu'r arian i gyflawni'r ymrwymïadau hynny.

Mae sector y llyfrgelloedd yn wynebu her enfawr o ran gwella adeiladau, darparu cyfryngau newydd—gan gynnwys mynediad at y we, wrth reswm—a chynnal diben mwy traddodiadol y llyfrgelloedd, sef darparu llyfrau. Mae gan lawer o awdurdodau lleol strategaethau cadarn i ddelio â'r heriau hyn eisoes, ac mae hynny'n sicr yn wir am yr awdurdodau hynny a arweinir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Dywed rhai awdurdodau ei bod yn anodd cael grantiau llyfrgell gan y Llywodraeth os oes gan y cyngor strategaeth ar waith yn barod. Mae perygl y caiff grantiau o'r fath eu defnyddio i wobrwyo awdurdodau lleol sy'n methu nad ydynt wedi mynd ati i wneud dim eu hunain. Yn ei ateb i'r ddadl, gofynnaf i'r Gweinidog gadarnhau y bydd arian ar gael i'r awdurdodau hynny sy'n fodlon cyfrannu ychydig o'u harian eu hunain hefyd, ac nid i'r rhai sydd wedi esgeuluso'r maes hwn yn y gorffennol yn unig.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You are way over time, Peter.

**Janice Gregory:** I want to bring us back to reality, rather than allow the fanciful ramblings of the Liberal Democrats, especially concerning my constituency, to continue.

Many in my constituency owe a huge debt of gratitude to the public library system. For many of my older constituents in particular, the library represented their further and higher education, their window on a wider world. Libraries have moved forward into the IT era, providing access to computers and the internet for many who would otherwise be denied these crucial tools of the modern world. Although not always, today, I agree with Paul Davies's comments inasmuch as we do not always appreciate the contribution that libraries have made to so many people's lives. I am proud that our Government has invested £2.5 million in Welsh libraries this year, including £1.5 million to upgrade current library buildings. In addition, in 2009-10, the funding for library modernisation projects will rise to £3 million a year.

My constituents in Sarn will benefit from a share of that £1.5 million, available in 2008-09, to fund major improvements to their library in the lifelong learning centre there.

I was delighted when Maesteg received £100,000 in 2007-08 to develop a learning centre in the sport centre, as that will provide a reference library, a local history facility, and a flexible ICT learning space. These will be genuinely life-changing improvements for the many constituents of mine who will use these libraries now and in the future.

Would it not be nice if, just for once, we could all join in taking pride in these advantages? Instead, the Conservatives want to ignore this vital and much welcomed investment by the Welsh Assembly Government by trying to turn it into a bad-

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae eich amser wedi hen ddod i ben, Peter.

**Janice Gregory:** Yr wyf am ddod â ni'n ôl at realiti, yn hytrach na chaniatáu i fwydro gwamal y Democratiaid Rhyddfrydol barhau, yn arbennig ynglŷn â'm hetholaeth i.

Mae dyled llawer o bobl fy etholaeth yn fawr i system y llyfrgelloedd cyhoeddus. I rai o'm hetholwyr hŷn yn enwedig, y llyfrgell oedd yn rhoi iddynt addysg bellach ac uwch, ffenestr iddynt ar fyd ehangach. Mae llyfrgelloedd wedi symud yn eu blaenau i oes technoleg gwybodaeth, gan roi mynediad i gyfrifiaduron a'r rhyngwrwd i lawer o bobl na fyddent fel arall yn cael defnyddio'r arfau hyn sydd mor allweddol yn y byd modern. Er na wnaif hynny bob tro, heddiw, yr wyf yn cytuno â sylwadau Paul Davies nad ydym wastad yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae llyfrgelloedd wedi'i wneud i fywydau cynifer o bobl. Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi buddsoddi £2.5 miliwn yn llyfrgelloedd Cymru eleni, gan gynnwys £1.5 miliwn i wella adeiladau presennol y llyfrgelloedd. Yn ogystal, yn 2009-10, bydd yr arian at gyllido prosiectau moderneiddio'r llyfrgelloedd yn cynyddu i £3 miliwn y flwyddyn.

Bydd fy etholwyr yn y Sarn yn elwa o gyfran o'r £1.5 miliwn hwnnw, a fydd ar gael yn 2008-09, i ariannu gwelliannau mawr yn eu llyfrgell yn y ganolfan dysgu gydol oes sydd yno.

Yr oeddwn yn falch iawn pan gafodd Maesteg £100,000 yn 2007-08 i ddatblygu canolfan ddysgu yn y ganolfan chwaraeon, oherwydd bydd yn darparu llyfrgell gyfeirio, cyfleusterau hanes lleol, a lle hyblyg ar gyfer dysgu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Bydd y gwelliannau hyn yn gallu newid bywydau llawer o'm hetholwyr sy'n defnyddio'r llyfrgelloedd hyn yn awr a'r rhai a fydd yn eu defnyddio at y dyfodol.

Oni fyddai'n braf, am unwaith, pe gallem oll uno a bod yn falch o'r manteision hyn? Yn lle hynny, mae'r Ceidwadwyr am anwybyddu'r buddsoddiad allweddol hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae cymaint o groeso iddo drwy geisio ei droi'n



news story.

As for the Lib Dems, well, they are colourful. They want to attempt an almost Stalinist rewriting of history. They want us to pretend that only local authorities have invested in libraries, but that is certainly not the case in Bridgend county borough, where the generosity and farsightedness of the Government contrasts sharply with the mean-minded cuts and wastefulness of the Lib Dem-led council. They may be feeding people books, but they are certainly not feeding the old and the vulnerable in the Ogmore constituency—

**Peter Black** *rose*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I do not think she is allowing an intervention.

**Janice Gregory:** No, I am not allowing an intervention. On second thoughts, I will. [*Laughter.*] I have time, so I will.

**Peter Black:** I just want to point out to Janice that it was Mussolini who tended to rewrite history; Stalin just shot people. [*Laughter.*]

**Janice Gregory:** In Bridgend county borough, you want to starve people.

We really need to get real, and we do need to celebrate the investment in this facility.

**Darren Millar:** I am sure that we would all agree on the valuable contribution that libraries make to people's lives in all communities. Public support for libraries is strong, and they continue to be seen as important facilities for communities. Many libraries have kept in step with local needs and changing times by offering internet facilities, DVD rentals, meeting rooms and, of course, good old traditional books.

For many people, however, the local library is more than just a place from which to borrow a book. For many older people, it is a

stori newyddion drwg.

O ran y Democratiaid Rhyddfrydol, wel, maent hwythau'n lliwgar. Maent yn ceisio ailysgrifennu hanes mewn modd Stalinaidd bron. Maent am inni gymryd arnom nad oes neb ond yr awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn llyfrgelloedd, ond yn sicr nid felly y mae ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, lle y mae haelioni a gweledigaeth y Llywodraeth yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â thoriadau cybyddlyd ac afradlondeb y cyngor a arweinir gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Efallai eu bod yn rhoi llyfrau i bobl, ond yn sicr nid ydynt yn bwydo'r henoed a'r rhai sy'n agored i niwed yn etholaeth Ogwr—

**Peter Black** *a gododd*—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid wyf yn credu ei bod yn derbyn ymyriad.

**Janice Gregory:** Nac ydwyf, nid wyf yn derbyn ymyriad. Yr wyf wedi ailfeddwl, yr wyf am wneud. [*Chwerthin.*] Mae amser gennyf, felly gwnaf hynny.

**Peter Black:** Y cwbl yr wyf am ei wneud yw dweud wrth Janice mai Mussolini a oedd yn tueddu i ailysgrifennu hanes; saethu pobl a wnâi Stalin. [*Chwerthin.*]

**Janice Gregory:** Ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yr ydych am lwgu pobl.

Rhaid wynebu'r gwirionedd, a rhaid inni ddathlu'r buddsoddiad hwn yn y cyfleusterau hyn.

**Darren Millar:** Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno ynglŷn â'r cyfraniad gwerthfawr y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i fywydau pobl ym mhob cymuned. Mae cefnogaeth gyhoeddus gref i'r llyfrgelloedd, ac fe'u gwelir yn gyfleusterau pwysig i gymunedau o hyd. Mae llawer o lyfrgelloedd wedi ateb anghenion lleol ac wedi cydymffurfio ag oes sy'n newid drwy gynnig cyfleusterau rhyngrwyd, rhentu DVDs, ystafelloedd cyfarfod a llyfrau traddodiadol hefyd wrth reswm.

I lawer o bobl, fodd bynnag, mae'r llyfrgell leol yn llawer mwy na rhywle i fenthyca llyfr. I lawer o bobl hŷn, mae'n achubiaeth

social lifeline, a place to catch up on local gossip and read the local rag. For many parents, it is a vital resource in the education of their children. It is a place where they can safely discover much more about the world around us and complement their school lessons. It is also the place to get a good book, and we must not underestimate the role that reading has in all our lives.

3.40 p.m.

The BBC's Reading and Writing survey of March 2006 suggested that reading is an important activity for 79 per cent of us, beating television, which was important to 67 per cent of people, computer games, for 15 per cent, gardening at 49 per cent and, yes, even sex at 69 per cent. In light of that last statistic, it is interesting to note that the most popular place in which to read a book is bed, which 65 per cent of respondents do. Going to bed with a good book will never be the same again. [*Laughter.*]

Seriously, however, I am glad that the Labour-Plaid Government has taken steps to recognise the vital role played by libraries in Wales. Although nailing its colours to the mast is not a general hallmark of this particular Government, once again, its words do not match its actions. It talks about investment, but what investment? Libraries for Life is a welcome initiative, Minister, but the bulk of library funding in Wales comes from the local authorities that, this year, received one of the worst local government settlements on record. The 'book' stops here, Minister. This clearly does not demonstrate any real commitment to libraries or a proper level of investment.

In my constituency, libraries in Cerrigydrudion and Llangernyw are currently under threat of closure. Within Conwy county borough, that number rises to half a dozen. It is no coincidence that these proposals are on the table at a time when the authority has received the joint lowest settlement in Wales. Only last week, my office was again contacted by constituents

gymdeithasol, yn rhywle i glywed y straeon lleol diweddaraf a darllen y papur lleol. I lawer o rieni, mae'n adnodd hanfodol yn addysg eu plant. Mae'n rhywle lle y gallant ganfod mwy am y byd o'u cwmpas mewn amgylchfyd diogel ac mae'n ategu gwersi'r ysgol. Mae hefyd yn lle i gael llyfr da, ac ni ddylid tanbrizio rôl darllen yn ein bywydau oll.

Awgrymodd arolwg Darllen ac Ysgrifennu'r BBC ym mis Mawrth 2006 fod darllen yn weithgaredd pwysig i 79 y cant ohonom, ac felly ar y blaen i'r teledu, a oedd yn bwysig i 67 y cant o'r bobl, gemau cyfrifiadurol, i 15 y cant, garddio, i 49 y cant ac, ie, hyd yn oed rhyw, 69 y cant. Yng ngoleuni'r ystadegyn diwethaf hwnnw, mae'n ddiddorol sylwi mai'r lle mwyaf poblogaidd i ddarllen llyfr yw'r gwely, sy'n rhywbeth yr oedd 65 y cant o'r ymatebwyr yn ei wneud. Ni fydd mynd i'r gwely gyda llyfr da byth yr un fath eto. [*Chwerthin.*]

O ddifrif, fodd bynnag, yr wyf yn falch bod Llywodraeth Llafur a Phlaid Cymru wedi cymryd camau i gydnabod y rôl allweddol y mae'r llyfrgelloedd yn ei chwarae yng Nghymru. Er nad yw datgan ei barn yn gyhoeddus yn nodwedd ar y Llywodraeth neilltuol hon at ei gilydd, unwaith yn rhagor, nid yw ei geiriau'n cyfateb i'w gweithredoedd. Mae'n sôn am fuddsoddi, ond pa fuddsoddi sydd? Mae Llyfrgelloedd am Oes yn fenter sy'n werth ei chael, Weinidog, ond daw'r rhan fwyaf o gyllid llyfrgelloedd Cymru gan yr awdurdodau lleol ac mae'r rheini, eleni, wedi cael un o'r setliadau gwaethaf a gafodd llywodraeth leol erioed. Yma y mae'r cyfrifoldeb, Weinidog. Mae'n amlwg nad yw hyn yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i lyfrgelloedd na lefel briodol o fuddsoddiad.

Yn fy etholaeth i, mae bygythiad i gau llyfrgelloedd Cerrigydrudion a Llangernyw. Ym mwrdeistref sirol Conwy, mae cynifer â hanner dwsin mewn perygl. Nid cyddigwyddiad ydyw fod y cynigion hyn ar y bwrdd pan yw'r awdurdod yn un o'r awdurdodau sydd wedi cael y setliad isaf un yng Nghymru. Yr wythnos diwethaf, cysylltodd etholwyr â'm swyddfa drachefn

who are concerned about the future of their local library. It would be far better if the Labour-Plaid Government faced up to the fact that it is its cuts—

**Gareth Jones** *rose*—

**Darren Millar:** I am not accepting an intervention, Gareth. I do not want to hear your excuses. Sit down.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Excuse me, but I ask people to sit down, not you.

**Darren Millar:** Thank you.

**The Deputy Presiding Officer:** Just be careful. Mr Millar is not accepting any interventions.

**Darren Millar:** It would be far better if the Labour-Plaid Government faced up to the fact that it is its cuts in local government finance that are putting many of our libraries at risk. This will have a detrimental effect on communities; there is no doubt about that, and I do not think that we should underestimate the impact that further library closures will have. If the Labour-Plaid Government really does care for libraries and recognises their contribution to people's lives in Wales, why, under its leadership, are libraries in Conwy and other parts of my constituency still under threat? I urge the Government to put its money where its mouth is and to find better ways to support libraries.

**Lesley Griffiths:** I was pleased to see this motion on the agenda today, because we have a great deal to be proud of in Wales when it comes to investment in library services. However, before we go into the nuts and bolts of precisely how the Government is delivering on its pledges in 'One Wales', it is worth reflecting on the amazing popularity of libraries as a part of Welsh life and culture.

Across Wales, there are 332 public libraries and a total of 800,000 library members. Library users across Wales pay 14.5 million visits to the library every year and, according

oherwydd eu bod yn pryderu ynglŷn â dyfodol eu llyfrgell leol. Byddai'n llawer gwell petai Llywodraeth Llafur a Phlaid Cymru yn wynebu'r ffaith mai ei thoriadau hi—

**Gareth Jones** *a gododd*—

**Darren Millar:** Nid wyf yn derbyn ymyriad, Gareth. Nid wyf am glywed eich esgusion. Eisteddych.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Esgusodwch fi, ond fi sy'n gofyn i bobl eistedd, nid chi.

**Darren Millar:** Diolch.

**Y Dirprwy Lywydd:** Byddwch yn ofalus. Nid yw Mr Millar yn derbyn dim ymyriadau.

**Darren Millar:** Byddai'n llawer gwell petai Llywodraeth Llafur a Phlaid Cymru yn wynebu'r ffaith mai ei thoriadau hi yng nghyllid llywodraeth leol sy'n peryglu llawer o'n llyfrgelloedd. Caiff hyn effaith andwyol ar gymunedau; nid oes amheuaeth am hynny, ac ni chredaf y dylem danbrisiu'r effaith y byddai cau rhagor o lyfrgelloedd yn ei chael. Os yw Llywodraeth Llafur a Phlaid Cymru yn poeni o ddifrif am lyfrgelloedd ac yn cydnabod eu cyfraniad at fywydau pobl Cymru, pam mae llyfrgelloedd yng Nghonwy a rhannau eraill o'm hetholaeth, dan ei harweinyddiaeth hi, dan fygythiad o hyd? Yr wyf yn annog y Llywodraeth i roi ei harian ar ei gair a chanfod ffyrdd gwell o gefnogi llyfrgelloedd.

**Lesley Griffiths:** Yr oeddwn yn falch o weld y cynnig hwn ar yr agenda heddiw, oherwydd y mae llawer o bethau y gallwn ymfalchïo ynddynt yng Nghymru o ran buddsoddi yng ngwasanaethau'r llyfrgelloedd. Fodd bynnag, cyn inni drafod y manylion o ran sut yn union y mae'r Llywodraeth yn cyflawni addewidion 'Cymru'n Un', mae'n werth ystyried poblogrwydd anhygoel llyfrgelloedd fel rhan o fywyd a diwylliant Cymru.

Ar draws Cymru, mae 332 o lyfrgelloedd cyhoeddus ac mae gan y llyfrgelloedd 800,000 o aelodau. Mae defnyddwyr llyfrgelloedd yng Nghymru'n ymweld â'r

to research undertaken by Welsh libraries, around 70 per cent of library users go to the library once a week or more. It is obvious then that 'One Wales' had to address that demand, and I am pleased to see that it is doing just that, with genuine investment across the country. The investment in our library service is to ensure free access to cultural materials and to improve ICT in libraries to maintain free, universal public access to the internet. I am delighted to see that the Government will continue with its major programme of capital investment in and refurbishment of our library network.

**Irene James:** Lesley, do you agree that Labour has a fantastic record of supporting libraries? That is borne out in Abercarn, in my constituency, where a new library is being built.

**Lesley Griffiths:** I am delighted that you have that new library in your constituency, and I am sure that it will be very well used.

To be parochial for a moment, Wrexham library will benefit greatly from the community learning libraries capital programme, which will deliver real improvements. However, it is not just in Wrexham that the benefits will be seen; many major libraries across Wales stand to gain from such capital investment over the coming years.

'One Wales' committed us to creating a network of Welsh libraries that would be fit for the twenty-first century, and I believe that the Government is delivering on that promise. When you look into the matter, the level of the Government's investment cannot be denied: £2.5 million is being invested in Welsh libraries this year, including £1.5 million for upgrading current library buildings, and, over the next two years, the funding available for library modernisation projects will rise to £3 million.

llyfrgelloedd 14.5 miliwn o weithiau y flwyddyn ac yn ôl ymchwil a wnaethpwyd gan lyfrgelloedd Cymru, mae tua 70 y cant o ddefnyddwyr y llyfrgelloedd yn mynd i'r llyfrgell unwaith yr wythnos neu fwy. Mae'n amlwg felly fod yn rhaid i 'Cymru'n Un' roi sylw i'r galw hwnnw, ac yr wyf yn falch o weld ei bod yn gwneud hynny, gyda buddsoddiad gwirioneddol ledled y wlad. Diben y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r llyfrgelloedd yw sicrhau mynediad am ddim at ddeunyddiau diwylliannol a gwella technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y llyfrgelloedd er mwyn cynnal mynediad am ddim i bawb i'r rhyngwyd. Yr wyf wrth fy modd o weld y bydd y Llywodraeth yn parhau â'i rhaglen fawr o fuddsoddi cyfalaf ac adnewyddu ein rhwydwaith llyfrgelloedd.

**Irene James:** Lesley, a ydych yn cytuno bod gan Lafur record ardderchog o ran cefnogi llyfrgelloedd? Cadarnheir hynny yn Abercarn, yn fy etholaeth, lle y mae llyfrgell newydd wrthi'n cael ei chodi.

**Lesley Griffiths:** Yr wyf wrth fy modd eich bod yn cael y llyfrgell newydd honno yn eich etholaeth, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn cael ei defnyddio'n helaeth.

A bod y plwyfol am eiliad, bydd llyfrgell Wrecsam yn elwa'n fawr o raglen gyfalaf dysgu cymunedol y llyfrgelloedd, a fydd yn sicrhau gwelliannau gwirioneddol. Fodd bynnag, nid Wrecsam yn unig a fydd yn elwa; gallai llawer o brif lyfrgelloedd Cymru elwa o fuddsoddi cyfalaf o'r fath dros y blynyddoedd nesaf.

Yn 'Cymru'n Un' rhoesom addewid i greu rhwydwaith o lyfrgelloedd yng Nghymru a fyddai'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a chredaf fod y Llywodraeth yn cyflawni ei haddewid yn hynny o beth. Os edrychwch ar y mater, ni ellir gwadu lefel buddsoddiad y Llywodraeth: mae £2.5 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn llyfrgelloedd Cymru eleni, gan gynnwys £1.5 miliwn ar gyfer uwchraddio adeiladau llyfrgelloedd presennol, a, thros y ddwy flynedd nesaf, bydd yr arian sydd ar gael ar gyfer prosiectau moderneiddio llyfrgelloedd yn codi i £3 miliwn.

However, we must remember that this is not just investment in a building or in an asset. 'One Wales' sees this as a community investment—an investment in the Welsh people, not just in a physical resource. While we recognise that libraries are important centres of information, we also recognise that they are hives of activity in communities all over Wales. Our libraries host a variety of local groups, such as mothers and toddlers groups, reading groups and book clubs, and provide computer training so that people can develop new skills—they offer a whole range of services that are central to building and maintaining communities. Given the level of investment now being pledged to our libraries, I am in no doubt that they have a great future ahead of them.

**David Lloyd:** Mae'r cynnig ger ein bron yn gofyn inni gydnabod

'y cyfraniad pwysig y mae llyfrgelloedd yn ei wneud o ran gwella ansawdd bywydau pobl',

ac mae hefyd yn gofyn inni groesawu:

'buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn moderneiddio gwasanaethau llyfrgell',

ac yn y blaen.

Fel yr ydym wedi clywed, erys llyfrgelloedd cyhoeddus yn boblogaidd iawn. Yr ydym wedi clywed y ffigurau, felly ni wnaef eu hailadrodd. Er gwaethaf y gystadleuaeth sydd yn bodoli y tu allan iddynt, arhosant yn boblogaidd, gyda miloedd o bobl yn ymweld â llyfrgelloedd bob blwyddyn a miloedd eraill yn cael mynediad iddynt ar-lein. Yr wyf yn croesawu geiriau'r Gweinidog y prynhawn yma a'i gyhoeddiadau ynglŷn â'r gwaith sydd yn mynd rhagddo o ran ariannu, moderneiddio a chydweithio. Yr wyf hefyd yn croesawu ailwampio llyfrgelloedd fel Pontarddulais a Gorseinon, ac ymddangosiad llyfrgell ganolog ysblennydd newydd Abertawe. Mae mynediad am ddim i gyfrifiadur yn allweddol bwysig, gyda phwyslais gwaith ysgol, yn enwedig, ar allu cyfrifiadurol. Mae mynediad am ddim i gyfrifiadur i'r sawl sydd heb gyfrifiadur gartref yn allweddol i bontio'r gagenda

Fodd bynnag, rhaid inni gofio nad dim ond buddsoddiad mewn adeilad neu mewn ased yw hyn. Mae 'Cymru'n Un' yn ystyried hyn yn fuddsoddiad yn y gymuned—yn fuddsoddiad ym mhobl Cymru, nid mewn adnodd ffisegol yn unig. Er ein bod yn cydnabod bod llyfrgelloedd yn ganolfannau gwybodaeth pwysig, yr ydym yn cydnabod hefyd eu bod yn fwrlwm o brysurdeb mewn cymunedau ledled Cymru. Mae ein llyfrgelloedd yn gartref i lu o grwpiau lleol, fel grwpiau mam a'i phlentyn, grwpiau darllen a chlybiau llyfrau, ac yn darparu hyfforddiant cyfrifiadurol er mwyn i bobl ddatblygu sgiliau newydd—maent yn cynnig ystod eang o wasanaethau sy'n ganolog o ran meithrin a chynnal cymunedau. O gofio lefel y buddsoddiad sy'n cael ei addo i'n llyfrgelloedd yn awr, nid oes amheuaeth gennyf na fydd dyfodol gwych iddynt.

**David Lloyd:** The motion before us asks us to recognise

'the valuable contribution made by libraries in improving the quality of people's lives',

and also asks us to welcome

'the Welsh Assembly Government's investment in modernising library services',

and so on.

As we have heard, public libraries remain popular. We have already heard the figures therefore I will not repeat them. Despite external competition, libraries remain popular, with thousands of people visiting libraries each year and thousands of other people accessing resources online. I welcome the Minister's words this afternoon and his announcements on the ongoing work in financing, modernising and collaborating. I also welcome the modernisation of libraries such as Pontarddulais and Gorseinon, and the development of the fantastic new central library in Swansea. Free access to computers is important, particularly with the emphasis being put in schools on IT skills. Free access to computers for those who do not have computers at home is crucial for bridging that gap.

posibl.

Yn y cyd-destun hwnnw, erys y gallu i fenthgy llyfr yn bwysig hefyd. Nid dyma'r lle i olrhain holl fanteision darllen a llyfrau, ond ni ddylai cost llyfr fod yn rhwystr i'w ddarllen, ac yr wyf yn llongyfarch llyfrgelloedd ar yr holl wahanol ffyrdd o ddenu plant ac oedolion i ddarllen. Fel yr ydym wedi clywed gan y Gweinidog, mae menter Dechrau Da yn annog rhieni i ddarllen gyda'u plant. Ariennir Dechrau Da gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus yn rhan allweddol o'r cynllun hwn, gan gydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd i ddosbarthu bagiau sy'n cynnwys llyfrau darllen dwyieithog. Yr wyf hefyd yn croesawu nod y Llywodraeth i foderneiddio o leiaf 10 y cant o'r llyfrgelloedd sydd ar agor am dros 10 awr yr wythnos erbyn 2011 o dan y prosiect Llyfrgelloedd am Oes.

Mae'n bosibl i feddygon teulu ragnodi llyfrau i gleifion sydd â phroblemau seicolegol mân neu gymedrol o dan y cynllun Llyfrau ar Bresgripsiwn. Gellir mynd â phresgripsiwn, felly, i'r llyfrgell. Wrth drin y nifer cynyddol o broblemau seicolegol a seiciatryddol, fel pryder, iselder ysbryd a gwahanol obsesiynau, mae'r gallu i gyfeirio'r claf at ddeunydd y gellir ei ddarllen mewn llyfr neu ar-lein yn bwysig iawn. Mae therapi gwybyddol ymddygiadol yn ateb cynyddol i broblemau megis pryder, iselder ysbryd a gwahanol obsesiynau. Mae cyfeirio'r claf at ddeunydd y gellir ei ddarllen yn galluogi claf i ddeall beth sydd yn mynd ymlaen ac i ailafael â rheoli'r salwch yn llawer gwell o safbwynt clir, wedi derbyn gwybodaeth gadarn am yr afiechyd. Felly, mae rôl allweddol bwysig a chynyddol gan y system hon o ragnodi llyfr. I gloi, croesawaf y ddadl hon a'r gwaith a gyflawnir bob dydd yn ein llyfrgelloedd, ac yr wyf hefyd yn cefnogi gweithredoedd buddiol y Llywodraeth yn hyn o beth.

3.50 p.m.

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Yr wyf yn croesawu ymateb cyffredinol Paul i'r ddadl hon wrth nodi pa mor bwysig yw llyfrgelloedd fel adnodd cymunedol ledled Cymru. Cafwyd rhestr hir

In that context, the ability to borrow books also remains important. This is not the place to list all the advantages of books and reading, but the cost of a book should not prevent people from reading, and I congratulate libraries on all the different ways of encouraging children and adults to read. As we have heard from the Minister, the Bookstart initiative encourages parents to read with their children. Bookstart is funded by the Assembly Government. Public libraries are a key part of this programme, working with the health service to issue packs containing bilingual reading books. I also applaud the Government's aim to modernise at least 10 per cent of the libraries that are open for 10 hours or more per week by 2011 under the Libraries for Life project.

General practitioners are able to prescribe books to patients who have minor to moderate psychological disorders under the Books on Prescription scheme. Those prescriptions can be taken to libraries. In dealing with the increasing amount of psychological and psychiatric problems, such as anxiety, depression and obsessive behaviour, the ability to refer a patient to reading material, online or in the form of a book, is important. Cognitive behavioural therapy is increasingly becoming an answer to problems such as anxiety, depression and obsessive behaviour. Referring a patient to reading material enables the patient to understand what is happening and be able to grasp better control over the illness, having received positive information about the illness. Therefore, this system has an increasingly important role in prescribing books. To close, I welcome this debate and the work undertaken on a daily basis in our libraries, and I also support the Government's actions in this area.

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** I welcome Paul's general response to this debate in noting how important a community resource that libraries are throughout Wales. He gave a lengthy list of

ganddo o'r gwasanaethau sydd ar gael yn ein llyfrgelloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, ar yr un pryd, yr oedd yn sôn am gwtogi ar y gwasanaethau hynny. Ni fedraf gysoni'r ddau beth. Nid oedd tystiolaeth o gwtogi mewn gwirionedd—dim ond codi bwganod ynglŷn â chwtogi ydoedd. Y gwir yw bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'r swm mwyaf erioed mewn llyfrgelloedd ledled Cymru—cyfalaf o £10.5 miliwn. Mae hynny'n newyddion da. Nid yn unig y bydd yn arwain at greu awyrgylch gwell mewn llyfrgelloedd a galluogi pobl i gael mynediad haws i wasanaethau mewn llyfrgelloedd, ond bydd yn ehangu ystod y gwasanaethau hynny hefyd.

Peter Black attempted to tell us that the Liberal Democrat amendment does not in any way try to take credit away from the Government of Wales for the contribution that it is making. He said that it is merely intended to highlight the contribution made by local authorities. Can you explain, then, Peter, why your amendment reads 'Delete the words "The Welsh Assembly Government" and replace with "local authorities"'?

**Peter Black:** It was wishful thinking.

**Rhodri Glyn Thomas:** When we talk about the Government's contribution in terms of capital investment, I remind you, Peter, of the contribution of the coalition Government in the first Assembly, when we had a Liberal Democrat Minister for culture with responsibility for libraries. The capital investment contribution then was a big fat zero—there was not 1p from the Liberal Democrats for capital investment in libraries in Wales.

Do not tell us about Government working with local authorities—we know all about that, and we are working with local authorities. We have this investment of £10.5 million, and we will be working with local authorities throughout Wales. As for the point that you made about local authorities undertaking these changes themselves: yes, those local authorities will be more than welcome to bid for money from this pot, and we will recognise the work that they have done within their areas.

the services available in our libraries in Wales. However, at the same time, he talked about cutting back those services. I cannot equate those two things. There was no evidence of any real cutbacks—it was just raising fears about such cutbacks. The plain truth is that the Government of Wales is investing the greatest amount of money ever in libraries across Wales—a capital sum of £10.5 million. That is good news. Not only will it lead to creating a better ethos in libraries and enable people to gain easier access to services in libraries, but it will also expand the range of those services.

Ceisiodd Peter Black ddweud wrthym nad yw gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio dwyn clod oddi ar Lywodraeth Cymru sut yn y byd am y cyfraniad y mae'n ei wneud. Dywedodd mai ei unig fwriad yw tynnu sylw at y cyfraniad a wneir gan awdurdodau lleol. A allwch esbonio, felly, Peter, pam mae eich gwelliant wedi'i eirio fel hyn: 'Dileu'r geiriau "Llywodraeth Cynulliad Cymru" a rhoi yn eu lle "awdurdodau lleol"'?

**Peter Black:** Gobaith ofer oedd hynny.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pan soniwn am gyfraniad y Llywodraeth o ran buddsoddiad cyfalaf, hoffwn eich atgoffa, Peter, o gyfraniad Llywodraeth glymblaid y Cynulliad Cyntaf, pan oedd y cyfrifoldeb dros lyfrgelloedd gan Weinidog dros ddiwylliant a oedd yn Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol. Dim yw dim oedd y buddsoddiad cyfalaf bryd hynny—ni roddodd y Democratiaid Rhyddfrydol yr un geiniog ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn llyfrgelloedd yng Nghymru.

Peidiwch â dweud wrthym am Lywodraeth yn gweithio gydag awdurdodau lleol—gwyddom yn iawn am hynny, ac yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol. Mae'r buddsoddiad hwn o £10.5 miliwn gennym, a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. O ran y pwynt a wnaethoch am awdurdodau lleol yn gwneud y newidiadau hyn eu hunain: wrth gwrs, bydd croeso i'r awdurdodau lleol hynny wneud cais am arian o'r pot hwn, a byddwn yn cydnabod y gwaith y maent wedi ei wneud yn

Janice asked us to appreciate the wide range of services available in libraries, and the contribution that libraries in Wales make to the quality of life of people in our communities. As she pointed out, the best possible way of showing appreciation for those services is to acknowledge them with further investment that means that we can extend those services.

Darren again followed the strange rationale that Paul brought to the debate by listing the new services available and, without evidence, suggesting that they would be cut by local government. You referred to the local government settlement, Darren, and then to local government plans to look at the services that it is providing, and to tailor those services to the needs of communities, which have changed over the years. Those plans were in place long before the local government settlement was agreed.

**Darren Millar:** There have been consistently low settlements from successive Welsh Assembly Governments over the years. Members of your party sitting just to your right should have been able to advise you of that.

**Rhodri Glyn Thomas:** In the years before you joined us in the Assembly, you clearly did not closely follow the budgetary discussions, or the settlements that local government received over the last nine years, Darren. As a Government, we are faced at the moment with a tight settlement, the tightest settlement that we have had—and yet, we are announcing a record level of capital investment in libraries in Wales, amounting to £10.5 million. We will work with local government to ensure that those services not only remain, but will be improved and extended.

Lesley referred to the additional, new services that are available in our libraries, and there is a great future for library services in Wales. We should recognise that as good news and not try to turn it into bad news without a jot of evidence in support. This is

eu hardaloedd.

Gofynnodd Janice inni werthfawrogi'r ystod eang o wasanaethau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd, a'r cyfraniad a wna llyfrgelloedd yng Nghymru at ansawdd bywydau pobl yn ein cymunedau. Fel y dywedodd, y ffordd orau posibl o ddangos gwerthfawrogiad o'r gwasanaethau hynny yw eu cydnabod drwy ragor o fuddsoddiad sy'n golygu y gallwn ehangu'r gwasanaethau hynny.

Unwaith eto dilynodd Darren y rhesymeg ryfedd a gyflwynodd Paul i'r ddadl drwy restru'r gwasanaethau newydd sydd ar gael a, heb dystiolaeth, awgrymu y byddai llywodraeth leol yn eu cwtogi. Cyfeiriasoch at y setliad i lywodraeth leol, Darren, ac yna at gynlluniau llywodraeth leol i edrych ar y gwasanaethau y mae'n eu darparu, ac i deilwra'r gwasanaethau hynny at anghenion cymunedau, sydd wedi newid dros y blynyddoedd. Yr oedd y cynlluniau hynny ar waith ymhell cyn cytuno ar y setliad i lywodraeth leol.

**Darren Millar:** Cafwyd setliadau isel yn gyson gan y naill Lywodraeth ar ôl y llall yn y Cynulliad Cenedlaethol dros y blynyddoedd. Dylai Aelodau o'ch plaid sy'n eistedd ar y dde ichi fod wedi gallu dweud hynny wrthyhych.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn y blynyddoedd cyn ichi ymuno â ni yn y Cynulliad, mae'n amlwg na ddilynasoch y trafodaethau ar y gyllideb yn fanwl, na'r setliadau a gafodd llywodraeth leol dros y naw mlynedd diwethaf, Darren. Fel Llywodraeth, yr ydym yn wynebu setliad tynn ar hyn o bryd, y setliad tynnaf inni ei gael erioed—ac eto, yr ydym yn cyhoeddi'r lefel uchaf erioed o fuddsoddiad cyfalaf yn ein llyfrgelloedd yng Nghymru, sef cyfanswm o £10.5 miliwn. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i sicrhau y bydd y gwasanaethau hynny nid yn unig yn parhau, ond yn gwella ac yn ehangu.

Cyfeiriodd Lesley at y gwasanaethau newydd, ychwanegol sydd ar gael yn ein llyfrgelloedd, ac mae dyfodol gwych i'n gwasanaeth llyfrgelloedd yng Nghymru. Dylem gydnabod bod hynny'n newyddion da a pheidio â cheisio ei droi'n newyddion drwg



£10.5 million of additional, new money for capital investment in libraries in Wales, working with public libraries, libraries in schools and those in higher education institutions, which people appreciate and use.

Dai referred to his specialist area and to the very important contribution that libraries make in ensuring that people in our poorest communities can access those services.

Hoffwn ddod â'r ddadl hon i ben ar y nodyn hwnnw; y nodyn a gyflwynodd Dai Lloyd i'r drafodaeth hon. Bydd yr arian newydd, ychwanegol, sylweddol hwn yn sicrhau bod pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn cael gwell mynediad at wasanaethau yn ein llyfrgelloedd a mwy o wasanaethau ynddynt, a dylem ddathlu'r ffaith hon.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection.

**Carl Sargeant:** I request that the bell be rung.

**The Deputy Presiding Officer:** Under Standing Order No. 7.37, at least three Members must request that the bell be rung. Do three Members support the request? I see that they do. Clerk, please ring the bell.

heb rithyn o dystiolaeth i gefnogi hynny. Mae hyn yn £10.5 miliwn o arian newydd, ychwanegol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn llyfrgelloedd yng Nghymru, i weithio gyda llyfrgelloedd cyhoeddus, llyfrgelloedd mewn ysgolion a'r rhai mewn sefydliadau addysg uwch, y mae pobl yn eu gwerthfawrogi ac yn eu defnyddio.

Cyfeiriodd Dai at ei faes arbenigol ac at y cyfraniad pwysig iawn a wna llyfrgelloedd i sicrhau y gall pobl yn ein cymunedau tlotaf gael mynediad at y gwasanaethau hynny.

I would like to draw this debate to a close on that note; the note that Dai Lloyd introduced to this discussion. This new money, which is additional and a considerable amount, will ensure that people in our most deprived communities have better access to services in our libraries and more services in them, and we should celebrate that fact.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno â gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod un gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad.

**Carl Sargeant:** Gofynnaf i'r gloch gael ei chanu.

**Y Dirprwy Lywydd:** O dan Reol Sefydlog Rhif 7.37, rhaid i o leiaf dri Aelod wneud cais i'r gloch gael ei chanu. A oes tri Aelod yn cefnogi'r cais? Gwelaf fod. Glerc, canwch y gloch os gwelwch yn dda.

*Gohiriwyd y Cyfarfod Llawn rhwng 3.56 p.m. a 4.01 p.m.  
Plenary was adjourned between 3.56 p.m. and 4.01 p.m.*

*Gwelliant 1 i NDM3905: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 32.  
Amendment 1 to NDM3905: For 18, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Melding, David  
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John

Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment defeated.*

*Gwelliant 2 i NDM3905: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 34.  
Amendment 2 to NDM3905: For 17, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Isherwood, Mark  
Law, Trish  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn

*Gwrthodwyd y gwelliant.*

*Amendment defeated.*

*Cynnig (NDM3905): O blaid 35, Ymatal 6, Yn erbyn 11.  
Motion (NDM3905): For 35, Abstain 6, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Barrett, Lorraine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Franks, Chris  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Griffiths, Lesley  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Michael  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Jonathan  
Ramsay, Nick  
Williams, Brynle

## **Cael Gwared ar TB TB Eradication**

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I propose that

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales:*

*welcomes the commitment of the Welsh Assembly Government to the advancement of animal welfare through the eradication of bovine TB in Wales, and the programme of practical action being undertaken in support of it. (NDM3906)*

I welcome the opportunity that this debate gives today for greater discussion and scrutiny on the actions that I announced last week to pursue the eradication of bovine TB.

The impact of bovine TB is unacceptable and unsustainable for Wales. Simply trying to manage the disease, as we have been doing, is irresponsible given the forecast future spread of the disease.

The facts speak for themselves. In 2007, 7,905 cattle were culled as part of TB controls in Wales, compared with fewer than 700 in 1997. The cost of compensation for the 2007-08 financial year was £15.2 million, compared with £1.8 million in the 2000-01 financial year. On present trends, by 2012 it could exceed £30 million. Areas of Pembrokeshire and Monmouthshire have some of the highest levels of confirmed disease in cattle per sq km in the UK.

There is no single solution to bovine TB. The approach to eradicating this disease has to be comprehensive, taking all factors into account. The eradication programme will differ in various parts of Wales. In areas clear of the disease and in areas where we do not believe that TB is endemic in the cattle or badger population, our policy will concentrate only on cattle testing, good husbandry and compensation reform. A badger cull is not appropriate for disease control purposes in these areas.

The all-Wales programme, as I outlined last week, will include a one-off test for all cattle herds in Wales, to remove diseased animals and provide crucial evidence for future decisions on increased surveillance and movement restrictions. We will roll out good

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella lles anifeiliaid drwy gael gwared ar TB mewn gwartheg yng Nghymru, a'r rhaglen o gamau ymarferol sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud hynny. (NDM3906)*

Croesawaf y cyfle a rydd y ddadl hon heddiw i drafod a chraffu mwy ar y camau a gyhoeddais yr wythnos diwethaf i fynd ati i ddileu TB mewn gwartheg.

Mae effaith TB mewn gwartheg yn annerbyniol ac yn anghynaliadwy i Gymru. Mae ceisio rheoli'r clefyd yn unig, fel yr ydym wedi bod yn gwneud, yn anghyfrifol o ystyried sut y rhagwelir y bydd y clefyd yn ymledu yn y dyfodol.

Mae'r ffeithiau'n siarad drostynt eu hunain. Yn 2007, cafodd 7,905 o wartheg eu difa fel rhan o'r ymdrech i reoli TB yng Nghymru, o'i gymharu â llai na 700 yn 1997. O ran cost yr iawndal, £15.2 miliwn ydoedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-08, o'i gymharu â £1.8 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2000-01. Yn ôl y patrymau presennol, gallai fod dros £30 miliwn erbyn 2012. Mae rhai o'r lefelau uchaf o achosion o'r clefyd a gadarnhawyd mewn gwartheg fesul km sgwâr yn y DU mewn ardaloedd yn sir Benfro a sir Fynwy.

Nid oes un ateb i TB mewn gwartheg. Rhaid i'r dull a ddefnyddir i gael gwared ar y clefyd hwn fod yn gynhwysfawr, gan ystyried pob ffactor. Bydd y rhaglen i gael gwared arno yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mewn ardaloedd heb y clefyd ac mewn ardaloedd lle nad ydym yn credu bod TB yn endemig mewn gwartheg na moch daear, bydd ein polisi'n canolbwyntio ar brofi gwartheg, hwsmonaeth dda a diwygio iawndal. Nid yw difa moch daear yn briodol at ddibenion rheoli'r clefyd yn yr ardaloedd hyn.

Bydd y rhaglen i Gymru gyfan, fel yr amlinellais yr wythnos diwethaf, yn cynnwys prawf untro ar gyfer pob buches yng Nghymru, i gael gwared ar anifeiliaid sydd â'r clefyd a darparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer penderfyniadau yn y

husbandry and biosecurity measures from the intensive treatment area in Pembrokeshire and Carmarthenshire. We will look to link compensation with good husbandry, reduce reactor removal time, and seek legislative powers to test non-bovine susceptible animals, such as llamas and alpacas.

However, in some parts of Wales bovine TB is endemic and recurring. In such areas, the Wales badger found dead survey in 2006 found that a significantly higher proportion of badgers were also infected with bovine TB. These so-called hot spot areas require a more intensive approach if we are to eradicate or even control the disease. There is no point tackling one source of infection and ignoring another. This only allows infection to recur. That is why I announced last week that an intensive action pilot area will be set up in a TB hot spot area that will include action to eliminate all sources of on-farm infection. There will be a targeted cull of badgers alongside a simultaneous removal of infected cattle, subject to considerations that I have announced previously.

It is one of the main principles of tackling animal disease that all sources of infection must be addressed. This approach supports that principle. Unlike the approach in the randomised badger culling trials in England, however, the intensive action pilot area will also include enhanced cattle measures. New cattle movement controls will be considered as part of heightened cattle measures to protect against potential re-infection. Since announcing the parameters of the eradication programme last week, I have asked my officials to work with the expert groups that I have established to identify the location and size of the pilot area as well as the duration and method of the cull.

We will also use the experience of the trials in England and experiences outside the UK to

dyfodol ynghylch rhagor o oruchwyliaeth a chyfyngiadau ar symud. Byddwn yn rhoi'r mesurau hwsmonaeth dda a bioddogelwch yn yr ardal triniaeth ddwys yn sir Benfro a sir Gaerfyrddin ar waith mewn ardaloedd eraill. Byddwn yn ceisio cysylltu iawndal â hwsmonaeth dda, lleihau'r amser i gael gwared ar adweithyddion, a cheisio pwerau deddfwriaethol i brofi anifeiliaid a allai gael yr haint nad ydynt yn wartheg, megis lamaod ac alpacaod.

Fodd bynnag, mewn rhai rhannau o Gymru mae TB mewn gwartheg yn endemig ac yn ailddigwydd. Mewn ardaloedd o'r fath, canfu arolwg o foch daear marw a gynhaliwyd yn 2006 yng Nghymru fod cyfran sylweddol uwch o foch daear wedi'u heintio â TB mewn gwartheg hefyd. Mae'r manau hyn sydd â phroblem yn galw am ddull gweithredu dwysach os ydym am ddileu neu hyd yn oed reoli'r clefyd. Nid oes pwrpas mynd i'r afael ag un ffynhonnell o'r haint ac anwybyddu un arall. Dim ond caniatáu i'r haint godi ei ben eto a wna hyn. Dyna pam y cyhoeddais yr wythnos diwethaf y sefydlir ardal beilot ar gyfer gweithredu dwys mewn ardal â phroblem TB a fydd yn cynnwys camau i ddileu pob ffynhonnell o haint ar y fferm. Cynhelir rhaglen wedi'i thargedu i ddifa moch daear ar yr un pryd â chael gwared ar wartheg heintiedig, yn amodol ar yr ystyriaethau yr wyf wedi'u cyhoeddi o'r blaen.

Rhoi sylw i bob ffynhonnell o'r haint yw un o brif egwyddorion mynd i'r afael â chlefyd anifeiliaid. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r egwyddor honno. Yn wahanol i'r dull yn hap-dreialon difa moch daear Lloegr, fodd bynnag, bydd yr ardal beilot ar gyfer gweithredu dwys yn cynnwys mesurau gwell o ran gwartheg hefyd. Ystyrir rheoliadau symud gwartheg newydd fel rhan o fesurau gwartheg cryfach i amddiffyn rhag ailheintio posibl. Ers cyhoeddi paramedrau'r rhaglen i gael gwared ar TB yr wythnos diwethaf, yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda'r grwpiau arbenigol yr wyf wedi'u sefydlu i bennu lleoliad a maint yr ardal beilot yn ogystal â hyd a dull y rhaglen ddifa.

Byddwn hefyd yn defnyddio profiad y treialon yn Lloegr a phrofiadau y tu allan i'r

delineate the area in a sufficiently robust way. We will also seek welfare and ethical advice in advance of any cull. As this preparatory work must be carried out thoroughly, it is unlikely to be completed before the autumn. Furthermore, a robust assessment of the effectiveness of the intensive action pilot area will be undertaken before any decision is taken to use such an approach in any other TB hot spot area. I will also be seeking advice, in conjunction with the Minister for Environment, Sustainability and Housing, on the re-introduction of healthy badgers into an area once we are confident that there is little risk of re-infection.

On the other aspects of the eradication programme, particularly the significant escalation in cattle testing and reducing reactor removal time, officials are already working with the Animal Health and Welfare agency to determine how to do this effectively with the least disruption to the industry. This includes looking at veterinary capacity, but it is also about taking a timely and co-ordinated approach, for example by incorporating the results of scheduled routine tests whenever possible.

As I said last week, it is essential that we all work together—Government, farmers, veterinarians and others—to implement a comprehensive approach to the eradication of bovine TB. Three new regional eradication boards, covering all of Wales, will be established to ensure that delivery of policy is specific to regional and local conditions and that it is implemented effectively. These regional eradication boards will ensure that the work of Animal Health and Welfare and the funds committed in Wales by the UK Government are aligned to meet the regional and national needs of Wales.

An additional £27.7 million has been allocated in the Assembly Government's budget over the next three-year budget period to progress this programme. This sum includes £6 million planned to be spent in the current financial year, followed by

DU i ddynodi'r ardal yn ddigon cadarn. Byddwn hefyd yn gofyn am gyngor ynghylch lles a chyngor moesegol cyn unrhyw raglen ddifa. Gan fod yn rhaid cyflawni'r gwaith paratoi hwn yn drwyadl, mae'n annhebygol y caiff ei gwblhau cyn yr hydref. Ar ben hynny, cynhelir asesiad cadarn o effeithiolrwydd yr ardal beilot ar gyfer gweithredu dwys cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddefnyddio dull o'r fath mewn unrhyw ardal arall sydd â phroblem TB. Byddaf hefyd yn gofyn am gyngor, ar y cyd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ynghylch ailgyflwyno moch daear iach i ardal pan fyddwn yn ffyddiog mai bach iawn yw'r perygl i'r haint ailymddangos.

Ac ystyried agweddau eraill ar y rhaglen i ddileu TB, yn enwedig y cynnydd sylweddol mewn profion ar gyfer gwartheg a chwtogi'r amser i gael gwared ar adweithyddion, mae swyddogion eisoes yn gweithio gyda'r asiantaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid i bennu sut y mae gwneud hyn yn effeithiol gan amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar gapasiti milfeddygol, ond mae hefyd yn golygu defnyddio dull gweithredu amserol a chydgyssylltiedig, er enghraifft, drwy ymgorffori canlyniadau profion rheolaidd wedi'u trefnu pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, mae'n hanfodol inni i gyd weithio gyda'n gilydd—y Llywodraeth, ffermwyr, milfeddygon ac eraill—i roi dull gweithredu cynhwysfawr ar waith i ddileu TB mewn gwartheg. Sefydlir tri bwrdd dileu rhanbarthol newydd, ar gyfer Cymru gyfan, i sicrhau bod y polisi'n cael ei gyflwyno yn ôl yr amodau yn rhanbarthol ac yn lleol a'i fod yn cael ei weithredu'n effeithiol. Bydd y byrddau dileu rhanbarthol hyn yn sicrhau bod gwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a'r arian a glustnodir yng Nghymru gan Lywodraeth y DU yn cael eu cyd-drefnu i ddiwallu anghenion rhanbarthol a chenedlaethol Cymru.

Dyrannwyd £27.7 miliwn yn ychwanegol yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad dros y tair blynedd nesaf, sef cyfnod y gyllideb, i hyrwyddo'r rhaglen hon. Mae'r swm hwn yn cynnwys £6 miliwn y bwriedir ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon,

allocations of £9.8 million and £11.9 million in the following financial years. In the first year, these funds will be used to commence work on all the measures that I have outlined. The new funding is also designed to accommodate any increase in compensation above the 2007-08 baseline as a result of the increased testing over this next year.

As I expected on an issue such as this, the response to my statement last week has been mixed. The use of language to describe the programme has been colourful, but I have taken exception to only one word, and that one word is 'knee-jerk'. I can assure all Members here that, whatever their view on the content of this programme, this is anything but a knee-jerk response. The Assembly in its entirety, its committee and its Government, have looked at all evidence in detail in forming a view and ultimately, for Government, in taking its decision.

There is conflicting scientific advice. I fully expect to hear the Independent Scientific Group on Cattle TB's conclusion quoted from some quarters in the Assembly today and the conclusions of the then UK chief scientist, David King, quoted from other quarters. I expect some to quote the experience of Northern Ireland in dealing with bovine TB without, hitherto, a badger cull, and others to quote the downward trend in bovine TB in the Republic of Ireland with a wildlife cull. In designing the eradication programme for Wales, I have considered all the evidence available to me, and we have designed a programme that is proportionate to the escalating disease situation in wildlife and farmed animals, and which learns the valuable lessons from the badger cull trials in England, especially in terms of reducing the risk of perturbation.

4.10 p.m.

I take this opportunity to reiterate that the badger remains a protected species in Wales. The Protection of Badgers Act 1992, and other relevant legislation, continue to apply. Over this past week, I have seen and heard

ac yna dyraniadau o £9.8 miliwn a £11.9 miliwn yn y blynyddoedd ariannol canlynol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ddechrau'r gwaith ar yr holl fesurau yr wyf wedi'u hamlinellu. Mae'r arian newydd, yn ogystal, i fod i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd mewn iawndal a fyddai'n uwch na llinell sylfaen 2007-08 o ganlyniad i ragor o brofion dros y flwyddyn nesaf hon.

Fel yr oeddwn yn disgwyl gyda mater fel hwn, cymysg fu'r ymateb i'm datganiad yr wythnos diwethaf. Defnyddiwyd iaith liwgar i ddisgrifio'r rhaglen, ond dim ond un gair yr wyf yn ei wrthwynebu, a 'difeddl' yw'r gair hwnnw. Gallaf sicrhau'r holl Aelodau yma, beth bynnag yw eu barn am gynnwys y rhaglen hon, nad yw hyn yn ymateb difeddl o gwbl. Mae'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd, ei bwyllgorau a'i Lywodraeth wedi edrych yn fanwl ar yr holl dystiolaeth wrth lunio barn ac yn y pen draw, o ran y Llywodraeth, wrth wneud ei phenderfyniad.

Mae'r dystiolaeth wyddonol yn anghyson. Yr wyf yn disgwyl y bydd rhai yn y Cynulliad yn dyfynnu casgliad y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg heddiw, ac y bydd rhannau eraill yn dyfynnu casgliadau cyn brif wyddonydd y DU, David King. Yr wyf yn disgwyl y bydd rhai'n sôn am brofiad Gogledd Iwerddon wrth ddelio â TB mewn gwartheg a hynny, hyd yn hyn, heb ddifa moch daear, ac y bydd eraill yn sôn am y gostyngiad mewn TB mewn gwartheg yng Ngweriniaeth Iwerddon ar ôl difa bywyd gwyllt. Wrth lunio'r rhaglen ddileu ar gyfer Cymru, yr wyf wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael imi, ac yr ydym wedi llunio rhaglen sy'n gymesur â'r cynnydd yn y clefyd mewn anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid fferm, ac sy'n dysgu gwersi gwerthfawr yn sgîl y treialon difa moch daear yn Lloegr, yn enwedig o ran lleihau'r perygl y bydd aflonyddu'n digwydd.

Yr wyf yn achub y cyfle hwn i ailadrodd bod moch daear yn parhau'n rhywogaeth a warchodir yng Nghymru. Mae Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, a deddfwriaeth berthnasol arall, yn dal mewn grym. Yn

many references to a Welsh badger cull. There is no Welsh badger cull; there is only a decision to remove all sources of bovine TB infection, including badgers, in a pilot area in Wales, but only when licensed by Government. No-one had the right before my statement to harm a badger in Wales, and no-one has the right to do so today. We should all be careful that a flamboyant use of language does not give anyone the impression that it is now okay to kill badgers in Wales. It remains an illegal activity, which will not be tolerated.

Eradicating bovine TB will not be achieved overnight—it will take several years. Due to significantly increased cattle testing, we may well see an increase in cattle tested positive for TB in the short term. For the longer term, that will be a good thing, since diseased animals will have been identified and removed earlier, and therefore their ability to infect, both other cattle and badgers, will have been reduced. Due to the public funding invested, and the public and political interest in this programme, I can commit to bring an annual progress report to the Assembly. This will allow for effective scrutiny of a major 'One Wales' commitment.

In conclusion, I urge all Members to consider that this programme will be of benefit to maintaining our dairy and beef industries; I hope that we all agree that this is an important objective. However, just as crucially, this comprehensive programme will ensure that we are tackling head on a disease that is spreading through our wildlife and farmed animal populations. The health and wellbeing of all animals susceptible to bovine TB must be a priority. The disease cannot be allowed to spread unfettered in any species, and reducing the reservoir of disease today protects all bovine-TB-susceptible species for tomorrow.

**Brynle Williams:** First, I thank the Minister

ystod yr wythnos ddiwethaf hon, yr wyf wedi gweld a chlywed llawer o gyfeiriadau at ddifa moch daear Cymru. Nid oes rhaglen i ddifa moch daear Cymru; dim ond penderfyniad i gael gwared ar bob ffynhonnell o haint TB mewn gwartheg, gan gynnwys moch daear, mewn ardal beilot yng Nghymru, ond dim ond pan fydd hynny wedi'i drwyddedu gan y Llywodraeth. Nid oedd gan neb hawl cyn fy natganiad i anafu mochyn daear yng Nghymru, ac nid oes gan neb yr hawl i wneud hynny heddiw. Dylem i gyd fod yn ofalus nad yw defnyddio iaith ymfflamychol yn rhoi'r argraff i neb ei bod yn awr yn iawn lladd moch daear yng Nghymru. Mae hynny'n dal yn weithgarwch anghyfreithlon na chaiff ei oddef.

Ni fydd modd dileu TB mewn gwartheg dros nos—bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd. O ganlyniad i brofi llawer rhagor o wartheg, efallai y byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y gwartheg a fydd yn cael prawf positif am TB yn y tymor byr. Ar gyfer y tymor hwy, bydd hynny'n beth da, oherwydd bydd yn golygu bod anifeiliaid sydd â'r clefyd wedi cael eu canfod a'u difa yn gynt, ac felly bydd eu gallu i heintio gwartheg eraill a moch daear yn llai. Oherwydd yr arian cyhoeddus a fuddsoddir, a'r diddordeb cyhoeddus a gwleidyddol yn y rhaglen hon, gallaf ymrwymo i gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol gerbron y Cynulliad. Bydd hyn yn golygu bod modd craffu'n effeithiol ar un o ymrwymadau mawr 'Cymru'n Un'.

I gloi, yr wyf yn annog yr holl Aelodau i ystyried y bydd y rhaglen hon o fudd i gynnal ein diwydiannau llaeth ac eidion; yr wyf yn gobeithio ein bod i gyd o'r un farn bod hyn yn amcan pwysig. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig y bydd y rhaglen gynhwysfawr hon yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â chlefyd sy'n ymledu drwy ein poblogaethau bywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm. Rhaid i iechyd a lles pob anifail a allai gael TB mewn gwartheg fod yn flaenoriaeth. Ni ellir caniatáu i'r clefyd ymledu'n ddilyffethair mewn dim un rhywogaeth, ac mae lleihau cronfa'r clefyd yn awr yn gwarchod yr holl rywogaethau a allai gael TB gwartheg yn y dyfodol.

**Brynle Williams:** Yn gyntaf oll, diolchaf i'r



for having the courage to make this tough decision to eradicate the disease. It is a decision that will put Wales ahead of the rest of the UK, and it is worth recognising how far-reaching its implications will be. It goes without saying that what happens in Wales will, hopefully, influence Mr Hilary Benn and, eventually, policy in England. Wales has the opportunity to lead the way, not just in getting to grips with TB, but in eradicating it eventually.

I also wish to thank the Minister for drawing on the work of the Rural Development Sub-Committee in putting together her eradication policy. It is worth pointing out just how significant it is that, after years of heated disagreement and delays over any serious action on bovine TB, finally the holistic approach, as outlined in the sub-committee's report, has gained cross-party support. We must not forget that Wales is required by the European Union to have an eradication strategy in place. However, for the last 10 years, this has not been the case, and successive Welsh Assembly Governments have preferred to kick the issue into the long grass, instead of making tough but necessary decisions.

By concentrating only on cattle since 1999, and acting as if wildlife infection was non-existent, the number of cattle culled has increased by a massive 656 per cent, while the compensation bill has gone up by 1,319 per cent. These figures can be borne out. It might be a challenge for some to accept, even now, but as Sir David King, the UK Government's former chief scientific adviser said,

'badgers are a clear source of infection for cattle. Reducing the density of badgers in those areas...where there is a significant level of TB in cattle reduces the incidence of TB in cattle in the same area'.

The Government's own badger found dead survey discovered that as many as one in four badgers in Gwent and southern Powys were infected, with badger infection highest in TB

Gweinidog am fod yn ddigon dewr i wneud y penderfyniad anodd hwn i ddileu'r clefyd. Mae'n benderfyniad a fydd yn rhoi Cymru ar y blaen i weddill y DU, ac mae'n werth cydnabod mor bellgyrhaeddol y bydd ei oblygiadau. Afraid yw dweud y bydd yr hyn a fydd yn digwydd yng Nghymru, gobeithio, yn dylanwadu ar Mr Hilary Benn ac, yn y pen draw, ar y polisi yn Lloegr. Mae'r cyfle gan Gymru i arwain y ffordd, nid yn unig o ran mynd i'r afael â TB, ond ei ddileu yn y pen draw.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gweinidog am ddefnyddio gwaith yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig wrth lunio'i pholisi i ddileu'r clefyd. Mae'n werth pwysleisio mor arwyddocaol yw hynny, ar ôl blynyddoedd o anghytuno tanbaid ac oedi ynghylch unrhyw weithredu difrifol ynghylch TB mewn gwartheg, o'r diwedd mae'r dull cyfannol o weithredu, a amlinellwyd yn adroddiad yr is-bwyllgor, wedi ennill cefnogaeth drawsbleidiol. Rhaid inni beidio ag anghofio bod yr Undeb Ewropeaidd yn mynnu bod gan Gymru strategaeth ar waith i ddileu'r clefyd. Fodd bynnag, dros y 10 mlynedd diwethaf nid felly y bu, ac mae'r naill Lywodraeth ar ôl y llall yng Nghynulliad Cymru wedi dewis ysgubo'r mater o'r golwg, yn hytrach na gwneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol.

Drwy ganolbwyntio ar wartheg yn unig ers 1999, a gweithredu fel pe na bai'r haint ymysg bywyd gwyllt yn bodoli, mae nifer y gwartheg sydd wedi eu difa wedi codi 656 y cant, sy'n ffigur anferthol, ac mae'r bil iawndal wedi codi 1,319 y cant. Mae modd cadarnhau'r ffigurau hyn. Efallai ei bod yn anodd i rai dderbyn hyn, hyd yn oed yn awr, ond fel y dywedodd Syr David King, cyn brif ymgynghorydd gwyddonol Llywodraeth y DU,

mae moch daear, yn amlwg, yn ffynhonnell haint i wartheg. Mae lleihau dwyster moch daear yn yr ardaloedd hynny...lle y ceir lefel sylweddol o TB mewn gwartheg yn lleihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn yr un ardal.

Canfu arolwg y Llywodraeth ei hun o foch daear marw fod cynifer ag un mochyn daear o bob pedwar yng Ngwent a de Powys yn heintiedig, a'r haint ymhlith moch daear ar ei

hot spots. Only last November, a report on the proceedings of the Royal Society attributed as much as 75 per cent of cattle infection to the wildlife reservoir. Ignoring wildlife infection in the face of the evidence would be negligent, and let us put the myth to rest that vaccines will solve the problem; the simple fact is that there is no effective vaccine for cattle or badgers. Let us be practical about it. The Minister has referred to the role that a vaccine could play in the future, but rural Wales cannot afford to be kept paralysed with movement restrictions and herd breakdowns on the basis of something that may be available in two, five or 10 years' time. Action needs to be taken right now; more delay will simply add to the problem and increase the costs further down the line.

Let us be practical, cattle are taken out long before they begin to suffer from TB, thanks to the testing regime. The various welfare groups need to realise that, unfortunately, badgers are suffering, and, as any veterinarian will tell you, they suffer a slow and horrific death from this disease. That is why it is essential to look at the disease holistically, so that Wales can have a healthy wildlife and cattle population as soon as possible.

Minister, you have indicated the direction that you intend to take in eradicating this disease, but I would like to ask a few questions. How successful have your officials been in identifying areas with hard boundaries for the pilot area? Can you provide farmers with further details on the proposed changes to the compensation system for culled cattle? Will there be sufficient slaughter capacity for cattle, enough veterinarians to carry out the additional testing, and enough capacity to carry out the culls within the hot spots? What plans do you have to manage the hot-spot culling in the event—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Please wind up now.

**Brynle Williams:** I have almost finished.

uchaf mewn ardaloedd â phroblem TB. Fis Tachwedd diwethaf, priodolodd adroddiad ar drafodion y Gymdeithas Frenhinol gymaint â 75 y cant o'r haint mewn gwartheg i'r gronfa mewn bywyd gwyllt. Byddai anwybyddu'r haint mewn bywyd gwyllt yn wyneb y dystiolaeth yn esgeulus, a gadewch inni roi terfyn ar y myth y gwnaiff brechlynnau ddatrys y broblem; y gwir amdani yw nad oes brechlyn effeithiol i wartheg na moch daear. Gadewch inni fod yn ymarferol ynghylch hynny. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y rôl y gallai brechlyn ei chwarae yn y dyfodol, ond ni all y Gymru wledig fforddio cael ei pharlysu gan gyfyngiadau ar symud a buchesi'n cael eu heintio ar sail rhywbeth a allai fod ar gael ymhen dwy, pump neu 10 mlynedd. Mae angen gweithredu yn awr; ni wnaiff rhagor o oedi ond ychwanegu at y broblem a chynyddu'r costau yn ddiweddarach.

Gadewch inni fod yn ymarferol, caiff gwartheg eu difa ymhell cyn iddynt ddechrau dioddef yn sgîl TB, diolch i'r gyfundrefn brofi. Mae angen i'r gwahanol grwpiau lles sylweddoli bod moch daear, yn anffodus, yn dioddef, ac, fel y dywed unrhyw filfeddyg wrthych, maent yn dioddef marwolaeth araf ac erchyll o'r clefyd hwn. Dyna pam y mae'n hanfodol edrych ar y clefyd yn gyfannol, fel y gall Cymru gael poblogaeth iach o fywyd gwyllt a gwartheg cyn gytged ag sy'n bosibl.

Weinidog, yr ydych wedi datgan i ba gyfeiriad yr ydych yn bwriadu mynd i ddifa'r clefyd hwn, ond hoffwn ofyn rhai cwestiynau. Pa mor llwyddiannus fu eich swyddogion o ran canfod ardaloedd â therfynau caled ar gyfer yr ardal beilot? A allwch roi manylion pellach i ffermwyr am y newidiadau arfaethedig yn y system iawndal am wartheg a gaiff eu difa? A fydd capasiti digonol i ladd gwartheg, digon o filfeddygon i gynnal y profion ychwanegol, a digon o gapasiti i wneud y gwaith difa yn yr ardaloedd â phroblem TB? Pa gynlluniau sydd gennych i reoli'r difa mewn ardaloedd o'r fath pe ceid—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dylech ddirwyn i ben yn awr.

**Brynle Williams:** Yr wyf bron â gorffen

**The Deputy Presiding Officer:** I hope so, because you have gone over your five minutes.

**Brynle Williams:** What plans do you have to manage the hot-spot culling in the event of a bluetongue disease outbreak? There a few other questions, but finally may I—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Sorry, Brynle, I have a list of 14 other speakers.

**Lorraine Barrett:** In some ways this debate is academic after last week's statement, and a Government spokeswoman has been quoted as saying that, now that it has been given the go-ahead, officials can begin work on the exact details of the programme. I am content with much of the programme, as the Minister knows, but I want this opportunity, nonetheless, to set out why I think that a badger cull will be futile, cruel and not effective.

In the battle of the scientists—Sir David King versus Professor John Bourne—Bourne has stated that King's report was hastily written, superficial and selective. Given the amount of work done by the Independent Scientific Group—which was over 10 years' worth of research, costing anywhere between £35 million and £50 million and involving 11,000 dead badgers—and given that David King and his team only met for one full day and that he admitted that his remit did not extend to the economics or practicalities of badger culling, I know who my money is on.

In Northern Ireland—and you would expect me to say this, Minister—tighter cattle testing has halved the incidence of disease in three years. There was no badger culling but more robust data on individual cattle movements. I welcome the Minister's proposal to test all cattle, but I am disappointed that it is just a one-off for all cattle.

In the Republic of Ireland, the virtual

**Y Dirprwy Lywydd:** Gobeithio eich bod, oherwydd yr ydych wedi cael mwy na'r pum munud yr oeddech i fod i'w gael.

**Brynle Williams:** Pa gynlluniau sydd gennych i reoli'r difa mewn ardaloedd sydd â phroblem TB pe ceid achosion o glefyd y tafod glas? Mae rhai cwestiynau eraill, ond yn olaf a gaf—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, Brynle, mae gennyf restr o 14 o siaradwyr eraill.

**Lorraine Barrett:** Mewn rhai ffyrdd, rhywbeth academiaidd yw'r ddadl hon ar ôl y datganiad yr wythnos diwethaf, ac mae llefarydd ar ran y Llywodraeth wedi dweud, meddir, y gall y swyddogion ddechrau gweithio ar union fanylion y rhaglen, gan ei bod bellach wedi cael ei chymeradwyo. Yr wyf yn fodlon â llawer o'r rhaglen, fel y gŵyr y Gweinidog, ond yr wyf am gael y cyfle hwn, serch hynny, i ddatgan pam yr wyf yn credu y bydd difa moch daear yn ofer, yn greulon ac na fydd yn effeithiol.

Ym mrwydr y gwyddonwyr—Syr David King yn erbyn yr Athro John Bourne—mae Bourne wedi datgan i adroddiad King gael ei ysgrifennu ar frys, a'i fod yn arwynebol a detholus. O ystyried faint o waith a wnaethpwyd gan y Grŵp Gwyddonol Annibynnol—sef dros 10 mlynedd o ymchwil, yn costio rhwng £35 miliwn a £50 miliwn ac yn cynnwys 11,000 o foch daear marw—a chan ystyried na chyfarfu David King a'i dîm ef ond am un diwrnod llawn ac iddo gyfaddef nad oedd ei gylch gwaith yn ymwneud dim ag economeg nac ystyriaethau ymarferol difa moch daear, gwn ar bwy y mae fy arian i.

Yng Ngogledd Iwerddon—a byddech yn disgwyl i mi ddweud hyn, Weinidog—mae profi llymach ar wartheg wedi haneru nifer yr achosion o'r clefyd mewn tair blynedd. Ni fu dim difa moch daear ond cadwyd data mwy trylwyr am symudiadau gwartheg unigol. Yr wyf yn croesawu cynnig y Gweinidog i brofi'r gwartheg i gyd, ond yr wyf yn siomedig mai unwaith yn unig y gwneir hynny i bob anifail.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae moch

extermination of the badger has failed to control the disease and, after five years, from the information that I have read, the number of TB reactors remains about the same. Professor Bourne, chair of the Independent Scientific Group, said that in order for a badger cull to have any impact, you would have to kill 90 per cent of badgers in the defined area. A gentleman quoted this week in the *Daily Post* said that this is not about the wholesale killing of badgers and that that is propaganda. I have news for him: nothing short of a wholesale killing will have any effect, and that was proved by the 10-year Krebs trial.

The Minister proposes to cull badgers over an area of around—I would guess—300 sq km, because using a smaller area would prove ineffective due to the perturbation effect of badgers moving away, which she mentioned. Professor Bourne also said that the gain would be modest in terms of bovine TB and that culling would have to be done simultaneously with experienced marksmen, otherwise the badgers will just move around. Where will the Minister find enough suitably qualified people to deal with the eradication of badgers in this pilot controlled area? How much will it cost to lay traps continuously across such a huge area, for, I would guess, at least five years? If traps are used, how often will they be checked—daily, weekly or monthly? What about other animals? We talk about badgers, but foxes, rabbits and dogs can get caught in the traps too.

4.20 p.m.

In *The Sunday Times*, a farmer in Carmarthenshire, probably one of the areas targeted, offered advice to the Minister and her culling team. He said that the badgers should not be trapped because they get distressed and their fellow badgers will run off in fear. He suggested snaring and shooting. I am sure that the badgers feel better for that suggestion. How long will they be left in agony, caught in a snare? Will these trappers be on patrol every day, 365 days a year?

daear wedi cael eu difodi i bob diben ond nid yw hynny wedi rheoli'r clefyd ac, ar ôl pum mlynedd, yn ôl y wybodaeth yr wyf wedi'i darllen, tua'r un faint o adweithyddion TB sydd. Dywedodd yr Athro Bourne, cadeirydd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol, y byddai'n rhaid ichi ddifa 90 y cant o'r moch daear yn yr ardal ddiffiniedig er mwyn i gynllun difa gael unrhyw effaith. Dywedodd gŵr bonheddig a ddyfynnwyd yn y *Daily Post* yr wythnos hon nad mater o ladd moch daear yn ddiwahân yw hyn ac mai propoganda yw hynny. Mae gennyf newyddion iddo: ni chaiff dim llai na lladd diwahân effaith o gwbl, a chafodd hynny ei brofi gan dreial 10 mlynedd Krebs.

Mae'r Gweinidog yn bwriadu difa moch daear dros ardal o tua 300 km sgwâr, byddwn yn dyfalu, gan y byddai ardal lai yn aneffeithiol oherwydd effaith aflonyddu wrth i foch daear symud oddi yno, fel y crybwyllodd. Dywedodd yr Athro Bourne hefyd mai cymedrol fyddai'r enillion o safbwynt TB mewn gwartheg ac y byddai'n rhaid i'r difa gael ei wneud yr un pryd gan saethwyr profiadol, neu fel arall bydd y moch daear yn symud o gwmpas. Ble y bydd y Gweinidog yn canfod digon o bobl â chymwysterau addas i ddelio â difa moch daear yn yr ardal beilot hon a reolir? Faint y bydd gosod trapiau'n barhaus dros ardal mor enfawr, am o leiaf bum mlynedd, byddwn yn tybio, yn ei gostio? Os defnyddir trapiau, pa mor aml y byddant yn cael eu harchwilio—yn ddyddiol, yn wythnosol, ynteu'n fisol? Beth am anifeiliaid eraill? Yr ydym yn siarad am foch daear, ond gall llwynogod, cwingod a chŵn gael eu dal yn y trapiau hefyd.

Yn *The Sunday Times*, cynigiodd ffermwr o sir Gaerfyrddin, un o'r ardaloedd i'w thargedu yn ôl pob tebyg, gyngor i'r Gweinidog a'i thim difa. Dywedodd na ddylai'r moch daear gael eu trapio gan eu bod yn cynhyrfu ac y bydd y moch daear eraill yn rhedeg i ffwrdd am y bydd arnynt ofn. YR oedd yn awgrymu maglu a saethu. Yr wyf yn siŵr bod y moch daear yn teimlo'n well o glywed yr awgrym hwnnw. Am ba hyd y byddant yn cael eu gadael mewn poen, wedi'u dal mewn magl? A fydd y trapwyr hyn ar batrôl bob dydd, 365 diwrnod y

flwyddyn?

In the Republic of Ireland, 6,000 snares a night were laid in a killing frenzy that virtually exterminated the badger population in the four trial areas. The Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals says that, despite its large geographical coverage, badger setts in Thornbury had to be re-gassed on 515 occasions during the seven years of that trial. Therefore, whether it is gassing, trapping or snaring, it has to be done continually to prevent the badgers from moving outside the boundaries.

Therefore, killing all these badgers will not be easy, and many of them will be healthy. In the Government's badger found dead survey, which Brynle Williams mentioned, of the 457 badgers that could be tested, only 61 were found to be infected. Of the 11,000 badgers killed in the Krebs trial, only 1,500 tested positive; all the rest were healthy.

We are already seeing the backlash, as expected, from the public throughout Wales, the UK and the world. I hate blogs, but they are full of objections to a cull. Many are talking about boycotting Wales and or its produce. This story has made the UK's newspapers, if not the world's, for the past week, and I feel that it is for the wrong reasons.

I have a few questions. Why was a cull not discussed by or mentioned to the animal health and welfare strategy steering group, Minister? You have mentioned the TB eradication board. Can you assure me that representatives from welfare groups will be on that board and on the technical advisory board?

In closing, the Minister's proposals for a badger cull—but not the rest of her proposals—are ill thought out, will do more harm than good, will cost us far more than we can afford and will cause that huge backlash from the mass population. I think that the Minister has got it wrong and it is no surprise that I will not vote for the Government's motion today.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, gosodwyd 6,000 o faglau y noson mewn hwrdd o ladd a ddifododd boblogaeth y moch daear i bob diben yn y pedair ardal dreial. Dywed y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, er gwaethaf ei gwmpas daearyddol eang, fod brochfeydd moch daear yn Thornbury wedi gorfod cael eu hailwenwyno â nwy 515 o weithiau yn ystod saith mlynedd y treial hwnnw. Felly, pa un a yw'n wenwyno â nwy, yn drapio neu'n faglu, rhaid ei wneud yn barhaus i atal y moch daear rhag symud y tu allan i'r terfynau.

Felly, ni fydd lladd yr holl foch daear hyn yn hawdd, a bydd llawer ohonynt yn iach. Yn arolwg y Llywodraeth o foch daear a ganfuwyd yn farw, y cyfeiriodd Brynle Williams ato, o'r 457 o foch daear y gellid eu profi, dim ond 61 a oedd wedi'u heintio. O'r 11,000 o foch daear a laddwyd yn nhrefial Krebs, dim ond 1,500 a roddodd brawf positif; yr oedd y lleill i gyd yn iach.

Yr ydym eisoes yn gweld yr adlach, fel y disgwyliid, gan y cyhoedd ledled Cymru, y DU a'r byd. Mae'n gas gennyf flogiau, ond maent yn llawn gwrthwynebiadau i ddifa moch daear. Mae llawer yn sôn am foicotio Cymru a neu ei chynnyrch. Mae'r stori hon wedi ymddangos ym mhapurau newydd y DU, os nad y byd, dros yr wythnos diwethaf, a theimlaf fod hynny am y rhesymau anghywir.

Mae gennyf rai cwestiynau. Pam na thrafodwyd difa gan grŵp llywio'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid neu na soniwyd wrtho amdano, Weinidog? Yr ydych wedi crybwyll y bwrdd dileu TB. A allwch fy sicrhau y bydd cynrychiolwyr o grwpiau lles ar y bwrdd hwnnw ac ar y bwrdd cynghori technegol?

I gloi, nid oes ôl meddwl trylwyr ar gynigion y Gweinidog i ddifa moch daear—er nad yw hynny'n wir am weddill ei chynigion—byddant yn gwneud mwy o niwed nag o les, byddant yn costio llawer mwy nag y gallwn ei fforddio a byddant yn peri'r adlach enfawr hwnnw o du'r boblogaeth yn gyffredinol. Credaf fod y Gweinidog wedi mynd ar gyfeiliorn ac nid yw'n syndod na fyddaf yn

pleidleisio dros gynnig y Llywodraeth heddiw.

**The Deputy Presiding Officer:** I request that Members stay within their allotted five minutes because I have a long list of contributors and I want to try to include everyone.

**Mick Bates:** There are already things that I have admired in this debate. First is the courage of our Minister to take the lead on such a deeply emotive issue and to put Wales at the forefront of eradicating this highly infectious disease. Each Member who has stood up to defend his or her position has done so with integrity. It is in that mood, namely with respect for one another and with dignity, that we should continue this debate, which will go on for some time, to demonstrate that, in Wales, we can resolve this controversial issue by remembering that, at the heart of the debate, is the need to stop the spread of this disease, which will ultimately damage our strategic ability to produce food in Wales. That is particularly true in the light of increasing food prices and riots that are already taking place in certain parts of the world due to food shortages.

I hope that we have already started to understand one another's views and that our colleagues in Westminster will do the same and reach the same conclusions as our Minister has reached, because if our colleagues in Westminster do not enforce similar measures, then all of this useful work would be undone, because those of us who live in border areas are well aware that disease does not respect national boundaries.

In 2004, the second Assembly's Environment, Planning and Countryside Committee demanded that the Government take a holistic approach to tackling TB and diseased wildlife. Since then, we have seen an increase in cattle-based measures, with more pressure on biosecurity and testing. The result is that thousands of cattle continue to be slaughtered each year. The rate of infection rises at 18 per cent per annum. According to Department for Environment, Food and Rural Affairs figures, if this trend continues, we will be slaughtering 66,000

**Y Dirprwy Lywydd:** Gofynnaf i'r Aelodau gadw o fewn y pum munud sydd wedi'u neilltuo iddynt oherwydd y mae gennyf restr hir o gyfranwyr ac yr wyf am geisio cynnwys pawb.

**Mick Bates:** Mae rhai pethau eisoes yr wyf wedi eu hedmygu yn y ddadl hon. Yn gyntaf, mae gwroldeb ein Gweinidog yn arwain ar fater mor eithriadol o emosiynol ac yn rhoi Cymru ar flaen y gad yn yr ymdrech i ddileu'r clefyd hynod heintus hwn. Mae pob Aelod sydd wedi sefyll i amddiffyn ei safbwynt ef neu hi wedi gwneud hynny yn ddidwyll. Yn yr ysbryd hwnnw, sef gyda pharch at ein gilydd a chydag urddas, y dylem barhau â'r ddadl hon, a fydd yn para am gryn amser, i ddangos y gallwn ni, yng Nghymru, ddatrys y mater dadleuol hwn drwy gofio mai'r hyn sydd wrth wraidd y ddadl yw'r angen i atal lledaeniad y clefyd hwn, a fydd yn y pen draw yn gwneud drwg i'n gallu strategol i gynhyrchu bwyd yng Nghymru. Mae hynny'n arbennig o wir yng ngoleuni'r cynnydd ym mhrisiau bwyd a'r terfysgoedd sy'n digwydd eisoes mewn rhai rhannau o'r byd oherwydd prinder bwyd.

Gobeithiaf ein bod eisoes wedi dechrau deall barn ein gilydd ac y gwnaiff ein cyd-aelodau yn San Steffan yr un fath a chyrraedd yr un casgliadau ag y daeth ein Gweinidog iddynt, oherwydd os na wnaiff ein cyd-aelodau yn San Steffan orfodi mesurau tebyg, gallai'r holl waith buddiol hwn gael ei ddadwneud, oherwydd y mae'r rhai ohonom sy'n byw yn ardaloedd y gororau yn ymwybodol iawn nad yw clefydau'n parchu ffiniau cenedlaethol.

Yn 2004, mynnodd Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yr ail Gynulliad fod y Llywodraeth yn bwrw iddi mewn dull cyfannol i fynd i'r afael â TB a bywyd gwyllt sydd wedi'i heintio. Ers hynny, yr ydym wedi gweld cynnydd yn y mesurau sy'n canolbwyntio ar wartheg, gyda mwy o bwysau ar fioggiogelwch a phrofi. Y canlyniad yw bod miloedd o wartheg yn dal i gael eu lladd bob blwyddyn. Mae'r gyfradd heintio yn codi 18 y cant y flwyddyn. Yn ôl Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, os bydd y duedd hon yn parhau,

cattle in a couple of years' time. Surely those figures demand that something changes, and that is why I thank Alun Davies, the chair of the Rural Development Sub-Committee and members of that committee, who recognised that doing the same old thing is not good enough, and that it is time for a change. That change was in the sub-committee's recommendations, and I welcome, as do many other Members, I am sure, those as a precursor to the Minister's announcement. I applaud and support the Assembly Government for making this considered move towards controlling and eradicating TB across Wales.

All sources of disease must be addressed. Badgers are a proven source of TB infection, and the Independent Scientific Group on Cattle TB does not deny that. It is only by tackling the reservoir of infection in wildlife that the disease will be fully eradicated. Therefore, the recommendation for a pilot area in Wales—a hot spot—is necessary to prove the case. Remember that, in 1980, culling badgers was employed as a method of controlling TB and, in 1986, fewer than 100 herds were under restriction and only 686 cattle were slaughtered because of the disease. Compare that with last year, when people were prepared to accept the slaughter of 23,000 cattle, 8,000 of which were in Wales, and no culling of badgers.

Sir David King concluded that the removal of badgers is the best option at the moment to reduce the reservoir of infection in wildlife, but, in the longer term, an alternative or additional means of controlling badgers, such as vaccination, may become available, and research should continue. That is why an integrated approach is so important.

The Welsh Assembly Government's badger found dead survey revealed that 13 per cent of badgers across Wales were infected, compared with only 0.57 per cent of cattle infected with TB in Wales.

In terms of the farmers and their families, 20

byddwn yn lladd 66,000 o wartheg ymhen rhyw ddwy flynedd. Siawns nad yw'r ffigurau hynny'n peri bod rhaid i rywbeth newid, a dyna pam yr wyf yn diolch i Alun Davies, cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, ac aelodau'r pwyllgor hwnnw, sy'n cydnabod nad yw gwneud yr un hen beth yn ddigon da, a'i bod yn bryd cael newid. Yr oedd y newid hwnnw yn argymhellion yr is-bwyllgor, ac yr wyf fi, fel llawer o Aelodau eraill, yr wyf yn siŵr, yn croesawu'r argymhellion hynny fel rhagflaenydd i gyhoeddiad y Gweinidog. Yr wyf yn cymeradwyo ac yn cefnogi Llywodraeth y Cynulliad wrth iddi gymryd y cam hwn, ar ôl ystyried, tuag at reoli a dileu TB ledled Cymru.

Rhaid ymdrin â phob ffynhonnell o'r clefyd. Mae moch daear yn ffynhonnell sydd wedi'i phrofi o haint TB, ac nid yw'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg yn gwadu hynny. Dim ond drwy fynd i'r afael â'r gronfa o haint mewn bywyd gwyllt y caiff y clefyd ei ddileu'n llwyr. Felly, mae'r argymhelliad ar gyfer ardal beilot yng Nghymru—ardal sydd â phroblem—yn angenrheidiol i brofi'r achos. Cofiwch fod difa moch daear, yn 1980, yn cael ei ddefnyddio fel dull o reoli TB ac, yn 1986, yr oedd llai na 100 o fuchesi o dan gyfyngiadau a dim ond 686 o wartheg a laddwyd oherwydd y clefyd. Cymharwch hynny â'r llynedd, pan oedd pobl yn barod i dderbyn lladd 23,000 o wartheg, 8,000 ohonynt yng Nghymru, a dim difa ar foch daear.

Daeth Syr David King i'r casgliad mai cael gwared â moch daear yw'r opsiwn gorau ar hyn o bryd i leihau'r gronfa o haint mewn bywyd gwyllt, ond, yn y tymor hwy, efallai y daw dull amgen neu ychwanegol o reoli moch daear, megis brechu, a dylai'r ymchwil barhau. Dyna pam y mae dull integredig o weithredu mor bwysig.

Dangosodd arolwg Llywodraeth Cynulliad Cymru o foch daear a ganfuwyd yn farw fod 13 y cant o foch daear ar draws Cymru wedi'u heintio, o'i gymharu â dim ond 0.57 y cant o wartheg wedi'u heintio â TB yng Nghymru.

O ran ffermwyr a'u teuluoedd, yr oedd 20 y

per cent of the calls that Exeter University received while carrying out a study in 2005 were calls reflecting stress and anxiety caused by having TB on farms.

Tightening biosecurity and having stricter control on compensation and quicker removal will help. Spending £15 million on culling cattle is a waste of money. We should spend it on locally-sourced food, promoting farming and farmers' markets, less intensive farming methods, diversification and sustainable farming enterprises. That is the way to spend the money, and not slaughtering cattle.

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf am ddechrau fy nghyfraniad lle y gorffennodd Mick drwy sôn am y cynnydd aruthrol a fu yn niferoedd y gwartheg sy'n dioddef o'r diciâu ers canol y 1990au. Mae'r graff yn syfrdanol, ac mae'r costau hefyd yn cynyddu mewn ffordd nad yw'n gynaliadwy. Yng nghanol hyn oll, mae dioddefaint anifeiliaid a cholli anifeiliaid; rhaid inni wneud rhywbeth gwahanol a hynny ar fyrder. Yn y cyd-destun hwnnw y dylem ystyried penderfyniad y Gweinidog.

Mae peth dadlau am y dystiolaeth wyddonol, ond mae'r Cynulliad wedi cynnal dau ymchwiliad, ac mae'r mwyafrif llethol o'r arbenigwyr a roddodd dystiolaeth i'r ddau ymchwiliad yn cydnabod y cysylltiad rhwng presenoldeb TB mewn gwartheg a TB mewn bywyd gwyllt. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod nad oes cytundeb rhwng yr arbenigwyr hynny ar yr hyn y dylid ei wneud.

Dangosodd erthygl hynod gytbwys yn *The Independent*, y cyfeiriodd Elin Jones ato, fod amrywiaeth barn ymhlith arbenigwyr gwyddonol ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r clefyd hwn. Dyna pam yr wyf yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog, sy'n ceisio mynd i'r afael ag ef ar sawl lefel. Heb wneud hynny, ofer fydd ein hymdrechion.

4.30 p.m.

I'r sawl ohonom sy'n canolbwyntio ar un agwedd yn unig ar y cynllun—sef yr angen i ddifa anifeiliaid gwyllt sydd yn cludo'r clwyf neu sydd â'r potensial i wneud hynny—dywedaf hyn. Os ydych yn erbyn lladd unrhyw anifail, mae hwnnw'n safbwynt

cant o'r galwadau a gafodd Prifysgol Caerwysg tra oedd yn cynnal astudiaeth yn 2005 yn alwadau a adlewyrchai'r straen a'r pryder a achosir drwy gael TB ar ffermydd.

Bydd tynhau bioddiogelwch a chael rheolaeth lymach ar iawndal a mynd â gwartheg oddi ar ffermydd yn gyflymach yn help. Mae gwario £15 miliwn ar ddifa gwartheg yn wastraff ar arian. Dylem ei wario ar fwyd o ffynonellau lleol, gan hyrwyddo ffermio a marchnadoedd ffermwyr, dulliau ffermio llai dwys, arallgyfeirio a mentrau ffermio cynaliadwy. Dyna'r ffordd i wario'r arian, nid lladd gwartheg.

**Alun Ffred Jones:** I wish to start my contribution where Mick left off by mentioning the massive increase in the number of cattle suffering from TB since the mid 1990s. The graph is striking, and the costs are also increasing in a way that is not sustainable. In the middle of all that is the suffering of animals and the loss of animals; we must do something differently as a matter of urgency. It is in that context that we should consider the Minister's decision.

There is some debate about the scientific evidence, but the Assembly has undertaken two inquiries, and the vast majority of the experts who gave evidence to the two inquiries acknowledged the link between the presence of TB in cattle and TB in wildlife. However, I concede that there is no agreement between those experts on what should be done about it.

*The Independent* published a very balanced article, and Elin Jones referred to it, which revealed the difference of opinion among scientific experts about the best way to tackle this disease. That is why I welcome the Minister's announcement, which aims to tackle it on many levels. Unless we do that, our efforts will be in vain.

To those among us who are focusing on one aspect only of the scheme—namely the need to cull wildlife that carry the disease, or that have the potential to do that—I say this. If you oppose the killing of any animal, that is a highly honourable stance, but, if so, you



anrhydeddus iawn, ond, os felly, dylech ddweud hynny'n glir yn hytrach na dyfynnu tystiolaeth yn ddewisol er mwyn gwarchod un math o anifail. Wedi'r cwbl, a yw lladd buwch neu lo yn fwy derbyniol na lladd mochyn daear neu unrhyw anifail arall?

Mae grŵp arall o bobl sydd am warchod un math o anifail, doed a ddêl. Mae hynny'n anrhydeddus hefyd, ond os dyna eich safbwynt, dywedwch hynny'n glir yn hytrach na chymryd arnoch mai ar sail y wyddoniaeth yr ydych yn gwrthwynebu'r ymgyrch i ddifa bywyd gwyllt a allai gario'r diciâu. Nid wyf am ymhelaethu ar hynny oherwydd credaf fod y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymchwiliad y pwyllgor, datganiad cynhwysfawr y Gweinidog, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y prif swyddog milfeddygol oll wedi fy argyhoeddi bod angen i ni wneud rhywbeth i daclo'r clwyf hwn er lles anifeiliaid a'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru, a hynny ar fyrder.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to contribute to this debate, and I congratulate the Minister and the Government on their ambition to eradicate TB. It may be odd to hear that coming from the opposition benches, but I feel that there has been too much prevarication over the years, and, as a farmer, I have seen the dramatic effects of the escalation of bovine TB in the countryside on wildlife and farmed animals, as well as its emotional impact on the farming and countryside communities at large.

I commend the Minister's ambition in using the term 'eradication' in the motion, because it would have been easy for her to use the term 'containment'. By going forward with the proposal to eradicate TB, the Minister must be confident that she has the tools at her disposal to do the job.

Today feels almost like 'Groundhog Day' in that we have already had a report, a debate in the Chamber and a statement on bovine TB, and now we have this full-blown debate, so many of the arguments presented were well versed. However, they must be respected in the Chamber by all parties, because this is a sensitive and emotional subject.

should state that clearly rather than cite evidence selectively in order to protect one type of animal. After all, is it more acceptable to slaughter a cow or a calf than a badger or any other animal?

There is another group of people that wishes to protect one type of animal, come what may. That is also honourable, but if that is your position, you should state that clearly rather than trying to give the impression that it is on the basis of the science that you oppose the campaign to cull wildlife that may carry TB. I will not elaborate, as I believe that the evidence gathered during the committee's inquiry, the Minister's comprehensive statement, and the evidence submitted by the chief veterinary officer have convinced me of the need to do something to tackle this disease as a matter of urgency, for the wellbeing of animals and the agriculture industry in Wales.

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon, ac yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog a'r Llywodraeth am eu huchelgais i ddileu TB. Efallai ei bod yn rhyfedd clywed hynny o du meinciau'r gwrthbleidiau, ond credaf fod gormod o anwiredd wedi bod dros y blynyddoedd, ac, fel ffermwr, yr wyf wedi gweld yr effeithiau dramatig y mae cynnydd mewn TB mewn gwartheg yng nghefn gwlad yn eu cael ar fywyd gwyllt ac ar anifeiliaid a ffermir, yn ogystal â'i effaith emosiynol ar y cymunedau ffermio a chefn gwlad yn gyffredinol.

Yr wyf yn canmol uchelgais y Gweinidog yn defnyddio'r gair 'dileu' yn y cynnig, oherwydd byddai wedi bod yn hawdd iddi ddefnyddio'r gair 'rheoli'. Drwy fwrw ymlaen â'r cynnig i ddileu TB, rhaid bod y Gweinidog yn hyderus bod yr arfau ganddi at ei galw i wneud y gwaith.

Mae heddiw'n teimlo fel 'Groundhog Day' bron, gan ein bod eisoes wedi cael adroddiad, dadl yn y Siambr a datganiad ynghylch TB mewn gwartheg, ac yn awr yr ydym yn cael y ddadl lawn hon, felly yr oedd llawer o'r dadleuon a gyflwynwyd yn rhai cyfarwydd. Fodd bynnag, rhaid i bob plaid yn y Siambr eu parchu, gan fod hwn yn bwnc sensitif ac emosiynol.

I was among those who attended the Rural Development Sub-committee's meeting in Northern Ireland recently and, having listened to the arguments in Northern Ireland and about how they tackled bovine TB—they talked of capacity and the infrastructure set up by the Government to test animals and record their details—it was clear to me that the infrastructure put in place to deal with the problem was comprehensive. What worries me to a degree is whether we have that capacity in Wales, especially given the threat of bluetongue hanging over us—although we all hope that the vaccine programme that will be unfolding this summer will allow some normalisation of livestock farming in Wales. I hope that the Minister will use this opportunity to reassure Members that, before we set out to eradicate TB, officials and the industry have given her the confidence to go forward, knowing that we have the large animal practices in place.

The Liberal Democrats led a debate last week on broadband connection, and the ability to use the internet across Wales is important. When we discussed on-farm inspections in Northern Ireland, live transmission was a critical component. It was important for the veterinarian and the inspector to be able to access data at the point of testing and to upload the information. We heard in last week's debate that there are many blackspots in Wales, mostly in rural communities, which will prohibit the use of that IT technology to test animals on-farm.

I am also worried about the help that you will get from the Department for Environment, Food and Rural Affairs, Minister. In reply to the business statement today, I voiced my concern regarding DEFRA pulling the plug on Food from Britain, which has the noble cause of promoting the consumption of British food across the world. Without much reference to your good self or to any other devolved administration, as far as I can see, DEFRA has pulled the plug on that body solely because of its own budgetary constraints. I hope that it has given you the assurance that you will have its unconditional

Yr oeddwn ymhlith y rhai a fynychodd gyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon yn ddiweddar ac, ar ôl gwranddo ar y dadleuon yng Ngogledd Iwerddon a sut yr aethant i'r afael â TB mewn gwartheg—yr oeddent yn sôn am gapasiti a'r seilwaith a sefydlwyd gan y Llywodraeth i brofi anifeiliaid a chofnodi eu manylion—yr oedd yn amlwg i mi fod y seilwaith a sefydlwyd i ddelio â'r broblem yn gynhwysfawr. Yr hyn sy'n fy mhoeni, i raddau, yw a yw'r capasiti hwnnw gennym yng Nghymru, yn enwedig yn wyneb bygythiad y tafod glas—er ein bod oll yn gobeithio y bydd y rhaglen frechu a fydd yn dechrau yn yr haf yn caniatáu normaleiddio rhywfaint ar ffermio da byw yng Nghymru. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn defnyddio'r cyfle hwn i dawelu meddyliau Aelodau, cyn inni fynd ati i ddileu TB, fod swyddogion a'r diwydiant wedi rhoi'r hyder iddi symud ymlaen, gan wybod bod y practisau anifeiliaid mawr yn barod gennym.

Cynhaliodd y Democratiaid Rhyddfrydol ddadl yr wythnos diwethaf am gyswllt band eang, ac mae gallu defnyddio'r we ledled Cymru'n bwysig. Wrth drafod archwiliadau ar y fferm yng Ngogledd Iwerddon, yr oedd trosglwyddo gwybodaeth yn y fan a'r lle yn elfen hollbwysig. Yr oedd yn bwysig bod y milfeddyg a'r arolygydd yn gallu cael data yn y man lle'r oedd yn profi, a llwytho'r wybodaeth i fyny. Clywsom yn y ddadl yr wythnos diwethaf fod llawer o fannau gwan yng Nghymru, mewn cymunedau gwledig yn bennaf, a fydd yn peri na fydd yn bosibl defnyddio'r dechnoleg TG honno i brofi anifeiliaid ar y fferm.

Yr wyf yn bryderus hefyd ynghylch y cymorth a gewch gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Weinidog. Wrth ateb y datganiad busnes heddiw, mynegais fy mhryder bod DEFRA wedi rhoi terfyn ar Fwyd o Brydain, sydd â'r genadwri glodwiw o hyrwyddo bwyta bwyd o Brydain ledled y byd. Heb fawr ymgynghori â chi na dim un weinyddiaeth ddatganoledig arall, hyd y gwelaf, mae DEFRA wedi rhoi terfyn ar y corff hwnnw oherwydd ei gyfyngiadau cyllidebol ei hun yn unig. Gobeithio ei fod wedi rhoi'r sicrwydd ichi y cewch gefnogaeth

support—and resources—when you seek its co-operation on the measures that you are taking forward. Given all the evidence gathering and all the momentum behind what we are trying to achieve, it would be a tragedy if, halfway through this programme to eradicate TB from the bovine herd and from wildlife, people's will and stamina were sapped through a lack of resources.

We are all seeking a healthy wildlife population and a healthy farm-animal population. This is not about trying to set one sector of the community against the other. I hope that everyone will appreciate that, by the measures the Government will take, hopefully with the support of the Assembly, we will see the return of a healthy countryside and agricultural industry.

What I found particularly relevant when I visited the Committee for Agriculture and Rural Development at the Northern Ireland Assembly was the very point that Alun Ffred made, which had been put to one of the committee's witnesses. How can you discriminate in that way, by killing one animal infected with bovine TB and not another? There was no answer from that witness. I fail to see how you can reconcile the inaction of previous years with allowing bovine TB to spread throughout the countryside. We must tackle this problem, and I commend you, Minister, for taking the initiative as soon as you took office. However, please could you use your response to the debate to assure us that you have the tools at your disposal for the next three years? It would be a betrayal of the rural community and of all partners if, halfway down the road, we find ourselves left high and dry in some cul-de-sac.

**Trish Law:** Scientists are a bit like politicians: you can get them to disagree about anything. It is certainly true to say that expert opinion is divided on the link between badgers and TB in cattle. Of course, the Independent Scientific Group on Cattle TB carried out specific research on the effects of badger culling on TB in cattle on behalf of

ddiamwys—ac adnoddau—ganddo pan fyddwch yn ceisio cael cydweithrediad ganddo ynglŷn â'r mesurau yr ydych yn eu gweithredu. O ystyried yr holl gasglu tystiolaeth a'r holl fomentwm y tu ôl i'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni, byddai'n drasiedi, hanner ffordd drwy'r rhaglen hon i ddileu TB mewn gwartheg ac mewn bywyd gwyllt, petai ewyllys a nerth pobl yn cael eu gwanhau oherwydd diffyg adnoddau.

Mae pob un ohonom yn chwilio am boblogaeth bywyd gwyllt iach a phoblogaeth anifeiliaid fferm iach. Nid yw hyn yn ymwneud â cheisio gosod un sector o'r gymuned yn erbyn y llall. Gobeithio y bydd pawb yn sylweddoli y byddwn, gyda'r mesurau a gymer y Llywodraeth, gyda chefnogaeth y Cynulliad gobeithio, yn gweld cefn gwlad a diwydiant amaethyddol iach yn dychwelyd.

Yr hyn a oedd yn arbennig o berthnasol i mi pan ymwelais â'r Pwyllgor dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon oedd yr union bwynt a wnaethpwyd gan Alun Ffred, a oedd wedi cael ei ofyn i un o dystion y pwyllgor. Sut y gallwch wahaniaethu fel hynny, drwy ladd un anifail sydd wedi'i heintio â TB mewn gwartheg ac nid un arall? Ni chafwyd dim ateb gan y tyst hwnnw. Ni allaf weld sut y gallwch gysoni'r diffyg gweithredu mewn blynyddoedd blaenorol â chaniatáu i TB mewn gwartheg ymledu ledled cefn gwlad. Rhaid inni fynd i'r afael â'r broblem hon, ac yr wyf yn eich canmol, Weinidog, am gymryd yr awenau cyn gynted ag y cymerasoch y swydd. Fodd bynnag, a allech ddefnyddio eich ymateb i'r ddatl i'n sicrhau bod yr arfau gennych at eich galw dros y tair blynedd nesaf? Byddai'n bradychu'r gymuned wledig a'r holl bartneriaid petaem, hanner ffordd i lawr y lôn, yn canfod ein hunain wedi'n gadael yn ddiymadferth mewn rhyw heol hosan.

**Trish Law:** Mae gwyddonwyr yn debyg i wleidyddion braidd: gallwch eu cael i anghytuno ynghylch unrhyw beth. Mae'n sicr yn wir dweud bod barn arbenigwyr yn rhanedig ynghylch y cyswllt rhwng moch daear a TB mewn gwartheg. Wrth gwrs, cynhaliodd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg ymchwil benodol

the UK Government. This was not a rapid response study; it took the ISG eight years to complete its work at a cost of £34 million. The research involved badger culls in specific areas. Some 11,000 dead badgers later and the ISG came to the conclusion that:

‘Badger culling can make no meaningful contribution to cattle TB control in Britain’.

I suggest that such a thorough and intensive piece of scientific research should not be confined to the waste bin. Ignore it at your peril and, indeed, at your cost—or, should I say, at an enormous cost to the taxpayer? I suspect that the extra £27 million over the next three years announced by the Minister in her statement a week ago today will not even scratch the surface of the problem. If the ISG is right, we will be throwing good money after bad for a long time to come after that.

However, there are conflicting opinions about the link between badgers and TB in cattle. At best, the evidence that suggests that there is a link is inconclusive. When you have no conclusive evidence, should you not err on the side of caution, especially when so much is at stake financially and in respect of the political and public acceptability of such large-scale slaughter? I agree with everything that Lorraine had to say, not least her highlighting the evidence from past culling trials that killing off what remains a protected species in Wales will simply prompt the badger population to move to new areas and maybe spread the disease.

I would never suggest that badgers are a scapegoat for poor farming practice, but I was pleased to hear the Minister say that she wanted to reform the compensation regime to encourage herd owners to follow best practice, and to hear her refer to the abuse of the TB compensation system as highlighted by the report of the National Audit Office in 2003. I was also pleased to hear that there is no single solution to eradicating bovine TB,

ynghylch effeithiau difa moch daear ar TB mewn gwartheg ar ran Llywodraeth y DU. Nid astudiaeth ymateb cyflym oedd hon; cymerodd wyth mlynedd i'r ISG gyflawni ei waith, a'r gost yn £34 miliwn. Yr oedd yr ymchwil yn ymwneud â difa moch daear mewn ardaloedd penodol. Wedi i 11,000 o foch daear farw yn sgîl hynny, daeth yr ISG i'r casgliad:

Ni all difa moch daear wneud dim cyfraniad ystyrlon at reoli TB mewn gwartheg ym Mhrydain.

Awgrymaf na ddylai ymchwil wyddonol mor drylwyr a dwys gael ei thafu i'r bin sbwriel. Gwae chi o'i hanwybyddu, a gwae'r gost—neu a ddylwn ddweud, y gost aruthrol i'r trethdalwr? Tybiaf na fydd y £27 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn ei datganiad wythnos i heddiw hyd yn oed yn crafu wyneb y broblem. Os yw'r ISG yn gywir, byddwn yn gwario'n ofer am amser maith wedi hynny.

Fodd bynnag, mae gwahaniaeth barn ynghylch y cysylltiad rhwng moch daear a TB mewn gwartheg. Ar y gorau, mae'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod cysylltiad yn amhendant. Heb dystiolaeth bendant, oni ddylech fod yn ofalus iawn, yn enwedig gan fod cymaint yn y fantol yn ariannol ac o ran pa mor dderbiniol yw difa ar raddfa mor helaeth o safbwynt gwleidyddol ac o safbwynt y cyhoedd? Cytunaf â phopeth a oedd gan Lorraine i'w ddweud, yn enwedig ei phwyslais ar dystiolaeth o dreialon difa blaenorol mai unig ganlyniad lladd yr hyn sy'n parhau'n rhywogaeth a warchodir yng Nghymru yw sbarduno moch daear i symud i ardaloedd newydd ac, o bosibl, lledaenu'r clefyd.

Ni feiddiwn awgrymu bod moch daear yn fwrch dihangol ar gyfer arferion ffermio gwael, ond yr oeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud bod arni eisiau diwygio'r system iawndal i annog perchenogion buchesi i ddilyn arferion gorau, a'i chlywed yn cyfeirio at gamddefnyddio'r system iawndal TB fel y pwysleisiwyd yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2003. Yr oeddwn yn falch

and I welcome moves to carry out tests on all cattle herds in Wales to determine the extent of the infection, to remove diseased animals, and to develop and promote improved husbandry and biosecurity practices.

I maintain that these and other such measures should be put into operation to negate the need for the mass slaughter—by gassing, shooting or trapping—of badgers, some of which may be infected, but countless others will have no trace of TB. The danger of traps is that they are likely to ensnare a host of other wildlife animals.

**Irene James:** I find it startling that we are debating a cull of badgers. I say this with my mind firmly on protecting the Welsh farming industry and its high standing in Wales and across the world. Nothing could do more to damage this industry than a cull that, as many consumers are aware, is based on flimsy scientific evidence. Is this how we want to present the industry to potential consumers, especially at a time when ethics play an increasing part in their purchasing decisions?

4.40 p.m.

I know that farmers across Wales are aware—as we all are—of the need to reduce the occurrence of bovine TB, but we cannot cherry-pick the issues and the facts. Only last Friday, I received communication from a farmers' union saying that the results of a recent study were disappointing. I have to ask whether that is how we are now viewing science in Wales. Are we now prepared to commission a study with a preconceived idea of its outcome and then, if the results do not bear that out, we just ignore it? I, for one, hope that that is not the case.

Sometimes, being a good friend means telling someone what they do not want to hear. Perhaps we should consider that during this debate, and look at some of the evidence in front of us. We have just seen the results of the Krebs trials, which had a randomised cull

hefyd o glywed nad oes yr un ateb unigol i ddileu TB mewn gwartheg, ac yr wyf yn croesawu camau i gynnal profion ar bob buches yng Nghymru i ganfod faint o'r haint sydd, i symud anifeiliaid sydd â'r clefyd, ac i ddatblygu a hyrwyddo arferion gwell o ran hwsmonaeth a bioddiogelwch.

Yr wyf yn haeru y dylai'r mesurau hyn a mesurau eraill o'r fath gael eu rhoi ar waith i ddirymu'r angen am ddifa moch daear ar raddfa helaeth—drwy ddefnyddio nwy, saethu neu drapio—efallai y bydd rhai ohonynt wedi'u heintio, ond ni fydd TB o gwbl ar laweroedd o rai eraill. Perygl trapiau yw eu bod yn debygol o ddal llu o anifeiliaid bywyd gwyllt eraill.

**Irene James:** I mi mae'n frawychus ein bod yn trafod difa moch daear. Dywedaf hyn â'm bryd yn bendant ar amddiffyn diwydiant ffermio Cymru a'i enw da yng Nghymru a ledled y byd. Ni allai dim wneud mwy o niwed i'r diwydiant hwn na chynllun difa sydd, fel y gŵyr llawer o ddefnyddwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol wantan. Ai dyma sut yr ydym am gyfleu'r diwydiant i ddarpar gwsmeriaid, yn enwedig ar adeg pan yw moeseg yn chwarae rhan amlycach yn eu penderfyniadau ynghylch prynu?

Gwn fod ffermwyr ym mhob rhan o Gymru—fel pob un ohonom—yn ymwybodol o'r angen i leihau achosion o TB mewn gwartheg, ond ni allwn bigo a dethol y materion a'r ffeithiau. Ddydd Gwener diwethaf, cefais lythyr gan undeb amaethwyr yn dweud bod canlyniad astudiaeth yn ddiweddar yn destun siom. Rhaid imi ofyn ai dyna sut yr ydym yn ystyried gwyddoniaeth erbyn hyn yng Nghymru. A ydym erbyn hyn yn fodlon comisiynu astudiaeth gan ragdybio'i chanlyniad ac yna, os nad yw'r canlyniadau'n cyfateb i hynny, ein bod yn ei hanwybyddu? Yr wyf fi, yn bersonol, yn gobeithio nad yw hynny'n wir.

Weithiau, mae bod yn ffrind da yn golygu dweud rhywbeth nad ydyw am ei glywed wrth rywun. Efallai y dylem ystyried hynny yn ystod y ddadl hon, ac edrych ar rywfaint o'r dystiolaeth o'n blaenau. Yr ydym newydd weld canlyniadau profion Krebs, lle y cafodd

of 11,000 badgers, costing almost £4 million a year for 10 years. The results of the study were clear: culling could make no meaningful contribution to bovine TB control. However, the Assembly sub-committee decided that further culling needed to be carried out. We find ourselves setting a very dangerous precedent here in the way we use scientific evidence.

**Brynle Williams:** Will you give way?

**Irene James:** Well—

**The Deputy Presiding Officer:** Yes or no?

**Irene James:** Given that we are on a very short timescale, I would prefer not to at this moment in time.

**The Deputy Presiding Officer:** I think that that was a 'no', Brynle Williams.

**Irene James:** The results of a much larger cull in Ireland were similarly clear: badgers were culled in massive numbers from 2002 with no marked impact on lowering the occurrence of bovine TB. Bovine TB numbers were stabilising in 2001 until the outbreak of foot and mouth disease, but, after that, under pressure from the farming unions, the Government allowed the free movement of untested cattle.

The Welsh farming industry has a fantastic reputation for producing high-quality produce, and for being excellent stewards of the countryside. In one fell swoop today, we could obliterate that reputation with an ill-advised, knee-jerk reaction to this complicated problem. I appeal to you all to be a true friend to Welsh farmers and to vote against a badger cull.

**William Graham:** For those of us who have the privilege of access to our beautiful countryside, it is always a joy to come across wild animals, particularly badgers. They are primarily nocturnal, so one usually comes across them in the early hours of the morning or late in the evening.

We recognise that we have a unique feature

11,000 o foch daear eu difa ar hap, gan gostio bron £4 miliwn y flwyddyn am 10 mlynedd. Yr oedd canlyniadau'r astudiaeth yn glir: ni allai difa wneud dim cyfraniad ystyrion at reoli TB mewn gwartheg. Fodd bynnag, penderfynodd is-bwyllgor y Cynulliad fod angen difa ymhellach. Mewn sefyllfa o'r fath yr ydym yn gosod cysail peryglus iawn yn y ffordd yr ydym yn defnyddio tystiolaeth wyddonol.

**Brynle Williams:** A wnewch ildio?

**Irene James:** Wel—

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwnewch neu na wnewch?

**Irene James:** Gan fod gennym amserlen hynod gaeth, byddai'n well gennyf beidio ar hyn o bryd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Credaf mai 'na wnaif' oedd yr ateb, Brynle Williams.

**Irene James:** Yr oedd canlyniadau cynllun difa llawer mwy yn Iwerddon yr un mor glir: cafodd nifer aruthrol o foch daear eu difa ers 2002 heb ddim effaith o bwys ar leihau achosion o TB mewn gwartheg. Yr oedd niferoedd yr achosion o TB mewn gwartheg yn sefydlogi yn 2001 nes i glwy'r traed a'r genau ddod, ond, wedi hynny, dan bwysau gan yr undebau ffermio, caniatodd y Llywodraeth i wartheg heb eu profi gael eu symud yn ddilyffethair.

Mae gan ddiwydiant ffermio Cymru enw ardderchog am gynhyrchu cynnyrch o safon uchel, ac am fod yn stiwardiaid ardderchog dros gefn gwlad. Gydag un dyrnod heddiw, gallem chwalu'r enw da hwnnw ag adwaith difeddwl, annoeth i'r broblem gymhleth hon. Apeliar ar bob un ohonoch fod yn gyfaill triw i ffermwyr Cymru a phleidleisio yn erbyn difa moch daear.

**William Graham:** I'r rhai ohonom sy'n cael y ffrainc o fwynhau mynediad at harddwch ein cefn gwlad, mae bob amser yn bleser canfod anifeiliaid gwyllt, yn enwedig moch daear. Anifeiliaid y nos ydynt yn bennaf, felly bydd dyn, fel arfer, yn taro arnynt yn y bore bach neu'n hwyr y nos.

Yr ydym yn cydnabod bod gennym nodwedd

in our countryside: wildlife that has no natural predator except man. Therefore, we are determined that badgers be treated equally to other animals. However, contrast that with the situation of constituents of mine, dairy farmers for generations, who have bred their stock and then found that most of their animals were TB reactors and had to be slaughtered. That is devastation of a particularly nasty kind.

I had the opportunity to talk to vets in Gwent, who reminded me that 26 per cent of all badgers tested in Gwent have TB, which is the highest incidence in Wales, and one of the highest in the United Kingdom. We know that all life is precious, and, clearly, one does not take this step easily, but vets who have examined diseased animals will tell you, as they have told me, that there is a high incidence of TB among badgers, so I am completely persuaded that the measure suggested by the Minister today is the correct one, and that a cull is vital.

I deprecate the suggestions that I have seen in the press recently that this measure was taken by the Minister for purely party political advantage. Informed observers will know that this has been a cross-party matter for some time. A controlled, scientific cull of badgers within a prescribed area must be the way forward. I also deprecate those who have a bogus philosophy and think that they can boycott Welsh products, which shows an extraordinarily closed mind. To offer some reassurance, I am also told that transmission to humans is not possible, and that the TB that is carried by badgers and cattle is not the TB with which we were so familiar in the 1950s in this country, and which was also so particularly commented upon in Victorian melodramas. However, I ask the Minister to reconfirm her confidence in the reactor test. I urge Members to vote for this most necessary measure.

**Alun Davies:** I have spoken on this issue more times than I anticipated upon my

unigryw yn ein cefn gwlad: bywyd gwyllt sydd heb ddim ysglyfaethwr naturiol heblaw dyn. Felly, yr ydym yn benderfynol o sicrhau bod moch daear yn cael eu trin yr un fath ag anifeiliaid eraill. Fodd bynnag, cyferbynnwch hynny â sefyllfa etholwyr i mi, ffermwyr llaeth ers cenedlaethau, sydd wedi magu eu stoc ac yna wedi canfod bod y rhan fwyaf o'u hanifeiliaid yn adweithyddion TB ac yn gorfod cael eu difa. Mae hynny'n ddistryw arbennig o ffaidd.

Cefais gyfle i siarad â milfeddygon yng Ngwent, a'm hatgoffodd fod TB ar 26 y cant o'r holl foch daear y gwnaethpwyd prawf arnynt yng Ngwent, sef y gyfradd uchaf yng Nghymru, ac un o'r rhai uchaf yn y Deyrnas Unedig. Gwyddom fod pob bywyd yn werthfawr, ac, wrth gwrs, nid ar chwarae bach y mae rhywun yn cymryd y cam hwn, ond bydd milfeddygon sydd wedi archwilio anifeiliaid afiach yn dweud wrthyf, fel y maent wedi dweud wrthyf fi, fod llawer iawn o TB ymysg moch daear, felly yr wyf wedi fy argyhoeddi'n llwyr mai'r mesur a awgrymir gan y Gweinidog heddiw yw'r un cywir, a'i bod yn hollbwysig cael cynllun difa.

Gresynaf at yr awgrymiadau yr wyf wedi'u gweld yn y wasg yn ddiweddar mai dim ond er mwyn cael mantais wleidyddol y mae'r Gweinidog wedi cymryd y cam hwn. Bydd sylwedyddion gwybodus yn gwybod bod y mater hwn wedi bod yn un trawsbleidiol ers cryn amser. Cynllun gwyddonol, wedi'i reoli i ddifa moch daear o fewn ardal benodedig yw'r ffordd ymlaen, yn sicr. Gresynaf hefyd at y rhai sydd â ffug athroniaeth ac yn credu y gallant foicotio cynhyrchion o Gymru, gan fod hynny'n dangos bod eu meddwl yn gaeedig dros ben. Er mwyn cynnig rhywfaint o dawelwch meddwl, dywedir wrthyf nad oes modd ei drosglwyddo i bobl, ac nad y TB sy'n cael ei gario gan foch daear a gwartheg yw'r math o TB yr oeddem mor gyfarwydd ag ef yn yr 1950au yn y wlad hon, ac y tynnid cryn sylw ato hefyd ym melodramâu oes Fictoria. Fodd bynnag, gofynnaf i'r Gweinidog ailddatgan ei ffydd yn y prawf adweithyddion. Anogaf yr Aelodau i bleidleisio o blaid y mesur tra angenrheidiol hwn.

**Alun Davies:** Yr wyf wedi siarad ar y mater hwn yn amlach nag yr oeddwn wedi

election to the Assembly, and Members will be aware of my position in this debate. In the past, I have contributed to discussions and debates on this issue as Chair of the Rural Development Sub-committee, but this afternoon I would like to speak personally and, freed from the responsibility of presenting the views of the sub-committee, present my views and where I stand on this issue. When I was elected last year, I came here with no prejudice or preconceived ideas; I had been through an election campaign, and I had been selected a year prior to the election. I had been to hustings and various other meetings up and down mid and west Wales, and certain issues came up time and again, and one of those issues was bovine TB and its impact on communities and on the people who work with cattle day in, day out. I was absolutely shocked by the impact that it has not only on the communities, but on the people who work in that industry and live in those communities. That is why I came here with the single-minded determination that I would do what I could to contribute to the eradication of this terrible disease in Wales, and that is why, as Chair of the sub-committee, I asked the sub-committee to take the eradication of bovine TB as its first investigation, and not to wait until we had returned from the summer recess to begin the inquiry, but to start it at the Royal Welsh Agricultural Show in July last year. We reported in January.

There has been a great deal of discussion and debate, and all sorts of different reports from various sources have been quoted. During this process, I took it upon myself to read almost every piece of scientific advice on this subject. I read through all the reports and articles in all the journals that dealt with this issue. It became absolutely clear to me, and I think to all members of the sub-committee, that there is, absolutely, a link between cattle and wildlife and that bovine TB is transmitted between the two. That link was accepted by almost everyone who gave evidence, and by every member of the sub-committee. That link has also been accepted by the House of Commons' Environment, Food and Rural Affairs Committee. It was not simply our sub-committee that accepted that link; it was accepted by the House of

rhagweld wrth gael fy ethol i'r Cynulliad, a bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'm safbwynt yn y ddadl hon. Yn y gorffennol, yr wyf wedi cyfrannu at drafodaethau a dadleuon ar y mater hwn fel Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, ond y prynhawn yma carwn siarad yn bersonol, a, heb gyfrifoldeb gorfod cyflwyno barn yr is-bwyllgor, cyflwyno fy marn a'm safbwynt fy hun ar y mater hwn. Pan etholwyd fi y llynedd, deuthum yma heb ragfarn na rhagdybiaethau; yr oeddwn wedi bod drwy ymgyrch etholiad, ac yr oeddwn wedi fy nethol flwyddyn cyn yr etholiad. Yr oeddwn wedi bod ar lwyfannau etholiad ac mewn amryw o gyfarfodydd eraill ar hyd a lled y canolbarth a'r gorllewin, a chododd rhai materion dro ar ôl tro, ac un o'r materion hynny oedd TB mewn gwartheg a'i effaith ar gymunedau ac ar y bobl sy'n gweithio gyda gwartheg o ddydd i ddydd. Fe'm brawychwyd yn arw o glywed am ei effaith ar y cymunedau, a hefyd ar y bobl sy'n gweithio yn y diwydiant hwnnw ac yn byw yn y cymunedau hynny. Dyna pam y deuthum yma'n gwbl benderfynol y gwnawn yr hyn a allwn i gyfrannu at ddileu'r afiechyd ofnadwy hwn yng Nghymru, a dyna pam, fel Cadeirydd yr is-bwyllgor, y gofynnais i'r is-bwyllgor ymchwilio'n gyntaf i fater dileu TB mewn gwartheg, a pheidio ag aros nes byddem wedi dychwelyd ar ôl toriad yr haf cyn dechrau ar yr ymchwiliad, ond cychwyn arno yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru fis Gorffennaf y llynedd. Cyflwynasom ein hadroddiad ym mis Ionawr.

Bu llawer iawn o drafod ac o ddadlau, a dyfynnwyd geiriau o bob math o wahanol adroddiadau o amryw o ffynonellau. Yn ystod y broses hon, euthum ati i ddarllen bron pob un o'r cynghorion gwyddonol ar y testun hwn. Darllenis drwy'r holl adroddiadau ac erthyglau yn yr holl gylchgronau a oedd yn ymdrin â'r mater hwn. Daeth yn gwbl glir i mi, ac i holl aelodau'r is-bwyllgor, yr wyf yn credu, fod cyswllt pendant rhwng gwartheg a bywyd gwyllt, a bod TB mewn gwartheg yn cael ei drosglwyddo rhwng y ddau. Yr oedd bron pawb a roddodd dystiolaeth, a phob aelod o'r is-bwyllgor, yn derbyn bod cyswllt o'r fath. Mae Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi derbyn bod cyswllt o'r fath hefyd. Nid ein his-bwyllgor ni'n unig a dderbyniodd fod cyswllt o'r fath; derbyniwyd hynny gan Dŷ'r



Commons and by every single investigation into the subject by anyone over the last year.

Cyffredin a chan bob un ymchwiliad i'r pwnc dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.50 p.m.

I believe that certain consequences follow from that. The Royal Society report that was published recently—since we completed our work—said that 76 per cent of TB infections in cattle came from badgers: 16 per cent occurred because of a lack of cattle controls. If we are serious about controlling the disease effectively, that is simply not possible without interventions within the wildlife population. You can say that you want to see various things happening, with various policies put in place, but unless you take tough decisions about controlling the disease and controlling the reservoir of infection in wildlife, you will simply not be addressing the root cause of the majority of infections of bovine TB in cattle. That is what convinced me, ultimately, about our report. I hope that it was balanced, and I hope that it has formed the basis for the work that the Minister is doing.

Credaf fod rhai canlyniadau'n dilyn hynny. Yn adroddiad y Gymdeithas Frenhinol a gyhoeddwyd yn ddiweddar—ers inni gwblhau ein gwaith—dywedwyd bod 76 y cant o'r achosion o TB mewn gwartheg wedi deillio o foch daear: digwyddodd 16 y cant ohonynt oherwydd diffyg rheoli ar wartheg. Os ydym o ddifrif ynghylch rheoli'r afiechyd yn effeithiol, ni ellir gwneud hynny o gwbl heb ymyrryd â bywyd gwylt. Cewch ddweud eich bod am weld amryw o bethau'n digwydd, gan roi amryw o bolisiau ar waith, ond oni wnewch benderfyniadau anodd ynghylch rheoli'r afiechyd a rheoli'r gronfa o haint mewn bywyd gwylt, ni fyddwch yn delio ag achos sylfaenol y rhan fwyaf o'r achosion o TB buchol mewn gwartheg. Hynny a'm hargyhoeddodd, yn y diwedd, ynghylch ein hadroddiad. Yr wyf yn gobeithio ei fod yn gytbwys, ac yr wyf yn gobeithio ei fod wedi bod yn sail i'r gwaith y mae'r Gweinidog yn ei wneud.

I very much welcome the Minister's introduction to this debate, and the tone and the emphasis of her presentation. A whole package of measures is being put in place that I believe and hope will eradicate this disease from Wales. I came to this debate very much as a lay person—I am not from an agricultural, farming, or even a rural background. I realised the importance of this disease and its eradication, and having examined every piece of evidence that I could find in the sub-committee, I came to the conclusion that I did.

Croesawaf yn fawr y rhagymadrodd gan y Gweinidog i'r ddadl hon, a thôn a phwyslais ei chyflwyniad. Rhoddir pecyn cynhwysfawr o fesurau ar waith yr wyf yn credu ac yn gobeithio y byddant yn dileu'r afiechyd hwn yng Nghymru. Dechreuais gymryd rhan yn y ddadl hon fel lleygwr i raddau helaeth iawn—nid oes gennyf gefndir mewn amaethyddiaeth, ffermio, na hyd yn oed mewn ardal wledig. Sylweddolais mor bwysig oedd yr afiechyd hwn a'r angen i'w ddileu, ac wedi archwilio pob darn o dystiolaeth y gallwn ddod o hyd iddo yn yr is-bwyllgor, deuthum i'r casgliad hwn.

I welcome the Government's position and the Government's statement. It is a very difficult decision, and I am glad that the Government has been able to take it.

Croesawaf safbwynt y Llywodraeth a datganiad y Llywodraeth. Mae'n benderfyniad anodd iawn, ac yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi gallu ei wneud.

**Peter Black:** I will start by acknowledging that a number of the Government's proposals to reduce the incidence of bovine TB are sensible and long overdue. However, the one part of those proposals with which I disagree, and which I believe is misguidedly being used to fob off farmers by giving the

**Peter Black:** Dechreuaf drwy gydnabod bod nifer o gynigion y Llywodraeth i ostwng nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn rhai synhwyrol a'i bod yn hen bryd iddynt ddigwydd. Er hynny, y rhan o'r cynigion hynny nad wyf yn cyd-fynd â hi, ac y credaf ei bod yn cael ei defnyddio'n gyfeiliornus i

impression of a listening Government, is the suggestion of a trial cull of badgers.

We should remind ourselves why we are in this situation. There are many reasons why Wales currently has the worst rate of TB infection in cattle in the UK, but chief among them are certain practices of farmers and of Government. These include not operating full screening until recently; allowing restocking after the decimation by foot and mouth disease via the mass movement of cattle around the nation to the emptied culled farms; the closure of all the small local slaughterhouses, which has led to mass animal movements; and the immense trade in moving live store cattle from poorer pasture areas to finish off fattening in richer pasture areas.

The fault lies in the screening failures of the recent past, and especially the continuous mass movement of livestock on the hoof, carrying infections. It is possible that the situation is aggravated by wildlife such as badgers, but although some might believe that the mass killing of badgers will lower the TB statistics a little, it will have an insignificant impact compared to other measures. The proposed cull of badgers in an as yet unspecified area of Wales is nonsense, because there is not any evidence to justify it. In fact, the evidence runs contrary to the Minister's suggestions: so much for evidence-based Government.

The weight of the scientific evidence suggests that the impact will be limited at best and that it will make things worse in other areas of Wales, specifically in the outskirts of the cull area. Just four years ago, Northern Ireland had a similar rate of bovine TB to Wales, but it has virtually halved that rate without killing a single badger. In contrast, over the same period, the Republic of Ireland has exterminated thousands of badgers and failed to make a dent in its massive bovine TB problem, even though badgers are now virtually extinct in livestock areas.

gadw ffermwyr yn dawel drwy roi'r argraff ei bod yn Llywodraeth sy'n gwranddo, yw'r awgrym ynghylch treial difa moch daear.

Dylem gofio pam yr ydym yn y sefyllfa hon. Mae llawer o resymau pam mai yng Nghymru y mae'r gyfradd waethaf o achosion o TB mewn gwartheg yn y DU ar hyn o bryd, ond y prif reswm yw rhai arferion gan ffermwyr a chan y Llywodraeth. Yn eu mysy y mae peidio â chynnal cynllun sgrinio llawn hyd yn ddiweddar; caniatáu ailstocio ar ôl dinistr clwy'r traed a'r genau drwy symud niferoedd mawr o wartheg o gwmpas y wlad i'r ffermydd a oedd yn wag ar ôl y difa; cau pob un o'r lladd-dai lleol bach, sydd wedi arwain at symud niferoedd mawr o anifeiliaid; a'r fasnach aruthrol o symud gwartheg stôr byw o ardaloedd sydd â phorfeydd salach i orffen eu pesgi mewn ardaloedd sydd â phorfeydd brasach.

Yr hyn sydd ar fai yw'r methiannau o ran sgrinio yn ddiweddar, ac yn enwedig symud niferoedd mawr o dda byw'n barhaus, gan gario heintiau. Mae'n bosibl bod y sefyllfa'n cael ei gwaethygu gan fywyd gwyllt fel moch daear, ond er y gallai rhai gredu y bydd lladd niferoedd mawr o foch daear yn peri i'r ystadegau TB ostwng ryw ychydig, ychydig iawn o effaith a gaiff hynny o'i gymharu â mesurau eraill. Mae'r cynllun arfaethedig i ddifa moch daear mewn rhan o Gymru sydd heb ei phennu eto'n ddisynnwyr, am nad oes dim tystiolaeth i'w gyfiawnhau. Mewn gwirionedd, mae'r dystiolaeth yn mynd yn groes i awgrymiadau'r Gweinidog: naw wfft i Lywodraeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae pwysau'r dystiolaeth wyddonol yn awgrymu y bydd yr effaith yn gyfyngedig ar ei gorau ac y bydd yn gwaethygu pethau mewn rhannau eraill o Gymru, yn enwedig ar gyrion ardal y difa. Bedair blynedd yn ôl, yr oedd cyfradd TB mewn gwartheg yng Ngogledd Iwerddon yn debyg i'r un yng Nghymru, ond mae wedi haneru'r gyfradd honno bron heb ladd yr un mochyn daear. Yn groes i hynny, dros yr un cyfnod, mae Gweriniaeth Iwerddon wedi difa miloedd o foch daear ac wedi methu'n llwyr â datrys y broblem aruthrol sydd ganddi o ran TB mewn gwartheg, er bod moch daear wedi diflannu bron mewn ardaloedd lle y mae da byw.

The Independent Scientific Group in England carried out a 10-year study, which included trials of badger culling. It concluded that culling could make any meaningful contribution to bovine TB control. Its research has been published in international, peer-reviewed journals, and the authors had analysed in detail every possible culling option before reaching their conclusion.

The randomised badger culling trial in England, as has been pointed out, took 10 years and cost between £30 million and £50 million. It was statistically robust and provides every possible piece of scientific evidence that might be obtained by killing badgers. Killing badgers in Wales will not make any contribution to the body of scientific knowledge that already exists. Indeed, the committee did not even bother to state what questions it thought more killing of badgers might answer.

The dictionary definition of ‘cull’ is the killing of animals so as to reduce or limit their number. In this case, what is proposed is not a cull, but a mass extermination of a protected species across a designated area. It will force badgers into other areas—they tend not to roam about much by nature—thus causing any disease in those animals to be spread. There is no doubt in my mind that what is needed is an integrated approach to tackling TB that involves the identification, containment, and eradication of this disease, with the long-term aim of eradicating bovine TB though the use of vaccines, if such technology becomes available. *[Interruption.]* I said ‘If such technology becomes available’.

I know that at least some members of the committee will agree with that. That, at least, is a sensible way forward. Let us not ruin that approach by succumbing to the pressure from rural lobby groups that believe that setting up a protected species as a scapegoat is the way forward. Let us reject as a way forward the barbaric destruction of protected wildlife against all of the evidence. We are in danger of bringing the Assembly into disrepute unless we abandon this proposal of a badger cull.

Cynhaliodd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol yn Lloegr astudiaeth 10 mlynedd, a oedd yn cynnwys treialon difa moch daear. Daeth i'r casgliad na allai difa wneud cyfraniad ystyrllon at reoli TB mewn gwartheg. Cyhoeddwyd ei ymchwil mewn cylchgronau rhyngwladol sydd ag adolygu gan gymheiriaid, ac yr oedd yr awduron wedi dadansoddi'n fanwl bob dewis posibl o ran difa cyn dod i'w casgliad.

Fel y dywedwyd, cymerodd 10 mlynedd i gwblhau'r hap-dreial difa moch daear yn Lloegr a chostiodd rhwng £30 miliwn a £50 miliwn. Yr oedd ei ystadegau'n ddibynadwy ac mae'n rhoi pob darn posibl o dystiolaeth wyddonol y gellid ei gael drwy ladd moch daear. Ni fydd lladd moch daear yng Nghymru'n cyfrannu o gwbl at y corff o wybodaeth wyddonol sy'n bod eisoes. Yn wir, ni thrafferthodd y pwyllgor hyd yn oed i ddatgan pa gwestiynau y credai y gallai rhagor o ladd moch daear eu hateb.

Y diffiniad o ‘ddifa’ yn y geiriadur yw lladd anifeiliaid er mwyn lleihau neu gyfyngu eu nifer. Yn yr achos hwn, nid difa yw'r hyn a gynigir, ond difodi niferoedd mawr o rywogaeth a warchodir ar draws ardal benodedig. Bydd yn gorfodi moch daear i fynd i ardaloedd eraill—nid ydynt yn crwydro ryw lawer o ran natur—gan ledaenu unrhyw afiechyd sydd yn yr anifeiliaid hynny. Yr wyf yn credu'n sicr mai'r hyn y mae ei angen yw dull integredig o ddelio â TB sy'n cynnwys canfod, cyfyngu, a dileu'r afiechyd hwn, gyda'r amcan hirdymor o ddileu TB mewn gwartheg drwy ddefnyddio brechlynnau, os bydd technoleg o'r fath ar gael. *[Torri ar draws.]* Dywedais ‘Os bydd technoleg o'r fath ar gael’.

Gwn y bydd rhai o leiaf o aelodau'r pwyllgor yn cyd-weld â hynny. Mae hynny'n llwybr call i'w ddilyn, o leiaf. Gadewch inni beidio â difetha'r dull hwnnw o weithredu drwy ildio i'r pwysau gan grwpiau lobiö gwledig sy'n credu mai drwy wneud bwch dihangol o rywogaeth a warchodir y symudir ymlaen. Gadewch inni wrthod derbyn difodi creulon ar fywyd gwyllt sydd wedi'i warchod fel ffordd ymlaen, yn groes i'r holl dystiolaeth. Mae perygl inni d dwyn anfri ar y Cynulliad oni roddwn y gorau i'r cynnig hwn i ddifa moch daear.

**Nerys Evans:** Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Er bod llawer o sylw wedi cael ei rhoi i un elfen benodol o gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i geisio cael gwared ar TB yng Nghymru—sef yr elfen ynglŷn â moch daear—mae elfennau hollbwysig eraill sydd angen sylw teilwng. Yr wyf yn falch o weld fod ymrwymiad ‘Cymru’n Un’ yn cael ei wireddu mor gynnar yn y trydydd Cynulliad. Mae’n rhaid i ni gofio, fel sydd wedi cael ei grybwyll eisoes, fod TB mewn gwartheg yn glefyd difrifol iawn a’i bod yn bosibl iddo gael ei drosglwyddo i bobl ac anifeiliaid eraill. Golyga hyn nad yw’r ddadl ynghylch diogelu ein gwartheg yn unig, er bod hyn yn elfen bwysig, wrth gwrs.

Yr ydym wedi clywed bod y nifer o achosion TB wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae oblygiadau mawr i hynny. Cafodd bron i 8,000 o wartheg eu difa yn 2007 o gymharu â 669 yn 1997. Mae hefyd oblygiadau ariannol i Lywodraeth y Cynulliad, a dalodd £15 miliwn mewn iawndal yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Dyma’r sefyllfa. Yn absenoldeb unrhyw frechiad dan drwydded i wartheg yn y Deyrnas Unedig, mae’n hynod bwysig fod y pecyn o fesurau y bu i’r Gweinidog eu hamlinellu’r wythnos diwethaf a heddiw yn cael eu gweithredu.

Mae tair elfen bwysig i hyn. Yn amlwg, mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl bwysig o ran darparu profion cynhwysfawr ar wartheg ar draws Cymru er mwyn darganfod maint y clefyd a difa anifeiliaid sy’n dioddef o TB. Mae sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn drylwyr yn hanfodol i sicrhau gwybodaeth gywir wrth lunio penderfyniadau yn y dyfodol yn y maes hwn. Mae’n bwysig hefyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymgymryd â rhannu gwybodaeth gyda’r diwydiant amaethyddol. Mae diffyg ymwybyddiaeth yn bodoli mewn rhai meysydd—er enghraifft, yn y broses profi—ar hyn o bryd. Mae’n hanfodol i sicrhau llwyddiant y cynllun, yn ogystal â chydweithrediad gyda ffermwyr drwy gydol gweithredu’r cynllun hwn.

Mae hefyd rôl bwysig i’n ffermwyr. Er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun i waredu TB,

**Nerys Evans:** Thank you for the opportunity to contribute to the debate this afternoon. Although a lot of attention has been given to one specific aspect of the Assembly Government’s plans to get rid of TB in Wales—that relating to badgers—there are other important aspects that require due attention. I am pleased to see that the commitment in ‘One Wales’ is being realised so early on in the third Assembly. We must remember, as has already been mentioned, that bovine TB is a very serious disease and that it can be transmitted to people and to other animals. That means that the argument is not just about safeguarding cattle, although that is an important aspect, of course.

We have heard that the number of cases of TB has increased over the last few years, and there are major implications to that. Nearly 8,000 cattle were culled in 2007, compared with 669 in 1997. There are also financial implications for the Assembly Government, which paid out £15 million in compensation during the last financial year. That is the situation. In the absence of a licensed vaccine for cattle in the United Kingdom, it is crucial that the package of measures that the Minister outlined last week and today are implemented.

There are three important elements to this. Obviously, the Assembly Government has an important role in delivering the comprehensive testing of cattle throughout Wales in order to discover the extent of the disease and cull animals that are suffering from TB. Ensuring that this work is done thoroughly is essential to ensure correct information when making decisions about this in future. It is also important that the Assembly Government shares information with the agricultural industry. There is a lack of awareness in some fields—for example, in the testing process—at the moment. It is essential to ensure that the plan is a success, as well as to ensure co-operation with farmers throughout the implementation of this plan.

Our farmers also have an important role to play. In order to ensure the success of the TB

mae'n bwysig bod y diwydiant yn ofalus ac yn drefnus wrth weithredu elfennau'r cynllun ac yn ymddwyn yn rhagweithiol er mwyn dod i'r afael â TB.

Yr elfen olaf yw'r un sydd wedi cael y sylw mwyaf yn y ddadl hon, sef datblygu'r ardal beilot gweithredu dwys er mwyn taclo'r clefyd mewn bywyd gwyllt. Mae'n rhaid pwysleisio mai ardal beilot yw hon ar hyn o bryd. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o'r gwahaniaethau barn gwyddonol, ac yr ydym wedi clywed sawl barn wahanol y prynhawn yma. Fodd bynnag, os ydym o ddifrif ynglŷn â gwaredu TB—ac mae'n rhaid cofio fod lefelau TB yn cynyddu—mae angen y mesurau holistig hyn. Er mwyn llwyddo i ddod i'r afael â'r clefyd hwn—sy'n ddyhead yr wyf yn siŵr mae pawb yn ei rannu—mae'n rhaid bod cydweithio rhagweithiol a chlir rhwng y Llywodraeth a ffermwyr ar yr elfennau ar y cynllun hwn sydd wedi eu hamlinellu. Fel mae nifer o bobl wedi crybwyll y prynhawn yma, nid yw gwneud dim byd yn opsiwn mwyach.

**Nick Ramsay:** I appreciate that time is short, so I will keep my comments brief. Like most Assembly Members from rural areas, I find the problem of bovine TB particularly poignant. As Alun Davies said earlier, if we are serious about tackling this disease, then we have to put measures in place to tackle it over the long term. It is not just a question of talking the talk; we have to walk the walk.

5.00 p.m.

My constituency, Monmouthshire, is particularly affected by TB, as is the wider Gwent area. It has become clear to me from talking to farmers and residents of that area over the past year that previous strategies to deal with this problem have not been effective. I appreciate that this is a challenging subject for all of us here. There is no easy answer so let us not pretend that there will be—we never thought that that would be the case. I know of the hard work that the committee has done on the subject, and, on balance, the approach that it suggested, the approach that the Minister has recommended be followed in this instance, is correct.

eradication plan, it is important that the industry is careful and organised in implementing elements of the plan and is proactive in order to get to grips with TB.

The final element is that which has received most attention in this debate, which is developing the pilot intensive treatment area in order to tackle the disease in wildlife. It must be emphasised that it is a pilot area at the moment. We are all aware of the differing scientific opinions, and we have heard several different opinions this afternoon. However, if we are serious about eradicating TB—and we must remember that the levels of TB are increasing—we need these holistic measures. In order to get to grips with this disease—which is an aspiration that I am sure that we all share—there must be proactive and clear collaboration between the Government and farmers on the aspects of this plan that have been outlined. As many people have said this afternoon, doing nothing is no longer an option.

**Nick Ramsay:** Sylweddolaf fod amser yn brin, felly bydd fy sylwadau'n fyr. Fel y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad o ardaloedd gwledig, yr wyf yn cael bod problem TB mewn gwartheg yn un neilltuol o ingol. Fel y dywedodd Alun Davies yn gynharach, os ydym o ddifrif ynghylch delio â'r afiechyd hwn, rhaid inni roi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag ef dros y tymor hir. Rhaid inni wneud yn ogystal â dweud.

Mae TB yn effeithio'n neilltuol ar fy etholaeth, sef sir Fynwy, fel y mae ar ardal Gwent yn fwy cyffredinol. Mae wedi dod yn amlwg i mi drwy siarad â ffermwyr a thriogion yr ardal honno dros y flwyddyn ddiwethaf nad yw strategaethau blaenorol i ymdrin â'r broblem hon wedi bod yn effeithiol. Sylweddolaf fod hwn yn bwnc anodd inni i gyd yma. Nid oes ateb hawdd, felly gadewch inni beidio ag esgus y bydd un—ni feddylasom erioed y byddai ateb hawdd. Gwn am y gwaith caled y mae'r pwyllgor wedi'i wneud ar y pwnc, ac, o bwysio a mesur, y dull a awgrymir, y dull y mae'r Gweinidog wedi'i argymhell y tro hwn, yw'r un cywir.

I ask the Minister to follow closely the implementation of this holistic approach and the findings from the pilot area, in order to feed those back into the system. However, at the end of the day, we need to see in place a system that helps our farming industry. Bovine TB is a dreadful disease, not only for farmers and their livestock, but for wildlife in general and for our countryside. We have seen inaction on this subject for far too long. I have asked many questions over the past 12 months of the Minister and the First Minister and I have raised the problem in the Chamber. Action has not been taken in the past, but this is concrete action. We hope that it will work. I am willing to support anything that will tackle this disease and anything that is not, as the Minister has said, a free licence for people to kill an endangered species. That was a bad way to put it.

This is a series of measures that will deal with a disease that, if we do not tackle it now, will get worse and worse. The statistics are unbelievable. I am sure that the compensation issue, which the Minister's statement addressed last week, has had a substantial effect on the decision to take this forward. Some 7,905 cattle tested positive for bovine TB in 2007, compared with just over 1,000 in 1999. It is clearly an increasing problem. None of us has all the answers, but let us welcome moves towards a situation where we can at least start to get to grips with tackling this disease. Let us learn from the experts and from areas that this approach may not address and let us feed that back into the system, but let us get on with the job of tackling the disease that has held our farmers and our countryside to ransom for far too long.

**Paul Davies:** I am grateful for the chance to take part in this afternoon's debate. As someone who has close links with the farming industry, I know only too well the effect that this devastating disease has had on

Gofynnaf i'r Gweinidog ddilyn yn ofalus y dasg o weithredu'r dull cyfannol hwn a chanfyddiadau'r ardal beormod ilot, er mwyn bwydo'r rheini yn ôl i'r system. Fodd bynnag, yn y pen draw, mae angen inni gael system sy'n cynorthwyo'n diwydiant ffermio. Mae TB mewn gwartheg yn glefyd ofnadwy, nid dim ond i ffermwyr a'u da byw, ond i fywyd gwyllt yn gyffredinol ac i'n cefn gwlad. Yr ydym wedi gweld diffyg gweithredu yn y maes hwn ers gormod o lawer o amser. Yr wyf wedi gofyn llawer o gwestiynau i'r Gweinidog ac i'r Prif Weinidog dros y 12 mis diwethaf ac yr wyf wedi codi'r broblem yn y Siambr. Nid oes dim wedi'i wneud yn y gorffennol, ond mae'r cam hwn yn un cadarn. Gobeithiwn y bydd yn gweithio. Yr wyf yn barod i gefnogi unrhyw beth a aiff i'r afael â'r clefyd hwn ac unrhyw beth, fel y dywedodd y Gweinidog, nad yw'n rhoi rhwydd hynt i bobl ladd rhywogaeth sydd dan fygythiad. Ffordd wael o'i fynegi oedd hynny.

Mae hyn yn gyfres o fesurau a aiff i'r afael â chlefyd a fydd, onid awn i'r afael ag ef yn awr, yn gwaethygu o hyd. Mae'r ystadegau'n anghredadwy. Yr wyf yn siŵr bod mater yr iawndal, mater yr aeth datganiad y Gweinidog i'r afael ag ef yr wythnos diwethaf, wedi cael cryn effaith ar y penderfyniad i fwrw ymlaen â hyn. Wrth brofi gwartheg am TB yn 2007, cafwyd 7,905 canlyniad positif, o'i gymharu ag ychydig dros 1,000 yn 1999. Mae'n amlwg yn broblem sy'n gwaethygu. Nid yw'r atebion i gyd gan neb ohonom, ond gadewch inni groesawu symudiadau tuag at sefyllfa lle y gallwn o leiaf ddechrau mynd i'r afael â'r clefyd hwn. Gadewch inni ddysgu gan yr arbenigwyr a thrwy edrych ar ardaloedd lle na fydd modd mynd i'r afael â'r broblem drwy'r dull hwn efallai, a gadewch inni fwydo hynny yn ôl i'r system, ond gadewch inni fwrw ymlaen â'r gwaith o fynd i'r afael â'r clefyd sydd wedi dal ein ffermwyr a'n cefn gwlad yn wystl ers gomrod o lawer o amser.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Gan fod gennyf gysylltiadau clôs â'r diwydiant ffermio, gwn yn iawn am yr effaith y mae'r clefyd dinistriol hwn wedi'i chael ar

the agricultural sector. As I said last week, I welcome the package of measures announced by the Minister in which she intends to accept many of the recommendations of the report of the Rural Development Sub-Committee. It is clear that the Assembly Government's policy takes a holistic approach to eradicating the disease. I welcome the fact that the Minister intends to introduce a pilot treatment area in a location where bovine TB is prevalent and that it will include managing the disease in wildlife as well as in cattle.

As we have heard, the number of cattle slaughtered due to the disease has increased fivefold in the past 10 years, and taxpayers now foot the bill to the tune of £15 million. It seems to me that, over the past 10 years, we have received several reports on the issue, but that the disease has not been controlled or eradicated. Bovine TB has caused huge problems in the agriculture industry, and it is clear that the current policy of culling cattle without controlling wildlife is not working. Therefore, I am glad that the policy has now changed and that the control of the wildlife population will take place alongside the culling of cattle in order to eradicate this damaging disease.

This is essential because it is obvious that TB is transferred from wildlife to cattle as well as from cattle to cattle. There is no other explanation for the way in which closed herds contract the disease. Something in the wildlife population must carry it onto the farm in the first place. None of us is advocating the wholesale culling of badgers. I am supporting the Government's approach of targeting a cull of badgers in an area that has a high incidence of TB. It will take place in an area that has been identified as a TB hot spot. I wish to make it clear that if it is possible for us to avoid culling wildlife we should, and I know that farmers up and down the country would want to avoid that.

The results of the Wales badger found dead survey were consistent with badgers being a wildlife reservoir of bovine TB in the United Kingdom and their being involved in the transmission of infection to cattle and vice

y sector amaethyddol. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, yr wyf yn croesawu'r pecyn o fesurau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog lle y mae'n bwriadu derbyn llawer o argymhellion adroddiad yr Isbwyllgor Datblygu Gwledig. Mae'n amlwg bod polisi Llywodraeth y Cynulliad yn arddel dull cyfannol o fynd ati i ddileu'r clefyd. Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn bwriadu cyflwyno ardal driniaeth beilot mewn ardal lle y ceir TB mewn gwartheg ac y bydd hynny'n cynnwys rheoli'r clefyd ymhlith bywyd gwyllt yn ogystal ag mewn gwartheg.

Fel yr ydym wedi clywed, mae cynifer bum gwaith o wartheg yn cael eu difa oherwydd y clefyd ag a oedd 10 mlynedd yn ôl, ac mae trethdalwyr bellach yn ysgwyddo bil sy'n £15 miliwn. Ymddengys i mi, dros y 10 mlynedd diwethaf, ein bod wedi cael sawl adroddiad am y mater, ond nad yw'r clefyd wedi'i reoli na'i ddileu. Mae TB mewn gwartheg wedi peri problemau anferth yn y diwydiant amaethyddol, ac mae'n amlwg nad yw'r polisi presennol, sef difa gwartheg heb reoli bywyd gwyllt, yn gweithio. Felly, yr wyf yn falch bod y polisi wedi newid erbyn hyn ac y caiff bywyd gwyllt ei reoli ochr yn ochr â lladd gwartheg er mwyn dileu'r clefyd dinistriol hwn.

Mae hyn yn hollbwysig oherwydd y mae'n amlwg bod TB yn cael ei drosglwyddo o fywyd gwyllt i wartheg yn ogystal ag o wartheg i wartheg. Nid oes ffordd arall o esbonio sut y mae buchesi cae'dig yn cael y clefyd. Rhaid mai anifail gwyllt sy'n ei gludo i'r fferm yn y lle cyntaf. Nid oes neb ohonom yn argymhell difa pob mochyn daear ym mhob man. Yr wyf yn cefnogi dull y Llywodraeth, sef targedu difa moch daear mewn ardal lle y ceir llawer o achosion o TB. Bydd yn digwydd mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n ardal â phroblem TB. Yr wyf am ei gwneud yn glir, os oes modd inni osgoi difa bywyd gwyllt, y dylem wneud hynny, a gwn y byddai ffermwyr ym mhob cwr o'r wlad am osgoi hynny.

Yr oedd canlyniadau'r arolwg o foch daear a ganfuwyd yn farw yng Nghymru'n gyson â'r ddadl bod moch daear yn gronfa o TB buchol ymhlith bywyd gwyllt y Deyrnas Unedig a bod ganddynt ran yn y broses o drosglwyddo

versa. In the light of this survey, it seems impossible to avoid this course of action if we seriously want to tackle and eradicate this disease.

In the Republic of Ireland the number of TB reactors fell by 42.6 per cent between 2002 and 2006, after the Government there adopted its strategy. It is only right that additional areas will not be considered until a robust review and a proper evaluation of the cull has been undertaken. I hope that the Minister will give due consideration to setting up the initial pilot area in west Wales, in a part of my constituency, where the problems have been prolonged for far too long.

This disease has also been having serious animal health consequences, due to the fact that farmers are unable to sell their livestock and it becomes difficult to house all of their animals.

There has been a huge issue around removing TB reactors from farms. I welcomed the Minister's announcement last week about reducing the time that it takes to carry out these removals. This has been causing huge welfare problems for farmers. For far too long, the agricultural sector has heard warm words but seen no action from Government. However, in the light of last week's statement, we are finally seeing action that will hopefully eradicate this disease. This holistic approach will not only be in the interests of agriculture, it will also be in the taxpayers' interests, as this will lead to a reduction in compensation payments, currently at a huge level of £15 million.

Farmers have been waiting a long time for this and I welcome the proposals made by the Government last week. I will have no hesitation in supporting those proposals today. I hope that we will see, once and for all, the back of TB, a disease that has done so much damage in rural Wales.

haint i wartheg ac i'r gwrthwyneb. Yng ngoleuni'r arolwg hwn, ymddengys ei bod yn amhosibl osgoi'r llwybr hwn os ydym o ddifrif am fynd i'r afael â'r clefyd hwn a'i ddileu.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, gwelwyd gostyngiad o 42.6 y cant yn y nifer a adweithiodd i brawf TB rhwng 2002 a 2006, ar ôl i'r Llywodraeth fabwysiadu ei strategaeth yno. Mae'n briodol na fydd ardaloedd ychwanegol yn cael eu hystyried nes i'r cynllun difa hwn gael ei adolygu'n drwyadl a'i werthuso'n iawn. Gobeithiaf y gwnaiff y Gweinidog ystyried yn ddwys sefydlu'r ardal beilot gychwynnol yn y gorllewin, mewn rhan o'm hetholaeth, lle y mae'r problemau wedi llusgo ers gormod o lawer o amser.

Mae'r clefyd hefyd wedi bod yn effeithio'n ddifrifol ar iechyd anifeiliaid, oherwydd nid yw ffermwyr yn gallu gwerthu eu da byw, ac mae cadw'u hanifeiliaid i gyd dan do'n mynd yn anodd iddynt.

Mae problem fawr wedi codi o ran symud anifeiliaid sy'n adweithio i brawf TB oddi ar ffermydd. Croesewais gyhoeddiad y Gweinidog yr wythnos diwethaf ynglŷn â symud yr anifeiliaid hyn yn gyflymach. Mae hyn wedi bod yn peri problemau lles enfawr i ffermwyr. Ers gormod o lawer o amser, mae'r sector amaethyddol wedi clywed geiriau hynaws, ond heb weld dim gweithredu gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r datganiad yr wythnos diwethaf, yr ydym o'r diwedd yn gweld gweithredu a fydd, gobeithio, yn dileu'r clefyd hwn. Drwy fynd ati mewn dull cyfannol fel hyn, bydd hyn nid yn unig er lles amaethyddiaeth ond er budd trethdalwyr hefyd, gan y bydd yn golygu llai o dalu iawndal, sydd ar hyn o bryd yn aruthrol o uchel, sef £15 miliwn.

Mae ffermwyr wedi bod yn aros am hyn ers tro, a chroesawaf gynigion y Llywodraeth yr wythnos diwethaf. Ni phetrusaf ddim wrth gefnogi'r cynigion hyn heddiw. Gobeithio y gwelwn, unwaith ac am byth, ddiwedd ar TB, clefyd sydd wedi gwneud cymaint o ddifrod yn y Gymru wledig.



**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw ac am y safbwyntiau amrywiol a didwyll a fynegwyd. Mae'n dda clywed bod yr holl bleidiau gwleidyddol yn cytuno ar bwysigrwydd y rhaglen, ac yn bwysicach na hynny, bod mwyafrif yr Aelodau yn cydnabod nad yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol. Er bod y pleidiau gwleidyddol yn derbyn y rhaglen yn ei chyfanrwydd, yr wyf yn deall bod unigolion o fewn y gwahanol bleidiau yn ansicr ynglŷn ag elfennau o'r rhaglen, neu'n anghytuno â nhw.

Bu'n benderfyniad anodd a chymhleth, ond nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn o'm rhan i nac o ran y Llywodraeth. Yr wyf yn ymwybodol bod safbwyntiau cryf gan bobl am yr effaith ar fywyd gwylt. Yr wyf wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r gwahaniaeth barn ymhlith gwyddonwyr a gwleidyddion o ran materion iechyd a lles gwartheg a moch daear, fel ei gilydd.

Pwysleisiaf fod lleoliad a dull difa'r moch daear eto i'w benderfynu. Byddaf yn derbyn arweiniad ar y mater hwn gan y grŵp strategaeth iechyd a lles anifeiliaid. Gofynnodd Lorraine Barrett imi pam na chafodd y grŵp strategaeth hwn gyfle i drafod lladd moch daear cyn y datganiad. Bu'n rhaid i'r Llywodraeth a'r Cabinet wneud penderfyniad o egwyddor i gychwyn, a bydd y grŵp strategaeth hwn yn rhoi'r cyngor imi ar sut i weithredu'r polisi. Bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud y penderfyniadau yn gyntaf, nid er mwyn tanseilio gwaith y grŵp ond i roi arweiniad i'w waith ar fater gwyddonol a gwleidyddol. Credaf ei bod yn briodol i'r Llywodraeth roi'r arweiniad hwnnw.

Mae llawer o Aelodau wedi gofyn am y capasiti i gyflawni'r rhaglen o ran y sector cyhoeddus a'r sector preifat a milfeddygon. Mae'r gyllideb ychwanegol o £27.7 miliwn yn gyfraniad sylweddol tuag at adeiladu'r capasiti hwnnw. Fel y dywedais yn fy araith agoriadol, bydd y byrddau rhanbarthol y byddwn yn eu creu yn cael eu harwain gan yr asiantaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid a bydd hynny'n sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn gydlynol.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I thank everyone for the contributions today and for the range of genuine opinions aired. It is good to hear that all the political parties agree on the importance of the programme and, more importantly, that a majority of Members recognise that the current situation is unacceptable. Although the political parties accept the programme in its entirety, I understand that some individuals from various parties are unsure about or disagree with some elements of it.

It was a difficult and complex decision, but neither the Government nor I came to the decision lightly. I know that people have strong views about the effect on wildlife. I have given appropriate consideration to the difference of opinion among scientists and politicians on health and welfare issues affecting both cattle and badgers.

I emphasise that no decision has yet been made on the site and on the method of culling the badgers. I will take a lead from the animal health and welfare strategy group on this issue. Lorraine Barrett asked me why that strategy group was not given the opportunity to discuss the culling of badgers before the announcement was made. The Government and the Cabinet first had to make a decision in principle, and the strategy group will advise me on how to implement that policy. The Government had to make the decision, not in order to undermine the work of the group but to give direction to its work on a scientific and political matter. I believe that it is appropriate for the Government to give that direction.

A number of Members have asked about the capacity of the public sector, the private sector and veterinarians to implement the programme. The additional budget of £27.7 million is a significant contribution towards building that capacity. As I said in my opening speech, the regional boards that we will create will be led by the Animal Health and Welfare agency, which will ensure that the work is completed effectively and cohesively.

5.10 p.m.

Cyfeiriodd Trish Law ac Irene James at adroddiad y grŵp gwyddonol annibynnol. Ni fydd y Llywodraeth yn diystyru cynnwys y treialon yn Lloegr ac ymchwil y grŵp. Bydd canlyniadau negyddol a chadarnhaol y treialon hynny yn llywio ein gweithredu ni yng Nghymru ac yn cynnwys yr angen, fel y nododd Lorraine Barrett, i sicrhau'r ffiniau caled hynny sy'n angenrheidiol i unrhyw ardal beilot er mwyn lleihau'r risg o ledu'r clefyd.

Credaf fod pawb y prynhawn yma wedi derbyn y gall y dystiolaeth fod yn gymysglyd—pawb oni bai am Peter Black, a oedd ond yn barod i gydnabod un agwedd ar y dystiolaeth, sef yr agwedd honno a oedd yn cadarnhau ei farn bersonol ef. Byddwn yn mentro dweud bod hon yn agwedd unllygeidiog oddi wrth un Aelod yn unig y prynhawn yma.

Yr hyn yr wyf eisiau ei weld yng Nghymru yw gwartheg iach, a bywyd gwyllt iach. Mae'r rhaglen hon yn un gynhwysfawr, ymarferol a chymesur, a fydd yn mynd benben i'r afael â'r afiechyd hwn. O gymryd camau breision yn awr, byddwn yn diogelu lles ein bywyd gwyllt, a lles ein hanifeiliaid fferm i'r tymor hir.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are. In that case, I call a vote.

Trish Law and Irene James referred to the report of the independent scientific group. The Government will not disregard the findings of the trials in England and the group's research. The negative and positive conclusions of those trials will provide a steer for our actions in Wales and will include, as Lorraine Barrett said, the need to secure the hard boundaries that are required for any pilot area in order to minimise the risk of spreading the disease.

I believe that everyone has accepted this afternoon that the evidence can be mixed—everybody with the exception of Peter Black, who was willing to recognise only one part of the evidence, namely the part that confirmed his own opinion. I would go as far as to say that that was a blinkered view taken by only one Member this afternoon.

What I want to see in Wales is healthy cattle and healthy wildlife. This programme is comprehensive, practical and measured, and will tackle this disease head on. In taking these giant steps now, we will safeguard the welfare of our wildlife and our farmed animals in the long term.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw ein bod yn cytuno â'r cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad. Gwelaf fod. Felly, galwaf am bleidlais.

*Cynnig (NDM3906): O blaid 38, Ymatal 2, Yn erbyn 12.  
Motion (NDM3906): For 38, Abstain 2, Against 12.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Asghar, Mohammad  
Bates, Mick  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Cairns, Alun  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
Evans, Nerys  
Franks, Chris

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
James, Irene  
Jones, Ann  
Law, Trish  
Lewis, Huw  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Sinclair, Karen

German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Griffiths, John  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, David  
Melding, David  
Millar, Darren  
Morgan, Rhodri  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Cuthbert, Jeff  
Jenkins, Bethan

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** That brings **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â'r  
this afternoon's business to a close. cyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.11 p.m.  
The meeting ended at 5.11 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Irene (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)